Cyfrinachol

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

# Adolygiad o'r Cod Darlledu

## Paratoi ar gyfer cyfrifoldebau newydd Ofcom yn rheoleiddio'r BBC

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mawrth 2017

# Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn nodi diwygiadau Ofcom i'r Cod Darlledu ("y Cod") fel ei fod yn berthnasol i'r BBC.  Mae hefyd yn cynnwys diwygiadau eraill i sicrhau bod y Cod yn aros yn glir ac yn berthnasol i'r holl ddarlledwyr a darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yr ydym yn eu rheoleiddio.

Mae Siarter a Chytundeb newydd y BBC yn mynnu bod yn rhaid i Wasanaethau Darlledu a Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn y DU[1] gydymffurfio â'r Cod, a bod yn rhaid i Ofcom sicrhau safonau cynnwys ar gyfer y BBC. Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod i adlewyrchu'r gofynion hyn.

Mae Ofcom wedi ystyried yn ofalus yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae'r datganiad hwn yn cwblhau'r adolygiad.  Bydd y Cod Darlledu diwygiedig yn dod i rym pan fydd Ofcom yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r BBC ar y Dyddiad Dod i Rym sy'n cael ei nodi yn y Siarter, sef 3 Ebrill 2017[2].

[1] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).
[2] Mae Ofcom eisoes wedi cyhoeddi'r fersiynau diwygiedig o Adran Pump, Adran Chwech a rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Gwleidyddol a Refferenda ar wefan Ofcom (https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/broadcast-impartiality-accuracy-and-elections-rules-review). Daeth y rheolau hyn i rym ar 22 Mawrth 2017, pan ddechreuom reoleiddio'r BBC yn y meysydd hyn, a phan ddechreuodd cyfnod yr etholiad ar gyfer etholiadau Mai 2017.

# Cynnwys

| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 1 |
| 2 | Ymatebion i'r ymgynghoriad a'n penderfyniadau | 4 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Y Cefndir Statudol | 14 |
| 2 | Cod Darlledu Diwygiedig Ofcom (gyda'r Cod Trawshyrwyddo a'r Rheolau ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad) | 17 |

**Adran 1**

# Cyflwyniad

1.1 Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Siarter Frenhinol a Chytundeb newydd ar gyfer y BBC[3]. Byddant yn dod i rym ar y Dyddiad Dod i Rym sydd yn y Siarter, sef 3 Ebrill 2017.

1.2 O dan y Siarter a'r Cytundeb newydd, Ofcom fydd yn llwyr gyfrifol am reoleiddio'r BBC yn allanol. Bydd yn rhaid i Ofcom reoleiddio safonau cynnwys ar gyfer Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU ("gwasanaethau darlledu'r BBC")[4] a Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU ("Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC")[5] i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion sydd yng Nghod Darlledu Ofcom ("y Cod").

1.3 Mae'r datganiad hwn yn nodi penderfyniadau Ofcom ar y diwygiadau i'r Cod fel ei fod yn gwbl berthnasol i wasanaethau darlledu'r BBC ac, fel sy'n berthnasol, i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC. Mae hefyd yn cynnwys diwygiadau eraill i ddarparu eglurder i'r holl ddarlledwyr a darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yr ydym yn eu rheoleiddio.

## Y fframwaith cyfreithiol

1.4 Mae **Atodiad 1** yn cynnwys manylion cefndir statudol llawn y datganiad hwn. Mae crynodeb isod.

### Y Ddeddf Cyfathrebiadau

1.5 O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") mae'n rhaid i Ofcom lunio cod ar gyfer gwasanaethau teledu a radio, gan osod safonau sy'n ymddangos iddo fel y rhai gorau i sicrhau nifer o amcanion safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni. Mae'r safonau mae Ofcom wedi'u gosod i'w cael yn y Cod.

### Siarter a Chytundeb y BBC

1.6 Y Siarter Frenhinol ydy sylfaen gyfansoddiadol y BBC. Mae'n nodi dibenion cyhoeddus y BBC, yn gwarantu ei annibyniaeth, ac yn rhoi fframwaith ar gyfer ei ariannu, ei lywodraethu a'i reoleiddio. Mae Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a'r BBC yn eistedd ochr yn ochr â'r Siarter sy'n rhoi manylion ynghylch nifer o'r pynciau sy'n cael eu hamlinellu yn y Siarter.

[3] https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement
[4] Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU ydy gwasanaethau darlledu'r BBC sy'n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded (ac eithrio'r World Service). Nid yw'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar wasanaethau masnachol y BBC sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom sydd eisoes yn ddarostyngedig i waith Ofcom yn rheoleiddio safonau golygyddol yn llwyr.
[5] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).

1.7 O dan y Siarter a’r Cytundeb blaenorol[6], roedd goruchwylio allbwn y BBC yn rheoleiddiol yn cael ei rannu gan Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom. Roedd y cyfrifoldebau’n gorgyffwrdd yn y rhan fwyaf o feysydd o ran safonau golygyddol, fel: amddiffyn y rheini sydd dan ddeunaw oed; niwed a thramgwydd; a throsedd. Serch hynny, dim ond Ymddiriedolaeth y BBC oedd yn gyfrifol am orfodi safonau golygyddol ym meysydd didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy; etholiadau a refferenda; cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu; a chyfathrebiadau masnachol mewn rhaglenni radio.

1.8 O dan Erthygl 46(7) y Siarter Newydd, rhaid i Ofcom sicrhau y glynir wrth safonau cynnwys yng Ngwasanaethau Cyhoeddus perthnasol y BBC yn y DU, yn unol â’r Cod. Mae Atodlen 3, paragraffau 3 a 4 y Cytundeb newydd yn darparu bod yn rhaid i wasanaethau darlledu'r BBC gydymffurfio â gofynion y Cod; a bod yn rhaid i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC hefyd gydymffurfio â gofynion y Cod i’r graddau y mae Ofcom yn penderfynu eu bod yn berthnasol i ddarparu’r gwasanaethau hyn.

1.9 Felly ymgynghorodd Ofcom ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod fel ei fod yn berthnasol i'r BBC yn unol â'r Cytundeb.

1.10 Mae’r rhwymedigaethau rheoleiddio yn Atodlen 3 y Cytundeb yn rhwymo’r BBC ac mae modd i Ofcom eu gorfodi[7].

## Crynodeb o gynigion yr ymgynghoriad

1.11 Ar 15 Rhagfyr, ymgynghorodd Ofcom ar y newidiadau canlynol i'r Cod Darlledu:

- diwygiadau i'r Cod fel bod pob rhan ohono'n berthnasol i wasanaethau darlledu'r BBC. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau arfaethedig i rai Adrannau o’r Cod nad ydynt ar hyn o bryd yn berthnasol i wasanaethau darlledu'r BBC; a

- diwygiadau i’r Cod fel bod rheolau'r Cod yn gymwys, i’r graddau y penderfynwn eu bod yn berthnasol, i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC.

1.12 Cynigiodd Ofcom ddiwygiadau eraill hefyd gyda'r nod o ddarparu eglurder i'r holl ddarlledwyr a darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yr ydym yn eu rheoleiddio. Croesawyd barn y rhanddeiliaid ar y canlynol:

- cynnig i symud y rheolau statudol cyhoeddedig sy’n berthnasol ar hyn o bryd i holl Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad eraill y DU sy’n cael eu rheoleiddio i’r un ddogfen â'r Cod, fel eu bod ar gael ochr yn ochr â'r Cod; a

- mân ddiwygiadau i adlewyrchu dyletswyddau Ofcom o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

[6] http://www.bbc.co.uk/bbctrust/governance/regulatory_framework/charter_agreement.html
[7] Ac eithrio paragraff 2, Atodlen 3 (canllawiau golygyddol y BBC) nad oes modd i Ofcom ei orfodi.

## Y camau nesaf

1.13 Mae'r datganiad hwn yn cwblhau adolygiad Ofcom o'r Cod wrth iddo baratoi ar gyfer ei gyfrifoldebau newydd yn rheoleiddio'r BBC. Mae Adran Dau o'r ddogfen hon yn crynhoi barn rhanddeiliaid ar ein diwygiadau arfaethedig i'r Cod ac unrhyw newidiadau y mae Ofcom wedi'u gwneud i'w gynigion o ganlyniad i'r ymatebion hyn.

1.14 Bydd Cod Darlledu diwygiedig Ofcom, sydd ar gael yn **Atodiad 2** (gyda'r Cod Trawshyrwyddo a'r rheolau ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad) yn dod i rym pan fydd Ofcom yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r BBC ar y Dyddiad Dod i Rym sy'n cael ei nodi yn y Siarter, sef 3 Ebrill 2017.

1.15 Ymgynghorodd Ofcom ar wahân ar y newidiadau arfaethedig i Adrannau Pump (Didueddrwydd dyladwy) a Chwech (Etholiadau a refferenda) y Cod fel eu bod yn berthnasol i'r BBC ac o ran dileu'r rhestr o 'bleidiau mwy' o'n rheolau etholiadau. O ganlyniad i'r etholiadau a fydd yn cael eu cynnal ym mis Mai 2017[8], mae Ofcom eisoes wedi cyhoeddi'r fersiynau diwygiedig o Adran Pump, Adran Chwech a rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Gwleidyddol a Refferenda (https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/broadcast-impartiality-accuracy-and-elections-rules-review).
Daeth y rheolau hyn i rym ar 22 Mawrth 2017, pan ddechreuom reoleiddio'r BBC yn y meysydd hyn[9].

[8] Ym mis Mai 2017, cynhelir yr etholiadau canlynol:
- etholiadau lleol (a maerol) yn Lloegr;
- etholiadau lleol yng Nghymru; ac
- etholiadau lleol yn yr Alban

[9] O dan y trefniadau pontio yn y Siarter a'r Cytundeb

## Adran 2

# Ymatebion i'r ymgynghoriad a'n penderfyniadau

2.1 Cafodd Ofcom bum ymateb i'r ymgynghoriad ar y diwygiadau arfaethedig i'r Cod Darlledu ("y Cod"). Roedd y rhain gan: y BBC; ITV ac STV ("ITV/STV"); Radio Centre; UK Lawyers for Israel; a Voice of the Listener and Viewer ("VLV").

2.2 Nodir isod y cynigion, crynodeb o'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid ac ymateb Ofcom i'r rhain. Mae'r ymatebion llawn wedi'u cyhoeddi ar wefan Ofcom[10]. Mae fersiwn terfynol o'r Cod ar gael yn **Atodiad 2**.

## Y diwygiadau arfaethedig i'r Cod er mwyn i bob rhan ohono fod yn berthnasol i wasanaethau darlledu'r BBC

2.3 O dan Atodlen 3, paragraffau 3 a 4 y Cytundeb newydd, mae'n ofynnol i wasanaethau darlledu'r BBC gydymffurfio'n llwyr â gofynion y Cod.

2.4 Felly, mae Ofcom yn cynnig y diwygiadau canlynol i'r Cod:

- diweddaru'r ddwy adran ragarweiniol: "Cefndir Deddfwriaethol y Cod”; a “Sut mae defnyddio'r Cod” gan gyfeirio at y Siarter a'r Cytundeb newydd i esbonio bod pob rhan o'r Cod yn berthnasol i wasanaethau darlledu'r BBC h.y. cynnwys teledu a radio (ac eithrio BBC World Service.); a

- diweddaru adrannau rhagarweiniol Adran Naw (cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu) ac Adran Deg (cyfathrebiadau masnachol mewn rhaglenni radio) i esbonio y bydd yr adrannau hyn yn berthnasol i wasanaethau darlledu'r BBC (a ariennir gan ffi’r drwydded) a Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC, gan gynnwys cynnwys a ariennir yn rhannol drwy ddulliau ariannu eraill, yn unol â Chymal 49 o Gytundeb y BBC, yn ogystal â gwasanaethau masnachol y BBC a drwyddedir gan Ofcom o dan y drefn reoleiddio bresennol.

Ymatebion rhanddeiliaid a phenderfyniad Ofcom ar y diwygiadau arfaethedig

2.5 Cytunodd y BBC fod y diwygiadau arfaethedig yn golygu bod holl adrannau'r Cod yn berthnasol bellach i wasanaethau darlledu'r BBC. Nododd fod yr ymgynghoriad yn egluro nad yw'r Cod Trawshyrwyddo yn berthnasol i'r BBC ac, er mwyn darparu eglurder, awgrymodd y gallai Ofcom nodi hyn yn Adran Naw y Cod (Cyfeiriadau Masnachol mewn Rhaglenni Teledu).

2.6 Mae'r Cod Trawshyrwyddo wedi'i gynnwys fel Rhan Dau y Cod. Rydym wedi ychwanegu nodyn at ragarweiniad y Cod Trawshyrwyddo nad yw'n berthnasol i

[10] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/amendments-to-ofcoms-broadcasting-code

wasanaethau'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded a bod trawshyrwyddiadau ar wasanaethau o'r fath yn ddarostyngedig i Gymal 63 Cytundeb y BBC.

2.7 Cytunodd Radio Centre fod y cynigion yn rhesymol ac roedd, ar y cyfan, yn cefnogi'r newidiadau sy'n ofynnol i ddiweddaru'r Cod. Gan roi sylwadau ar Adran Deg (Cyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Radio) yn benodol, dywedodd Radio Centre fod y newidiadau arfaethedig yn "gyfiawn ac yn rhesymol" ac ynghyd â chanllawiau golygyddol y BBC ei hun, "y dylent ddarparu rhywfaint o dryloywder i'r BBC yn y maes hwn, sydd i'w groesawu".

2.8 Cytunodd ITV/STV i raddau helaeth â'r diwygiadau arfaethedig i'r Cod i adlewyrchu'r ffaith bod cylch gwaith Ofcom mewn perthynas â'r BBC yn cael ei ymestyn yn y maes hwn, ond awgrymodd fân bwyntiau drafftio i'r 'Nodiadau' yn Adran Naw. Eir i'r afael â'r rhain isod:

2.8.1 Roedd ITV/STV o'r farn bod cynnig Ofcom i ddileu'r term 'cyfeiriadau masnachol' o'r 'Nodyn' ar ddechrau Adran Naw ac ychwanegu'r term 'gweithgarwch masnachol' yn ddryslyd o bosibl. Awgrymodd ddiwygiad pellach i'r testun hwn er mwyn bod yn fwy eglur.

2.8.2 Roedd ITV/STV hefyd o'r farn y gellid bellach hepgor y 'Nodiadau' eraill sy'n ategu'r diffiniadau yn ymwneud â lleoliad cynnyrch gan nad oeddent, ym marn ITV, yn ychwanegu at ddealltwriaeth pobl o'r rheolau.

2.8.3 Yn olaf, roedd ITV/STV o'r farn y dylid diwygio'r 'Nodyn' sy'n ategu Rheol 9.18 (ar gynnwys allbwn wedi'i noddi) i egluro'n well pa reolau sy'n berthnasol i gyfeiriadau at gynhyrchion, gwasanaethau neu nodau masnach noddwr mewn rhaglenni, pan nad yw cyfeiriadau o'r fath yn deillio o drefniant lleoli cynnyrch.

2.9 Cyflwynwyd y 'Nodiadau' sy'n rhan o Adran Naw y Cod ym mis Chwefror 2011 i ategu'r rheolau newydd a oedd yn caniatáu lleoli cynnyrch mewn rhaglenni yn y DU, am y tro cyntaf. Roedd cyflwyno'r rheolau hyn yn newid sylweddol i'r modd y câi cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu eu rheoleiddio. Cafodd y 'Nodiadau' eu cynnwys i helpu darlledwyr i ddeall goblygiadau posibl y rheolau newydd.

2.10 Er bod y farchnad lleoli cynnyrch wedi datblygu a'r darlledwyr wedi ymgyfarwyddo â'r rheolau cysylltiedig, rydym ni o'r farn o hyd y gall y 'Nodiadau' roi gwybodaeth ddefnyddiol am Adran Naw i ddefnyddwyr y Cod. Felly, mewn ymateb i sylwadau ITV/STV, rydym wedi gwneud y canlynol:

2.10.1 diwygio'r 'Nodyn' ac 'Ystyr cyfeiriad masnachol' ar ddechrau Adran Naw i egluro cwmpas y rheolau yn yr adran hon;

2.10.2 dileu'r 'Nodiadau' eraill sy'n ategu'r diffiniadau lleoli cynnyrch gan ein bod yn cytuno nad ydynt yn angenrheidiol mwyach; a

2.10.3 diwygio'r 'Nodyn' sy'n ategu Rheol 9.18 i egluro pa reolau sy'n berthnasol i gyfeiriadau at gynhyrchion, gwasanaethau neu nodau

masnach noddwr nad ydynt yn deillio o drefniant lleoli cynnyrch. Er mwyn bod yn gyson, rydym hefyd wedi gwneud rhai mân ddiwygiadau i 'Nodyn 2' yn y rhagarweiniad i'r adran Nawdd.

2.11 Nid oedd VLV yn gwrthwynebu cynigion Ofcom, o ran egwyddor, ond roedd yn credu bod "rheoleiddio'r BBC yn unol â'r Cod Darlledu yn unig yn annigonol". Ychwanegodd VLV y byddai'n arwain at "ostyngiad sylweddol yn y graddau y caiff safonau'r BBC eu goruchwylio'n annibynnol" gan fod safonau'r Cod yn "llai trwyadl" na Chanllawiau Golygyddol presennol y BBC ac na fyddant yn berthnasol i holl gynnwys y BBC. Argymhellodd VLV y dylai Ofcom "farnu apeliadau ar sail Canllawiau Golygyddol y BBC".

2.12 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau safonau yng ngwasanaethau darlledu'r BBC a Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn unol â'r Cod ac nid â Chanllawiau Golygyddol y BBC, ac anghytunwn fod safonau'r Cod yn llai trwyadl. Mae'r rheolau, yr arweiniad a'r penderfyniadau rydym wedi'u cyhoeddi yn nodi ac yn egluro'n fanwl y safonau rydym yn eu defnyddio ac mae gan Ofcom enw da am orfodi cadarn a thrwyadl.

2.13 Roedd VLV o'r farn y dylai Ofcom hefyd oruchwylio safonau cynnwys yn y meysydd canlynol o weithgarwch y BBC: "cynnwys anffeithiol"[11]; cynnwys ar-lein; cynnwys y cyfryngau cymdeithasol; World Service; ac y dylai hefyd ystyried "materion cyffredinol" fel apeliadau masnach deg a thrwyddedau teledu.

2.14 Mae swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â'r BBC wedi'u nodi'n glir yn y Siarter a'r Cytundeb ac yn y pen draw, y Llywodraeth fydd yn pennu eu cwmpas. Mae Ofcom wedi cyhoeddi 'Cyflwyniad i Fframwaith Gweithredu Ofcom ar gyfer y BBC' sy'n disgrifio ein rôl a'n cyfrifoldebau o dan y drefn reoleiddio ac mae'n cynnwys y darpariaethau y mae Ofcom yn ystyried eu bod yn briodol i sicrhau bod gweithgareddau'r BBC fel y'u nodir yn y Siarter a'r Cytundeb yn cael eu rheoleiddio'n effeithiol[12].

2.15 Mae'n rhaid i Ofcom sicrhau y glynir wrth safonau cynnwys yng Ngwasanaethau Cyhoeddus perthnasol y BBC yn y DU, yn unol â'r Cod. Mae Atodlen 3, paragraffau 3 a 4 y Cytundeb yn darparu bod yn rhaid i wasanaethau darlledu'r BBC gydymffurfio â gofynion y Cod a bod yn rhaid i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC hefyd gydymffurfio â gofynion y Cod, lle bo hynny'n berthnasol.

2.16 Er na fydd gofyniad ar gynnwys y BBC nad yw'n newyddion i fod yn ddyladwy gywir, bydd yn rhaid i raglenni o'r fath gydymffurfio â Rheol 2.2[13] y Cod sy'n

---

[11] Rydym yn dehongli cyfeiriad VLV at safonau cynnwys mewn "cynnwys anffeithiol" i fod yr un fath â'r pwynt a wnaed mewn ymateb i ymgynghoriad ar wahân Ofcom ar y diwygiadau i Adrannau Pump a Chwech y Cod. Os felly, roedd VLV yn gwrthwynebu'r ffaith bod swyddogaethau newydd Ofcom mewn perthynas â'r BBC ond yn ymestyn i reoleiddio didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion a didueddrwydd dyladwy ar faterion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

[12] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/99408/bbc-framework.pdf

[13] Mae Rheol 2.2 yn datgan: "Rhaid i raglenni neu eitemau ffeithiol neu bortreadau o faterion ffeithiol beidio â chamarwain y gynulleidfa'n sylweddol".

mynnu na ddylai cynnwys ffeithiol gamarwain y gynulleidfa'n sylweddol (fel y gellid achosi niwed neu dramgwydd). Yn ogystal â hyn, bydd y Cod yn mynnu bod cynnwys y BBC nad yw'n newyddion yn ddyladwy ddiduedd wrth ddelio â materion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, a chredwn y gall Rheol 2.3[14] fod yn berthnasol o dan amgylchiadau lle y gallai cynnwys a allai achosi tramgwydd gael ei roi yn ei gyd-destun drwy ddarparu safbwyntiau gwahanol neu safbwyntiau sy'n herio neu'n gwrthbrofi'r cynnwys tramgwyddus.

2.17 O dan gymal 33 y Cytundeb, y BBC, ac nid Ofcom, fydd yn gyfrifol am sicrhau safonau cynnwys BBC World Service.

2.18 O dan gymal 60 y Cytundeb, bydd yn rhaid i Ofcom "ystyried a rhoi barn, gan gynnwys argymhellion maent yn credu sy'n briodol, ynghylch a ydy'r BBC wedi dilyn y canllawiau golygyddol perthnasol ar gynnwys deunydd ar-lein yn ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU" a rhaid iddo fynd i gytundeb gyda'r BBC gan wneud darpariaeth ar gyfer hyn.

2.19 Awgrymodd UK Lawyers for Israel ddiwygiadau i nodiadau canllaw Adran Dau (ynghylch Rheol 2.2[15]) i egluro bod yn rhaid bod yn ofalus iawn i osgoi cynnwys sylweddol gamarweiniol a allai annog hiliaeth o unrhyw fath. Mae'r Arweiniad[16] rydym wedi'i gyhoeddi ar gyfer Adran Tri o'r Cod yn rhybuddio darlledwyr yn benodol ynghylch y gofal mae angen ei gymryd mewn rhaglenni o ran cymell, casineb ar lafar a/neu drin unigolion neu grwpiau yn ymosodol neu'n ddifrïol.

2.20 O gofio'r holl bwyntiau uchod, credwn fod y diwygiadau a gynigiwyd gennym i'r Cod fel ei fod yn berthnasol i wasanaethau darlledu'r BBC yn briodol o hyd.

## Y diwygiadau arfaethedig i'r Cod fel ei fod yn gymwys lle bo'n berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC

2.21 Mae'r gofyniad i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC gydymffurfio â'r safonau golygyddol a bennir gan Ofcom i'w gael yn Atodlen 3, paragraff 3(2) y Cytundeb, sy'n nodi "wrth ddarparu Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus yn y DU, rhaid i'r BBC ddilyn y Cod Safonau i'r graddau mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu'r gwasanaethau rhaglenni ar-alwad hynny". Mae paragraff 4(2) Atodlen 3 yn ymestyn gofynion y Cod Tegwch i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC, i'r graddau mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol.

2.22 Cynigiwyd y diwygiadau canlynol gennym i fodloni'r gofyniad hwn:

- ychwanegu at yr adrannau "Cefndir Deddfwriaethol" a "Sut mae defnyddio'r Cod" i egluro y bydd y Cod yn berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC oni nodir fel arall, ac eglurhad drwy'r Cod cyfan fod "darlledwr" yn

[14] Mae Rheol 2.3 yn datgan: "Wrth gymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol, rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod deunydd a allai achosi tramgwydd wedi'i gyfiawnhau gan y cyd-destun [...]."
[15] Edrychwch ar droednodyn 13.
[16] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0021/24258/section_3_2016.pdf

cynnwys y BBC fel darparwr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC; bod "darlledu" yn cynnwys darparu rhaglenni ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC; a bod "rhaglenni" yn cynnwys rhaglenni a ddarperir ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC;

- darpariaeth benodol mewn rheolau penodol ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC, lle bo natur ar-alwad Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn effeithio'n benodol ar sut mae rhywun yn dehongli rheol. Er enghraifft, lle mae'r Cod yn cyfeirio ar hyn o bryd at "amserlennu cyn y trothwy" (yn achos teledu) neu "pan mae plant yn neilltuol o debygol o wrando" (yn achos radio), yn achos Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC fe wnaethom gynnig mai’r amddiffyniad cyfwerth fydd "pan mae plant yn debygol o ddefnyddio cynnwys". Fe wnaethom gynnig gwneud hyn yn berthnasol i'r holl reolau perthnasol yn Adran Un y Cod, a chynigiwyd diffinio ystyr "tebygol o gael ei ddefnyddio gan blant" drwy gyfeirio at restr o ffactorau heb fod yn gynhwysfawr;

- esbonio mewn troednodiadau ymhob Adran fod y rheolau yn yr Adran honno’n berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC oni nodir yn benodol fel arall; a

- diwygio rheolau unigol pan fydd cyfeiriad penodol at wasanaethau teledu a/neu radio er mwyn ychwanegu eglurder ynghylch y ffordd y bydd y rheol honno’n berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC.

<u>Ymatebion rhanddeiliaid a phenderfyniad Ofcom ar y diwygiadau arfaethedig</u>

2.23 Roedd Radio Centre, VLV a UK Lawyers for Israel yn cefnogi cynigion Ofcom yn y maes hwn.

2.24 Roedd gan y BBC ac ITV/STV bryderon ynghylch y defnydd o'r frawddeg arfaethedig "tebygol o gael ei ddefnyddio gan blant" a'i hystyr yn Adrannau Un a Dau y Cod. Nododd ITV/STV nad oedd y cynnig yn "ddefnyddiol nac yn angenrheidiol" gan fod y trothwy yn ddull sefydledig ac eglur i rieni ac "nad oes amddiffyniad cyfwerth uniongyrchol....mewn perthynas â gwasanaethau ar-alwad".

2.25 Mae Ofcom yn anghytuno. Credwn fod y frawddeg yn briodol o ystyried sut y caiff Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC eu defnyddio, y ffaith eu bod yn debyg i gysyniadau'r trothwy (yn achos y teledu) a "pan mae plant yn neilltuol o debygol o wrando" (yn achos radio). Credwn ei bod yn bwysig i'r Cod egluro bod angen i'r BBC gael mesurau priodol ar waith ar ei Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad sy'n darparu amddiffyniad cyfwerth i blant. Felly, lle bo rheolau'r Cod yn cyfeirio at "amserlennu cyn y trothwy" neu "pan mae plant yn neilltuol o debygol o wrando", caiff cyfeiriadau at "cynnwys sy'n debygol o gael ei ddefnyddio gan blant" yn achos Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC eu cynnwys i sicrhau bod y rheolau mor eglur â phosibl yn y maes hwn.

2.26 Roedd gan ITV/STV a'r BBC bryderon cyffredin ynghylch rhai o'r ffactorau[17] roedd Ofcom yn cynnig eu rhestru fel rhai sy'n effeithio ar ba gynnwys oedd yn "debygol o gael ei ddefnyddio gan blant". Yn benodol, nododd ITV/STV fod y cynnig y byddai Ofcom yn ystyried "amlygrwydd a lleoliad y cynnwys ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad" yn "gwbl afresymol" oherwydd "nid yw'n gywir na ddylai'r BBC allu amlygu cynnwys ar y gwasanaeth, am nad yw'n addas i blant". Nododd y BBC ei bod yn "anodd dychmygu sut byddai ystyried amlygrwydd ar-lein ddim yn effeithio'n andwyol ar ddyluniad hafan iPlayer er mwyn eithrio cynnwys ar ôl y trothwy" a fyddai'n "cael effaith andwyol ar gynulleidfaoedd sy'n oedolion na fyddant o bosibl yn gallu dod o hyd i gynnwys wedi'i deilwra ar eu cyfer ac nad oeddent yn ymwybodol ohono'n flaenorol".

2.27 Cydnabyddwn bryderon y BBC ac ITV/STV ac, erbyn meddwl, ystyriwn fod cynnwys "natur y cynnwys" a "natur y mynediad i'r cynnwys" yn y rhestr o ffactorau nad yw'n gynhwysfawr yn ddigonol. Bydd natur y mynediad i gynnwys, yn cynnwys pa mor hawdd yw hi i blant gael mynediad, yn ystyriaeth bwysig wrth gael mynediad i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn erbyn ein rheolau. Mae'r materion sy'n effeithio ar fynediad yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: a oes mesurau amddiffyn ar waith fel rheolaethau PIN ac a oes gwybodaeth glir i ategu'r cynnwys. Credwn y gallai lleoliad cynnwys ar Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC, mewn rhai achosion, fod yn ffactor perthnasol, ond byddai'n cael ei ystyried gyda ffactorau eraill a'i adlewyrchu'n ddigonol yn "natur y mynediad i'r cynnwys". Felly, rydym wedi dileu'r pwynt bwled "amlygrwydd a lleoliad y cynnwys ar Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC" o'r rhestr o ffactorau a roddwyd o dan y frawddeg "tebygol o gael ei ddefnyddio gan blant". Bydd Ofcom yn diweddaru'r Arweiniad sy'n ategu Adran Un y Cod i esbonio sut bydd natur ar-alwad Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn cael ei hystyried wrth ddehongli'r rheolau perthnasol.

2.28 Mae Ofcom hefyd wedi penderfynu dileu'r pwynt bwled olaf o dan "tebygol o gael ei ddefnyddio gan blant", sef "y graddau y gellir dwyn natur y cynnwys i sylw'r gynulleidfa bosibl, er enghraifft, drwy roi gwybodaeth". Y rheswm dros hyn yw am fod Rheol 1.7 ei hun yn mynnu "...y dylai gwybodaeth glir am gynnwys a allai achosi trallod i rai plant gael ei rhoi..." felly credwn nad oes angen ailadrodd hyn. Credwn hefyd fod darparu gwybodaeth glir am gynnwys Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad yn cael ei gwmpasu gan "natur y mynediad i'r cynnwys...".

2.29 Mae ystyr derfynol "tebygol o gael ei ddefnyddio gan blant" i'w gynnwys yn Adran Un y Cod wedi'i nodi isod:

<u>*'Ystyr yn "debygol o gael ei ddefnyddio gan blant"*</u>

---

[17] Y ffactorau a gynigiwyd oedd:

- natur y cynnwys - a yw wedi'i anelu at blant neu'n apelio'n arbennig at blant;
- natur y mynediad i'r cynnwys e.e. a oes mesurau ar waith i atal plant rhag gwylio a/neu wrando ar y cynnwys;
- amlygrwydd a lleoliad y cynnwys ar Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC; a/neu
- y graddau y gellir dwyn natur y cynnwys i sylw'r gynulleidfa bosibl, er enghraifft, drwy roi gwybodaeth.

*Mae ffactorau sy'n effeithio ar a yw hi'n debygol y bydd cynnwys yn cael ei ddefnyddio gan blant yn cynnwys (ond nid yw'r rhestr hon yn gyfyngedig i'r canlynol):*

- *natur y cynnwys - a yw wedi'i anelu at blant neu'n apelio'n arbennig at blant; a*
- *natur y mynediad i'r cynnwys e.e. a oes mesurau ar waith i atal plant rhag gwylio a/neu wrando ar y cynnwys.'*

2.30 Mae Ofcom hefyd wedi diwygio ystyr y cyd-destun yn Adran Dau lle bo'r diffiniad wedi'i ehangu i ystyried gwylwyr a gwrandawyr ar-alwad y BBC. Rydym wedi dileu cyfeiriadau at "amlygrwydd a lleoliad y cynnwys ar Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC" gan fod "natur y mynediad i'r cynnwys" yn ddigonol yma, yn ein barn ni. Mae ystyr lawn ddiwygiedig 'cyd-destun' wedi'i nodi isod:

*'Mae cyd-destun yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):*

- *cynnwys golygyddol y rhaglen, y rhaglenni neu'r gyfres;*
- *y gwasanaeth y darlledir y deunydd arno;*
- *amser y darllediad;*
- *pa raglenni eraill sydd wedi'u hamserlennu cyn ac ar ôl y rhaglen neu raglenni dan sylw;*
- *maint y niwed neu dramgwydd sy'n debygol o gael ei achosi drwy gynnwys unrhyw fath penodol o ddeunydd mewn rhaglenni'n gyffredinol neu raglenni o fath penodol;*
- *maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa bosibl a disgwyliad tebygol y gynulleidfa;*
- *y graddau y gellir dwyn natur y cynnwys i sylw'r gynulleidfa bosibl, er enghraifft, drwy roi gwybodaeth; ac*
- *effaith y deunydd ar wylwyr neu wrandawyr a allai ddod ar ei draws yn ddiarwybod.*

*Nid yw amser ac amserlennu darllediadau yn berthnasol wrth ddarparu rhaglenni ar-alwad ond, i raglenni a ddarperir ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC mae cyd-destun hefyd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) natur y mynediad i'r cynnwys e.e. a oes mesurau ar waith sydd â'r bwriad o atal plant rhag gweld a/neu wrando ar y cynnwys'.*

2.31 Dywedodd y BBC ei fod yn cynnig BBC iPlayer ar wahân i blant, sef iPlayer Kids, ac awgrymodd y gallai Ofcom fod yn awyddus i egluro a yw'r cyfeiriad cyffredinol at BBC iPlayer yn y diwygiadau arfaethedig yn cwmpasu iPlayer Kids a chwaraewyr cyfryngau eraill a ddefnyddir gan y BBC.

2.32 Mae Ofcom wedi diwygio'r cyfeiriad yn y troednodyn at Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn y Cod fel a ganlyn "Fel BBCiPlayer ac iPlayer Kids (yn cynnwys rhaglenni clyweledol a sain)".

2.33 Dywedodd y BBC y gallai "nifer y cyfeiriadau at Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn y Cod diwygiedig arfaethedig arwain at gamddealltwriaeth fod Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad eraill heb eu rheoleiddio". Yn yr un modd, dywedodd ITV/STV fod y cyfeiriadau ailadroddus yn "ddiangen a dryslyd, i'r ymarferwyr darlledu a'r darllenwyr lleyg fel ei gilydd".

2.34 Mae Ofcom o'r farn bod y diwygiadau arfaethedig yn egluro bod y Cod yn berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn unig. At hyn, cynigiwyd y byddai'r rheolau statudol ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad nad ydynt yn ymwneud â'r BBC yn cael eu cynnwys yn yr un ddogfen â'r Cod (edrychwch ar baragraff X.X) ond mewn rhan wahanol, gan y byddai cael un ddogfen gyfeirio gyflawn sy'n cynnwys setiau gwahanol o reolau yn cwmpasu darlledu a chynnwys ar-alwad yn fwy eglur a syml i'r diwydiant ac i gynulleidfaoedd.

2.35 Rydym wedi ystyried yn ofalus nifer y cyfeiriadau at Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn y Cod. Daethom i'r casgliad bod y diwygiadau unigol i'r rheolau lle bo cyfeiriad penodol at wasanaethau teledu a/neu radio yn angenrheidiol er mwyn egluro sut mae'r rheol honno'n berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC. Credwn hefyd fod angen cadw'r diwygiadau i reolau lle bo natur ar-alwad gwasanaethau rhaglenni ar-alwad y BBC yn effeithio ar y dehongliad o'r rheol, er enghraifft rheolau'n ymwneud ag amserlennu a'r trothwy. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu dileu'r troednodyn arfaethedig ymhob adran a oedd yn nodi y byddai'r rheolau yn yr adran honno'n berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC oni nodir yn benodol fel arall. Credwn fod y cyfeiriadau hyn yn ddiangen ochr yn ochr â'r rheolau a ddiwygiwyd yn unigol a'r ychwanegiadau at "Cefndir Deddfwriaethol y Cod" a "Sut mae defnyddio'r Cod" a amlinellir ym mharagraff 2.22.

## Diwygiadau arfaethedig eraill i'r Cod

2.36 Cynigiodd Ofcom y diwygiadau canlynol hefyd:

- diwygio cynllun y ddogfen y byddwn yn cyhoeddi'r Cod ynddi i gynnwys, fel rhan ar wahân, y rheolau statudol sy'n berthnasol i ddarparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad a gaiff eu rheoleiddio gan Ofcom. O ganlyniad, bydd y Cod yn cael ei drefnu'n dair rhan: Adrannau Un i Ddeg (h.y. y Cod Darlledu) fydd Rhan 1; y Cod Trawshyrwyddo fydd Rhan 2; a'r rheolau statudol ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad fydd Rhan 3. Cynigiwyd '*Cod Darlledu Ofcom (gyda'r Cod Trawshyrwyddo a'r Rheolau ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad)*' fel prif deitl;

- Cynigiwyd rhoi 'Cyflwyniad' a 'Chefndir Deddfwriaethol' newydd i'r rheolau ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad cyn y rheolau yn Rhan 3; a

- mân ddiwygiadau i'r Cod er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb Ofcom o dan adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010"), ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf 1998").

    - fe wnaethom gynnig diweddaru adran "cefndir deddfwriaethol" y Cod i nodi bod Ofcom wedi rhoi sylw dyladwy i adrannau perthnasol Deddf 2010 a Deddf 1998 wrth ddrafftio, adolygu a diwygio ei God; ac

- o fe wnaethom gynnig diweddaru Rheol 2.3 (rhaid sicrhau bod deunydd a allai achosi tramgwydd wedi’i gyfiawnhau gan y cyd-destun) i gynnwys cyfeiriad penodol at yr holl nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010. Roedd y rheol arfaethedig yn cyfeirio’n benodol at oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, a phriodas a phartneriaeth sifil.

Ymatebion rhanddeiliaid a phenderfyniad Ofcom ar y diwygiadau arfaethedig

2.37 Cytunodd yr holl ymatebwyr â'r newidiadau arfaethedig hyn ac mae Ofcom wedi penderfynu rhoi'r newidiadau hynny ar waith.

2.38 Roedd ITV/STV o blaid cynnwys y rheolau ar Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn Rhan Tri o'r ddogfen sy'n cynnwys y Cod, ond dywedodd y gallai ac y dylai'r Cod egluro'n well pa wasanaethau y mae pob set o reolau'n berthnasol iddynt. Mae Ofcom yn cytuno y gellid egluro'r adran sy'n nodi cefndir deddfwriaethol y Cod yn well drwy ddweud bod rheolau'r Cod yn berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn unig. Felly rydym wedi ychwanegu troednodyn i egluro'r pwynt hwn (gweler tudalen X o Atodiad X).

## Sylwadau pellach gan randdeiliaid

2.39 Cafodd Ofcom rai sylwadau ychwanegol gan randdeiliaid yn eu hymatebion nad oeddent yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw feysydd a gwmpaswyd hyd yma yn yr adran hon.

2.40 Awgrymodd ITV y dylid cynnal adolygiad ehangach o'r Cod cyfan, yn cynnwys y Cod Trawshyrwyddo, maes o law, unwaith y bydd y drefn reoleiddio wedi cael cyfle i "ymwreiddio". Caiff Ofcom adolygu a diwygio'r Cod, neu reolau ac adrannau penodol ohono, pryd bynnag yr ystyriwn fod angen gwneud hynny. Bydd Ofcom yn parhau i adolygu’r Cod.

2.41 Croesawodd Radio Centre ddull Ofcom o ddatblygu Fframwaith Gweithredu newydd, ond mynegodd bryderon ynghylch sut y bydd "rhannu cyfrifoldeb rheoleiddio" rhwng Ofcom a Bwrdd Unedol y BBC yn gweithio yn ymarferol. Gofynnodd VLV a oedd Ofcom yn bwriadu rhoi rhagor o fesurau ar waith yn y Fframwaith Gweithredu i fonitro ac asesu sut y bydd cenhadaeth y BBC yn cael ei chyflawni. Mae Ofcom wedi cyhoeddi heddiw ei Gyflwyniad i'r Fframwaith Gweithredu[18] sy'n nodi'n glir gyfrifoldebau Bwrdd y BBC ac Ofcom, ac ymgynghoriad ar fframwaith perfformiad ar gyfer sut y bydd Ofcom yn mesur perfformiad y BBC yn erbyn ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus[19].

2.42 Yn ogystal, cododd VLV nifer o bwyntiau a oedd yn gyson â'i ymatebion i adolygiad Ofcom o'r rheolau ar ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy,

[18] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/99408/bbc-framework.pdf
[19] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/bbc-performance

etholiadau a refferenda. Aethpwyd i'r afael â'r pwyntiau hyn yn y Datganiad ar y rheolau hynny[20].

[20] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/broadcast-impartiality-accuracy-and-elections-rules-review.

**Atodiad 1**

# Y Cefndir Statudol

A1.1 O dan adran 3(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (“y Ddeddf), prif ddyletswydd Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaeth ydy:

a) hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu; a

b) hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo’n briodol drwy hybu cystadleuaeth.

A1.2 Ymhellach, mae adran 3(2)(e) o’r Ddeddf yn mynnu, yn benodol ac ymysg pethau eraill, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, bod yn rhaid i Ofcom sicrhau bod safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n:

a) rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunyddiau sy'n achosi tramgwydd a niwed mewn gwasanaethau o'r fath; a

b) rhoi digon o amddiffyniad i aelodau’r cyhoedd a phob unigolyn arall rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni a rhag iddynt ddioddef unrhyw darfu diangen ar eu preifatrwydd sy’n deillio o weithgareddau a wneir at ddibenion gwasanaethau o'r fath.

A1.3 Fel rhan o’i ddyletswyddau a’i swyddogaethau mewn perthynas â darlledu o dan adran 319 o’r Ddeddf, mae’n rhaid i Ofcom lunio cod ar gyfer gwasanaethau teledu a radio, gan osod safonau sy’n ymddangos iddo fel y rhai gorau i sicrhau nifer o amcanion safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni. Mae’r safonau mae Ofcom wedi’u gosod wedi cael eu cynnwys yng Nghod Darlledu Ofcom (“y Cod”).

A1.4 O dan adran 198 o’r Ddeddf, un o swyddogaethau Ofcom, i’r graddau y mae darpariaeth iddo wneud hynny yn Siarter a Chytundeb y BBC, y Ddeddf a Rhan 5 o Ddeddf Darlledu 1996, ydy rheoleiddio darpariaeth gwasanaethau’r BBC[21].

A1.5 Y Siarter Frenhinol ydy sylfaen gyfansoddiadol y BBC. Mae’n nodi dibenion cyhoeddus y BBC, yn gwarantu ei annibyniaeth, ac yn rhoi fframwaith ar gyfer ei ariannu, ei lywodraethu a’i reoleiddio. Mae’r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a’r BBC yn mynd law yn llaw â’r Siarter. Mae’n rhoi manylion ynghylch nifer o’r pynciau sy’n cael eu hamlinellu yn y Siarter.

A1.6 O dan y Siarter a’r Cytundeb blaenorol, mae goruchwylio allbwn y BBC yn rheoleiddiol yn cael ei rannu gan Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom. Roedd y cyfrifoldebau’n gorgyffwrdd yn y rhan fwyaf o feysydd o ran safonau golygyddol, fel: amddiffyn y rheini sydd dan ddeunaw oed; niwed a thramgwydd; a throsedd.

[21] Mae'r Llywodraeth wedi cynnig diwygiadau i adran 198, ym Mil yr Economi Ddigidol sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd. Yn benodol, mae wedi cynnig, yn hytrach na chyfeirio at ddarparu gwasanaethau'r BBC, y bydd adran 198(1) yn datgan mai un o swyddogaethau Ofcom ydy ‘rheoleiddio’r BBC’.

Serch hynny, dim ond Ymddiriedolaeth y BBC oedd yn gyfrifol am orfodi safonau golygyddol ym meysydd didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy; etholiadau a refferenda; cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu; a chyfathrebiadau masnachol mewn rhaglenni radio.

**Y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith newydd**

A1.7 Cyhoeddwyd y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith newydd gan Lywodraeth y DU ar 15 Rhagfyr 2016[22] a byddant yn dod i rym ar y Dyddiad Dod i Rym yn y Siarter, sef 3 Ebrill 2017. Mae trefniadau pontio ar waith hyd at 3 Ebrill 2017. Bydd Adrannau Pump (didueddrwydd dyladwy) a Chwech (etholiadau a refferenda) y Cod diwygiedig, a rheolau Ofcom ar ddarllediadau gwleidyddol a refferenda, yn berthnasol i'r BBC o 22 Mawrth 2017 ymlaen.

A1.8 O dan y Siarter a'r Cytundeb newydd, Ofcom fydd yn llwyr gyfrifol am reoleiddio'r BBC yn allanol. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i Ofcom reoleiddio holl feysydd safonau golygyddol y BBC i sicrhau ei fod yn diwallu'r gofynion.

A1.9 Yn rhinwedd erthygl 46(7) y Siarter Frenhinol, bydd yn rhaid i Ofcom "sicrhau bod safonau'n cael eu dilyn yng nghynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol y DU sy'n gorfod bod yn unol â'r Codau Safonau a Thegwch". Gwasanaethau Cyhoeddus y DU ydy gwasanaethau'r BBC sy'n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded (ac eithrio'r World Service). Nid ydynt yn cynnwys gwasanaethau masnachol y BBC sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom y mae eu safonau golygyddol eisoes yn cael eu rheoleiddio ganddo.

A1.10 Mae'r gofyniad cyffredinol i gydymffurfio â safonau golygyddol sy'n cael eu pennu gan Ofcom wedi'i osod yn Atodlen 3, paragraff 3 y Cytundeb sy'n datgan

*"**3. Safonau Cynnwys***

*(1) Wrth ddarparu Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus yn y DU, rhaid i'r BBC ddilyn y safonau sydd wedi cael eu gosod o dan adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('Cod Safonau' Ofcom). At ddibenion y gofynion yn y Cod Safonau sy'n rhoi grym i adran 320 o'r Ddeddf honno (gofynion didueddrwydd dyladwy arbennig), bydd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy'n wasanaethau radio yn cael eu trin fel gwasanaethau radio cenedlaethol.*

*(2) Wrth Ddarparu Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus yn y DU, rhaid i'r BBC ddilyn y Cod Safonau i'r graddau mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu'r gwasanaethau rhaglenni ar-alwad hynny".*

A1.11 Mae'r gofyniad i gydymffurfio â'r Cod Tegwch yn cael ei nodi yn Atodlen 3, paragraff 4 o'r Cytundeb sy'n datgan

*"4. Y Cod Tegwch*

[22] Edrychwch ar https://www.gov.uk/government/publications/draft-bbc-charter-and-draft-framework-agreement

*(1) Rhaid i'r BBC ddilyn y cod sydd mewn grym o dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 -*

*(a) mewn cysylltiad â darparu Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y DU; a*

*(b) mewn perthynas â'r rhaglenni sy’n cael eu cynnwys yn y gwasanaethau hynny.*

*(2) Wrth Ddarparu Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus yn y DU, rhaid i’r BBC ddilyn yr un cod i’r graddau mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau’n berthnasol i ddarparu’r gwasanaethau rhaglenni ar-alwad hynny.*

*[…]*

Bydd y gofynion hyn yn cael eu nodi yng Nghod Darlledu Ofcom a fydd, am y tro cyntaf erioed, yn gwbl berthnasol i’r BBC. Yn benodol, yn ogystal â bod yn berthnasol i Wasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU, bydd y Cod yn berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU.

**Atodiad 2**

# Cod Darlledu Diwygiedig Ofcom (gyda'r Cod Trawshyrwyddo a'r Rheolau ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad)

# Cod Darlledu Ofcom

## (gyda’r Cod Trawshyrwyddo a rheolau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad)

# Cynnwys

## Rhan Un: Y Cod Darlledu

### Cefndir Deddfwriaethol y Cod

### Sut mae Defnyddio'r Cod

**Adran Un:**
Diogelu'r Rhai Dan Ddeunaw Oed:

**Adran Dau:**
Niwed a Thramgwydd

**Adran Tri:**
Trosedd, Anhrefn, Casineb a Chamdriniaeth

**Adran Pedwar:**
Crefydd

**Adran Pump:**
Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy a Rhoi Amlygrwydd Gormodol i Farnau a Safbwyntiau

**Adran Chwech:**
Etholiadau a Refferenda

**Adran Saith:**
Tegwch

**Adran Wyth:**
Preifatrwydd

**Adran Naw:**
Cyfeiriadau Masnachol mewn Rhaglenni Teledu

**Adran Deg:**
Cyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Radio

**Atodiad 1:**
Rhannau o Ddeddfwriaeth Berthnasol y DU

**Atodiad 2:**
Rhannau o Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol yr UE

**Atodiad 3:**
Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

**Atodiad 4:**
Hyrwyddiadau Ariannol ac Argymhellion Buddsoddi

**Atodiad 5:**

Rhannau Siarter a Chytundeb y BBC

**Mynegai Cod Darlledu Ofcom**

## Rhan Dau: Cod Trawshyrwyddo

Cyflwyniad

Cefndir deddfwriaethol y Cod

Egwyddorion

Rheolau

Arweiniad

Arweiniad cyffredinol ar y Cod Trawshyrwyddo

## Rhan Tri: Rheolau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad

Cyflwyniad

Cefndir deddfwriaethol

Rheolau Gweinyddol

Rheolau Golygyddol

# Rhan Un: Y Cod Darlledu

## Cefndir Deddfwriaethol y Cod[23]

Dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (fel y'i diwygiwyd) ("y Ddeddf") a Deddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd) ("Deddf 1996") mae'n rhaid i Ofcom lunio cod ar gyfer teledu a radio, yn ymdrin â safonau mewn rhaglenni, nawdd, gosod cynnyrch mewn rhaglenni teledu, tegwch a phreifatrwydd. Mae'r Cod hwn i'w alw'n God Darlledu Ofcom ("y Cod").

Dylai darlledwyr fod yn ymwybodol o gefndir deddfwriaethol y rheolau, yr egwyddorion sy'n berthnasol i bob adran, yr ystyron a roddwyd gan Ofcom a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Ofcom, y gallent oll fod yn berthnasol wrth ddehongli a chymhwyso'r Cod. Ni ddylid darllen unrhyw reol ar ei phen ei hun ond yn hytrach o fewn cyd-destun y Cod cyfan gan gynnwys y penawdau, croesgyfeiriadau a thestun cysylltiol arall.

Wrth osod y safonau hyn, rhaid i Ofcom sicrhau amcanion y safonau sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf. Yn ogystal â gosod safonau gofynnol, mae hyn hefyd yn cynnwys hynny o safonau eraill a all fod yn briodol. (Gweler adrannau 3(1)(a) a (b), (2)(e) ac (f) a (4)(b)(g)(h)(j)(k) ac (l), 319, 320, 321, 325, 326 ac Atodlen 11A o'r Ddeddf ac adrannau 107(1) o Ddeddf 1996. Mae'r rhannau hyn yn Atodiad 1 i'r Cod.)

Mae'r Cod hefyd yn gweithredu nifer o ofynion sy'n ymwneud â theledu yng Nghyfarwyddeb 2010/13/EU y Gymuned Ewropeaidd ("Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol"). Mae'r rhannau hyn yn Atodiad 2 i'r Cod.

Mae'r Cod wedi'i ddrafftio hefyd yng ngoleuni Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn"). Yn benodol, mae'r hawl i ryddid mynegiant, fel y mae wedi'i ddatgan yn Erthygl 10 o'r Confensiwn, yn cwmpasu hawl y gynulleidfa i dderbyn deunydd creadigol, gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth ond yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mae'r Erthygl hon, ynghyd ag Erthygl 8 ynghylch hawl rhywun i gael parch tuag at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth; Erthygl 9, yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd; ac Erthygl 14, yr hawl i fwynhau hawliau dynol heb wahaniaethu ar seiliau fel rhyw, hil a chrefydd, yn Atodiad 3 i'r Cod.

Wrth ddrafftio, adolygu a diwygio'r Cod, mae Ofcom wedi rhoi sylw dyledus i'r materion a bennir yn adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus") ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

Oni nodir yn benodol fel arall, mae'r Cod yn berthnasol i gynnwys radio a theledu mewn gwasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom, i wasanaethau darlledu yn y DU sydd wedi'u hariannu gan ffi'r drwydded a ddarperir gan y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig ("y BBC"), i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn y DU a ariennir gan ffi'r drwydded[24]

---

[23] Yn y Cod Darlledu hwn, os yw'r cyd-destun yn caniatáu hynny, mae cyfeiriadau at unrhyw ddarpariaethau deddfwriaethol, boed mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth, yn cynnwys cyfeiriadau at y darpariaethau hynny fel y cawsant eu diwygio neu eu hailfabwysiadu neu fel y newidir y modd y cânt eu cymhwyso gan ddarpariaethau eraill o bryd i'w gilydd; bydd unrhyw gyfeiriad at ddarpariaeth statudol yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o bryd i'w gilydd dan y ddarpariaeth honno.

**[24] Fel y BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).**

ac i Sianel Pedwar Cymru (“S4C”)[25].

Mae’n ofynnol dan delerau eu trwydded Ofcom i ddarlledwyr ufuddhau i’r Cod Safonau a’r Cod Tegwch, sydd i’w dehongli fel cyfeiriadau at y Cod hwn. Mae ufudd-dod i’r Cod hwn hefyd yn ofynnol yn achos y BBC drwy Gytundeb y BBC[26] ac, yn achos S4C, drwy statud. Heblaw lle mae’r Cod yn datgan fel arall, mae’r term “darlledwyr teledu” yn cyfeirio at ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni teledu (gan gynnwys unrhyw wasanaethau lleol fel gwasanaethau teledu cyfyngedig), y BBC ac S4C; mae “darlledwyr radio” yn cyfeirio at ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni radio (gan gynnwys gwasanaethau radio lleol a chymunedol a gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol) a’r BBC; mae “darlledwr” yn cynnwys y BBC fel darparwr Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC; ac mae “darlledu” yn cynnwys darparu rhaglenni ar Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC. Does dim un rhan o’r Cod yn berthnasol i’r BBC World Service.

Dan y Ddeddf, darparwr gwasanaeth yw’r person sydd â “rheolaeth gyffredinol” dros ba raglenni a chyfleusterau a gwasanaethau eraill sydd wedi’u cynnwys yn y gwasanaeth (adran 362(2) o’r Ddeddf).

Mae rheolaeth gyffredinol yn ehangach na rheolaeth olygyddol i’r graddau ei bod yn cynnwys rheolaeth dros wasanaethau a chyfleusterau y rhoddir mynediad atynt (er enghraifft, drwy gynnwys dolen neu gyfleuster ar gyfer nodweddion rhyngweithiol yn y prif wasanaeth) ac y gallai’r darlledwr fod heb reolaeth olygyddol drostynt.

Er y gallai dolen sydd wedi’i chynnwys yn y gwasanaeth fod yn un sy’n arwain at nodweddion y tu allan i’r gwasanaeth hwnnw nad ydynt wedi’u rheoleiddio gan Ofcom, mae darparu mynediad at y nodweddion hynny, drwy gynnwys dolen, er enghraifft, yn fater sydd dan reolaeth y darlledwr ac felly’n rhan o gylch gwaith Ofcom. Felly caiff Ofcom fynnu y bydd dolen neu gyfleuster o’r fath yn cael ei ddileu, os yw Ofcom yn pryderu, yng ngoleuni ei ddyletswyddau statudol ac, yn benodol, amcanion y safonau sydd wedi’u nodi yn adran 319 o’r Ddeddf, ynghylch y deunydd y mae’n arwain ato. Beth bynnag, rhaid i’r newid o reolaeth y darlledwr i reolaeth trydydd parti fod yn glir i’r gwyliwr, er mwyn rheoli disgwyliadau’r gynulleidfa o ran y deunydd y mae’n cael ei harwain ato a’r risg o gael bod y darlledwr yn torri’r Cod hwn (er enghraifft, Rheolau 1.2 a 2.1).

Lle mae’r Cod wedi’i dorri, bydd Ofcom fel arfer yn cyhoeddi dyfarniad ac yn egluro pam y mae darlledwr wedi torri’r Cod (mae’r dyfarniadau hyn ar gael ym Mwletinau Broadcast ac On Demand Ofcom yn www.ofcom.org.uk). Os bydd darlledwr yn torri’r Cod yn fwriadol, yn ddifrifol, yn neu’n fynych neu’n ddi-hid, caiff Ofcom osod sancsiynau statudol yn erbyn y darlledwr.[27] Ceir gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion (ar ôl cael cwyn neu fel arall) a gosod sancsiynau statudol yn erbyn darlledwyr ar y wefan hefyd. Mae aelodau o’r cyhoedd sydd heb fynediad i’r we yn gallu gofyn i Ofcom anfon

---

[25] Nid yw darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad y mae'n ofynnol iddynt hysbysu Ofcom o dan adran 368BA o’r Ddeddf yn cael eu llywodraethu gan y rheolau yn Adrannau Un i Ddeg y Cod, ond yn hytrach gan y rheolau gwasanaethau rhaglenni ar-alwad statudol, sydd i'w gweld yn Rhan 3 *Cod Darlledu Ofcom (gyda’r Cod Trawshyrwyddo a rheolau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad).*

[26] Cytundeb dyddiedig Tachwedd 2016 rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a’r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yw Cytundeb y BBC y gellir ei ddiwygio o bryd i’w gilydd.

[27] Yn achos y BBC, caiff pŵer Ofcom i osod sancsiynau ei osod yn Siarter y BBC.

copi o’r gweithdrefnau atynt drwy’r post.

Mae’r Cod wedi’i rannu’n adrannau sy’n seiliedig yn bennaf ar yr amcanion fel y maent wedi’u nodi yn adran 319(2) o’r Ddeddf ac adran 107(1) o Ddeddf 1996, yn ogystal â Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y’i diwygiwyd).

# Sut mae defnyddio’r Cod

Mae’r Cod wedi’i osod ar ffurf egwyddorion, ystyron a rheolau ac, yn achos Adrannau Saith (Tegwch) ac Wyth (Preifatrwydd), mae hefyd yn cynnwys cyfres o "arferion i'w dilyn" gan ddarlledwyr. Mae’r egwyddorion wedi’u cynnwys er mwyn helpu darllenwyr i ddeall amcanion y safonau ac i gymhwyso’r rheolau. Rhaid i ddarlledwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r rheolau fel y maent wedi’u nodi yn y Cod. Mae’r ystyron yn helpu i egluro beth y mae Ofcom yn ei olygu wrth rai o’r geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Cod. Mae’r ddeddfwriaeth ar ddarlledu sy’n fwyaf perthnasol wedi’i nodi dan bennawd pob adran fel y gall darllenwyr droi at y ddeddfwriaeth os ydynt yn dymuno.

Wrth gymhwyso’r Cod at gynnwys, dylai darlledwyr fod yn ymwybodol bod y cyd-destun lle mae’r deunydd yn ymddangos yn allweddol. Wrth lunio'r Cod hwn, mae Ofcom wedi ystyried y canlynol (yn unol â gofynion adran 319(4) o’r Ddeddf):

(a) graddau’r niwed a thramgwydd sy’n debygol o gael ei achosi drwy gynnwys unrhyw fath penodol o ddeunydd mewn rhaglenni’n gyffredinol, neu mewn rhaglenni o fath penodol;

(b) maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa bosibl i raglenni sydd wedi’u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio’n gyffredinol neu mewn gwasanaethau teledu a radio o fath penodol;

(c) disgwyliad tebygol y gynulleidfa o ran natur cynnwys rhaglen a’r graddau y gellir dod â natur cynnwys rhaglen i sylw aelodau posibl y gynulleidfa;

(d) y tebygolrwydd y bydd pobl nad ydynt yn ymwybodol o natur cynnwys rhaglen yn dod yn agored yn anfwriadol, drwy eu gweithredoedd eu hunain, i’r cynnwys hwnnw;

(e) y dymunoldeb o sicrhau bod cynnwys gwasanaethau’n nodi pa bryd y ceir newid sy’n effeithio ar natur gwasanaeth y mae rhai’n ei wylio neu’n gwrando arno ac, yn benodol, newid sy’n berthnasol o ran cymhwyso’r safonau sydd wedi’u gosod dan yr adran hon;

(f) y dymunoldeb o gadw annibyniaeth y rheolaeth olygyddol dros gynnwys rhaglen.

Mae’r meini prawf hyn wedi llywio’r modd y mae Ofcom wedi gosod y Cod ac felly rhaid i ddarlledwyr eu hystyried wrth ddehongli’r rheolau.

Nid oes bwriad i’r Cod allu delio â phob un achos a allai godi. Gallai darlledwyr wynebu nifer o sefyllfaoedd neilltuol nad oes cyfeiriad penodol atynt yn y Cod hwn. Nid yw’r enghreifftiau sydd yn y Cod yn hollgynhwysol. Er hynny, disgwylir y bydd yr egwyddorion, fel y maent wedi’u disgrifio yn yr adrannau canlynol, yn egluro pwrpas y Cod ac yn helpu darlledwyr i wneud y penderfyniadau angenrheidiol.

Wrth ddefnyddio’r Cod gyda Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC yn y DU, dylid ystyried natur ar-alwad y gwasanaeth. Caiff darpariaethau penodol eu gwneud mewn rhai rheolau ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad y BBC.

Er mwyn rhoi cymorth pellach i’r rhai sy’n gweithio ym maes darlledu, yn ogystal â gwylwyr a gwrandawyr sy’n dymuno deall safonau darlledu, bydd Ofcom hefyd yn cyhoeddi arweiniad i gyd-fynd â’r Cod ar wefan Ofcom ac fe’i hadolygir yn rheolaidd.

Dylai darlledwyr fod yn gyfarwydd â’u cynulleidfaoedd a sicrhau y gellir cyfiawnhau cynnwys rhaglenni bob amser ar sail cyd-destun ac anghenion golygyddol y rhaglen. (Yn y Cod, cymerir bod y gair ‘rhaglenni’ yn golygu rhaglenni teledu a rhaglenni radio, a

rhaglenni sydd ar gael ar Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC.)

Caiff darlledwyr wneud rhaglenni am unrhyw fater a ddewisant, ond disgwylir y bydd darlledwyr yn sicrhau bob amser fod eu rhaglenni'n cydymffurfio â'r gyfraith gyffredinol, yn ogystal â'r Cod.

## Arweiniad cyffredinol ar y Cod

Cyfrifoldeb y darlledwr yw cydymffurfio â'r Cod. Os oes ar wneuthurwyr rhaglenni angen cyngor pellach ynghylch cymhwyso'r Cod hwn, dylent siarad, yn y lle cyntaf, â'r rhai sydd â chyfrifoldeb golygyddol dros y rhaglen a swyddogion cyfreithiol a chydymffurfio'r darlledwr.

Gall Ofcom gynnig arweiniad cyffredinol ar ddehongli'r Cod. Fodd bynnag, rhoddir unrhyw gyngor o'r fath ar yr amod glir na fydd yn effeithio ar ryddid Ofcom i farnu ynghylch achosion a chwynion ar ôl darlledu ac na fydd yn effeithio ar yr arfer ar gyfrifoldebau rheoleiddio Ofcom. Dylai darlledwyr geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar unrhyw faterion sy'n codi ynghylch cydymffurfio. Ni fydd Ofcom yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod a geir o ddibynnu ar arweiniad anffurfiol.

# Adran Un: Diogelu’r Rhai Dan Ddeunaw Oed:

Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 3(4)(h) a 319(2)(a) ac (f) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, Erthygl 27 o’r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol, ac Erthygl 10 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Siarter a Chytundeb y BBC.)

Rhaid darllen yr adran hon ar y cyd ag Adran Dau: Niwed a Thramgwydd.

## Egwyddor

**Sicrhau bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu.**

## Rheolau

### Gwybodaeth am amserlennu a chynnwys

1.1 Rhaid peidio â darlledu deunydd a allai amharu’n ddifrifol ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl dan ddeunaw oed.

1.2 Wrth ddarparu gwasanaethau, rhaid i ddarlledwyr gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed. Yn achos gwasanaethau teledu, mae hyn yn ychwanegol at eu dyletswyddau o ganlyniad i’r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol (yn benodol, Erthygl 27, gweler Atodiad 2).

1.3 Rhaid diogelu plant hefyd, drwy amserlennu priodol, rhag deunydd sy’n anaddas iddynt. Er nad yw’r gofynion amserlennu yn yr adran hon yn berthnasol i ddarparu rhaglenni ar-alwad, rhaid i’r BBC roi mesurau priodol ar Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC sy’n rhoi amddiffyniad cyfatebol i blant.

**Ystyr “plant”:**
Mae plant yn bobl sydd dan bymtheng mlwydd oed.

**Ystyr “amserlennu priodol”:**
Dylid barnu amserlennu priodol yn ôl:
- natur y cynnwys;
- nifer ac ystod oedran tebygol y plant yn y gynulleidfa, gan ystyried amser ysgol, penwythnosau a gwyliau;
- amser dechrau ac amser gorffen y rhaglen;
- natur y sianel neu’r orsaf a’r rhaglen benodol; a
- disgwyliadau tebygol y gynulleidfa ar gyfer sianel neu orsaf benodol ar adeg benodol ac ar ddiwrnod penodol.

1.4 Rhaid i ddarlledwyr teledu gadw at y trothwy.

**Ystyr “y trothwy”:**
Nid yw’r trothwy ond yn gymwys i deledu. Mae’r trothwy am 2100. Yn gyffredinol, ni ddylid dangos deunydd sy’n anaddas i blant cyn 2100 neu ar ôl 0530.

Ar wasanaethau ffilm premiwm i danysgrifwyr sydd heb eu diogelu fel y nodir yn Rheol 1.24, mae’r trothwy am 2000. Nid oes trothwy ar wasanaethau ffilm premiwm i danysgrifwyr neu wasanaethau talu wrth wylio sydd wedi’u diogelu fel y nodir yn Rheolau 1.24 ac 1.25.

1.5 Rhaid i ddarlledwyr radio fod yn neilltuol o ystyriol o adegau pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando.

**Ystyr "pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando":**
Mae'r ymadrodd hwn yn cyfeirio'n benodol at adeg mynd â phlant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol ac amser brecwast, ond gallai gynnwys adegau eraill.

1.6 Rhaid i'r newid at ddeunydd sy'n fwy addas i oedolion beidio â bod yn rhy sydyn wrth y trothwy (yn achos teledu) neu ar ôl yr amser pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando (yn achos radio). Yn achos teledu, dylai'r deunydd cryfaf ymddangos yn hwyrach ar yr amserlen.

1.7 Yn achos rhaglenni teledu a ddarlledir cyn y trothwy, neu raglenni radio a ddarlledir pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando, neu ar gyfer Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC cynnwys sy'n debyg o gael ei ddefnyddio gan blant, dylid rhoi gwybodaeth glir i'r gynulleidfa am gynnwys a allai achosi gofid i rai plant, os yw hynny'n briodol (gan ystyried y cyd-destun).

(Er mwyn cael ystyr "cyd-destun" gweler Adran Dau: Niwed a Thramgwydd.)

**Ystyr "yn debyg o gael ei ddefnyddio gan blant":**
Mae ffactorau sy'n effeithio ar a yw hi'n debyg y bydd cynnwys yn cael ei ddefnyddio gan blant yn cynnwys (ond nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth):

- natur y cynnwys - a yw wedi'i anelu at blant neu'n apelio'n arbennig at blant; a
- natur y mynediad i'r cynnwys e.e. a oes mesurau ar waith i atal plant rhag gwylio a/neu wrando ar y cynnwys.

## Sylw i droseddau rhywiol a throseddau eraill yn y DU sy'n ymwneud â rhai dan ddeunaw oed

1.8 Os yw cyfyngiadau statudol neu gyfyngiadau cyfreithiol eraill yn berthnasol sy'n atal enwi unigolion, dylai darlledwyr hwythau fod yn neilltuol o ofalus i beidio â rhoi cliwiau a allai arwain at adnabod rhai nad ydynt eto'n oedolion (gallai'r oedran diffiniol fod yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r DU) ac sydd, neu a allai fod, yn gysylltiedig fel dioddefwr, tyst, diffynnydd neu droseddwr arall yn achos troseddau rhywiol sy'n cael sylw mewn achosion mewn llysoedd troseddol, llysoedd sifil neu lysoedd teulu:

- drwy gyflwyno gwybodaeth gyfyngedig y gellid ei chysylltu â gwybodaeth arall sydd ar gael mewn man arall, er enghraifft mewn adroddiadau papur newydd (yr 'effaith jig-so');
- yn anfwriadol, er enghraifft drwy alw trosedd yn "llosgach"; neu
- mewn unrhyw fodd anuniongyrchol arall.

(Nodyn: Dylai darlledwyr fod yn ymwybodol y gallai cyfyngiadau statudol ar adrodd fod yn gymwys hyd yn oed os nad yw llys yn benodol wedi gwneud gorchymyn i'r perwyl hwnnw.)

1.9 Wrth roi sylw i unrhyw ymchwiliad cyn treial i drosedd honedig yn y DU, dylai darlledwyr roi sylw neilltuol i sefyllfa fregus bosibl unrhyw unigolyn nad yw eto'n oedolyn sy'n gysylltiedig fel tyst neu ddioddefwr, cyn darlledu ei enw, ei gyfeiriad, enw ei ysgol neu sefydliad addysgol arall, ei le gwaith, neu unrhyw lun llonydd neu symudol ohono. Mae angen cyfiawnhad penodol hefyd dros ddarlledu deunydd o'r math hwnnw sy'n ymwneud ag adnabod unrhyw berson nad yw eto'n oedolyn sy'n

gysylltiedig â'r amddiffyniad fel diffynnydd neu ddiffynnydd posibl.

## Cyffuriau, ysmygu, toddyddion ac alcohol

1.10 Yn achos defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, camddefnyddio cyffuriau, ysmygu, camddefnyddio toddyddion a chamddefnyddio alcohol:

- rhaid peidio â'u cynnwys mewn rhaglenni sydd wedi'u gwneud yn bennaf ar gyfer plant oni bai fod cyfiawnhad golygyddol cryf;
- rhaid eu hosgoi fel arfer a pha un bynnag rhaid peidio â'u cymeradwyo, eu hyrwyddo na'u 'glamoreiddio' mewn rhaglenni eraill a ddarlledir cyn y trothwy (yn achos teledu), pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando (yn achos radio), neu pan mae'n debyg y bydd y cynnwys yn cael ei ddefnyddio gan blant (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC) oni bai fod cyfiawnhad golygyddol;
- rhaid peidio â'u cymeradwyo, eu hyrwyddo na'u 'glamoreiddio' mewn rhaglenni eraill y mae llawer o rai dan ddeunaw oed yn debygol o'u gweld, eu clywed neu eu defnyddio oni bai fod cyfiawnhad golygyddol.

## Trais ac ymddygiad peryglus

1.11 Rhaid cyfyngu mewn modd priodol ar drais, ei ôl-effeithiau a disgrifiadau o drais, pa un a yw'n eiriol neu'n gorfforol, mewn rhaglenni a ddarlledir cyn y trothwy (yn achos teledu) pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando (yn achos radio) neu pan fydd plant yn debyg o ddefnyddio cynnwys (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC) a rhaid iddo gael ei gyfiawnhau gan y cyd-destun hefyd.

1.12 Yn achos trais, pa un a yw'n eiriol neu'n gorfforol, y gall plant ei efelychu'n rhwydd mewn modd sy'n niweidiol neu'n beryglus:

- rhaid peidio â'u cynnwys mewn rhaglenni sydd wedi'u gwneud yn bennaf ar gyfer plant oni bai fod cyfiawnhad golygyddol cryf;
- rhaid peidio â'i ddarlledu cyn y trothwy (yn achos teledu) pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando (yn achos radio), neu pan mae'n debyg y bydd y cynnwys yn cael ei ddefnyddio gan blant (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC) oni bai fod cyfiawnhad golygyddol.

1.13 Yn achos ymddygiad peryglus, neu bortreadau o ymddygiad peryglus, y mae plant yn debygol o allu ei efelychu'n rhwydd mewn modd sy'n niweidiol:

- rhaid peidio â'u cynnwys mewn rhaglenni sydd wedi'u gwneud yn bennaf ar gyfer plant oni bai fod cyfiawnhad golygyddol cryf;
- rhaid peidio â'i ddarlledu cyn y trothwy (yn achos teledu) pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando (yn achos radio), neu pan mae'n debyg y bydd y cynnwys yn cael ei ddefnyddio gan blant (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC) oni bai fod cyfiawnhad golygyddol.

(Mewn cysylltiad â Rheolau 1.11 i 1.13 gweler Rheolau 2.4 a 2.5 yn Adran Dau: Niwed a Thramgwydd.)

## Iaith dramgwyddus

1.14 Rhaid peidio â darlledu'r iaith fwyaf tramgwyddus (yn achos teledu) pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando (yn achos radio), neu pan mae'n debyg y bydd y

cynnwys yn cael ei ddefnyddio gan blant (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC).

1.15 Rhaid peidio â defnyddio iaith dramgwyddus mewn rhaglenni sydd wedi'u gwneud ar gyfer plant iau heblaw yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol.

1.16 Rhaid peidio â darlledu iaith dramgwyddus cyn y trothwy (yn achos teledu) pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando (yn achos radio), neu pan mae'n debyg y bydd y cynnwys yn cael ei ddefnyddio gan blant (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC) oni bai fod y cyd-destun yn cyfiawnhau hynny. Pa un bynnag, rhaid osgoi defnydd mynych o iaith o'r fath cyn y trothwy.

(Mewn cysylltiad â Rheolau 1.14 i 1.16 gweler Rheol 2.3 yn Adran Dau: Niwed a Thramgwydd.)

## Deunydd Rhywiol

1.17 Ni chaniateir darlledu deunydd sy'n cyfateb i ddosbarthiad R18 Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain ("BBFC") ar unrhyw adeg.

1.18 Ni chaniateir darlledu 'deunydd rhyw ar gyfer oedolion' - deunydd sy'n cynnwys delweddau a/neu iaith o natur rywiol gref sy'n cael eu darlledu'n bennaf ar gyfer cynhyrfu neu gyffroi pobl yn rhywiol – ar unrhyw adeg heblaw rhwng 2200 a 0530 ar wasanaethau premiwm i danysgrifwyr a gwasanaethau talu fesul noson/talu wrth wylio sy'n gweithredu gyda mynediad cyfyngedig gorfodol.

Ar ben hynny, rhaid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod y tanysgrifiwr yn oedolyn.

**Ystyr "mynediad cyfyngedig gorfodol":**
Mae mynediad cyfyngedig gorfodol yn golygu system sy'n cael ei diogelu gan rif adnabod personol (PIN), neu amddiffyniad cyfatebol arall, na all y defnyddiwr gael gwared arni, sy'n cyfyngu mynediad i'r rhai sydd wedi'u hawdurdodi i wylio'n unig.

1.19 Rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod y cyd-destun yn cyfiawnhau deunydd a ddarlledir ar ôl y trothwy, neu sydd ar gael ar Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC, sy'n cynnwys delweddau a/neu iaith o natur rywiol amlwg neu gref, ond nad yw'n 'ddeunydd rhyw ar gyfer oedolion' fel y'i diffinnir yn Rheol 1.18 uchod.

(Gweler Rheolau 1.6 ac 1.18 a Rheol 2.3 yn Adran Dau: Niwed a Thramgwydd, sy'n cynnwys ystyr "cyd-destun".)

1.20 Rhaid peidio â darlledu portreadau o gyfathrach rywiol cyn y trothwy (yn achos teledu) neu pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando (yn achos radio), neu pan mae'n debyg y bydd y cynnwys yn cael ei ddefnyddio gan blant (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC) oni bai fod pwrpas addysgol difrifol dros wneud hynny. Rhaid bod cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw drafodaeth ar ymddygiad rhywiol, neu bortread ohono, os caiff ei gynnwys cyn y trothwy, pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando, neu pan mae'n debyg y bydd y cynnwys yn cael ei ddefnyddio gan blant (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC) a rhaid cyfyngu arno mewn modd priodol.

## Noethni

1.21 Rhaid i noethni cyn y trothwy, neu pan fydd cynnwys yn debyg o gael ei ddefnyddio gan blant (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC), fod wedi'i

gyfiawnhau gan y cyd-destun.

## Ffilmiau, gwasanaethau ffilm premiwm i danysgrifwyr, gwasanaethau talu wrth wylio

1.22 Rhaid peidio â darlledu unrhyw ffilm y mae Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) wedi gwrthod rhoi dosbarthiad iddi oni bai iddi gael dosbarthiad wedyn neu i'r BBFC gadarnhau na fyddid yn ei gwrthod yn ôl y safonau sy'n weithredol ar hyn o bryd. Hefyd, rhaid peidio â darlledu unrhyw ffilm sydd wedi'i thorri fel amod ar gyfer rhoi dosbarthiad iddi gan BBFC mewn fersiwn sy'n cynnwys y deunydd a dorrwyd oni bai fod:

- y BBFC wedi cadarnhau bod y deunydd wedi'i dorri i ganiatáu derbyn y ffilm mewn categori is; neu fod
- y BBFC wedi cadarnhau na fyddai'n rhaid torri'r ffilm yn ôl y safonau sy'n weithredol ar hyn o bryd.

1.23 Rhaid peidio â darlledu ffilmiau a gafodd ddosbarthiad 18 gan y BBFC neu rai sy'n cyfateb iddynt cyn 2100 ar unrhyw wasanaeth (heblaw gwasanaethau talu wrth wylio), a hyd yn oed wedyn gallent fod yn anaddas i'w darlledu bryd hynny.

1.24 Caiff gwasanaethau ffilm premiwm i danysgrifwyr ddarlledu ffilmiau hyd at ddosbarthiad 15 y BBFC neu rai sy'n cyfateb iddynt, ar unrhyw adeg o'r dydd ar yr amod bod mynediad cyfyngedig gorfodol ar waith cyn 2000 ac ar ôl 0530.

Hefyd, rhaid i'r systemau diogelu hynny sydd ar waith i amddiffyn plant gael eu hesbonio'n glir i'r holl danysgrifwyr.

(Gweler ystyr "mynediad cyfyngedig gorfodol" dan Reol 1.18 uchod.)

1.25 Caiff gwasanaethau talu wrth wylio ddarlledu ffilmiau hyd at ddosbarthiad 18 y BBFC neu rai sy'n cyfateb iddynt, ar unrhyw adeg o'r dydd ar yr amod bod mynediad cyfyngedig gorfodol ar waith cyn 2100 ac ar ôl 0530.

Yn ogystal:

- rhaid darparu gwybodaeth am gynnwys rhaglen a fydd yn helpu oedolion i asesu ei haddasrwydd i blant;
- rhaid cael system filio fanwl i danysgrifwyr sy'n rhestru'n glir y cwbl a wyliwyd gan gynnwys amseroedd a dyddiadau gwylio; a bod
- rhaid i'r systemau diogelu hynny sydd ar waith i amddiffyn plant gael eu hesbonio'n glir i'r holl danysgrifwyr.

(Gweler ystyr "mynediad cyfyngedig gorfodol" dan Reol 1.18 uchod.)

1.26 Rhaid peidio â darlledu ffilmiau a gafodd ddosbarthiad R18 gan y BBFC.

## Dadreibio, yr ocwlt a'r goruwchnaturiol

1.27 Rhaid peidio â dangos arddangosiadau o ddadreibio, arferion yr ocwlt a'r goruwchnaturiol (yr honnir eu bod yn rhai go iawn) cyn y trothwy (yn achos teledu) neu pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando (yn achos radio), neu pan mae'n debyg y bydd y cynnwys yn cael ei ddefnyddio gan blant (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC). Rhaid peidio â darlledu arferion goruwchnaturiol i

ddibenion adloniant pan ellid disgwyl y bydd niferoedd sylweddol o blant yn gwylio, neu pan fyddant yn neilltuol o debygol o fod yn gwrando, neu pan fydd cynnwys yn debyg o gael ei ddefnyddio gan blant (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC), (Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i ddrama, ffilm na chomedi.).

(Gweler Rheolau 2.6 i 2.8 yn Adran Dau: Niwed a Thramgwydd a Rheol 4.7 yn Adran Pedwar: Crefydd.)

### Cynnwys pobl dan ddeunaw oed mewn rhaglenni

1.28 Rhaid gofalu'n briodol am les corfforol ac emosiynol ac urddas pobl dan ddeunaw oed sy'n cymryd rhan neu'n cael eu cynnwys fel arall mewn rhaglenni. Rhaid gwneud hyn heb ystyried unrhyw ganiatâd a roddwyd gan yr un sy'n cymryd rhan neu gan riant, gwarcheidwad neu gan unigolyn arall sydd dros ddeunaw oed yn lle rhiant.

1.29 Rhaid peidio ag achosi gofid neu bryder diangen i bobl dan ddeunaw oed drwy eu cynnwys mewn rhaglenni neu drwy ddarlledu'r rhaglenni hynny.

1.30 Rhaid i wobrau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer plant fod yn addas i ystod oedran y gynulleidfa yr anelir ati a'r rhai sy'n cymryd rhan.

(Gweler Rheol 2.16 yn Adran Dau: Niwed a Thramgwydd.)

# Adran Dau: Niwed a Thramgwydd

(Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 3(4)(g) ac (l) a 319(2)(a), (f) ac (l) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, Erthyglau 10 a 14 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Siarter a Chytundeb y BBC.)

Rhaid darllen yr adran hon ar y cyd ag Adran Un: Diogelu’r Rhai dan Ddeunaw Oed. Mae’r rheolau yn yr adran hon wedi’u bwriadu nid yn unig i roi amddiffyniad digonol i oedolion ond hefyd i amddiffyn pobl dan ddeunaw oed.

## Egwyddor

**Sicrhau y cymhwysir safonau a dderbynnir yn gyffredinol at gynnwys gwasanaethau teledu a radio fel y rhoddir amddiffyniad digonol i aelodau o’r cyhoedd rhag cynnwys deunydd niweidiol a/neu dramgwyddus mewn gwasanaethau o’r fath.**

## Rheolau

### Safonau a Dderbynnir yn Gyffredinol

2.1 Rhaid cymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol at gynnwys gwasanaethau teledu a radio a Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC fel y rhoddir amddiffyniad digonol i aelodau o’r cyhoedd rhag cynnwys deunydd niweidiol a/neu dramgwyddus mewn gwasanaethau o’r fath.

2.2 Rhaid i raglenni neu eitemau ffeithiol neu bortreadau o faterion ffeithiol beidio â chamarwain y gynulleidfa’n sylweddol.

(Nodyn i Reol 2.2: Mae newyddion wedi’i reoleiddio dan Adran Pump o’r Cod.)

2.3 Wrth gymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol, rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod deunydd a allai achosi tramgwydd wedi’i gyfiawnhau gan y cyd-destun (gweler ystyr “cyd-destun” isod). Gall deunydd o’r fath gynnwys y canlynol ond heb ei gyfyngu iddynt: iaith dramgwyddus, trais, rhyw, trais rhywiol, difrïo, gofid, amharu ar urddas pobl, iaith neu driniaeth wahaniaethol (er enghraifft, ar sail oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, a phriodas a phartneriaeth sifil). Dylid hefyd ddarlledu gwybodaeth briodol os byddai o gymorth i osgoi neu leihau tramgwydd.

**Ystyr “cyd-destun”:**
Mae cyd-destun yn cynnwys (ond heb fod wedi’i gyfyngu i’r canlynol):

- cynnwys golygyddol y rhaglen, y rhaglenni neu’r gyfres;
- y gwasanaeth y darlledir y deunydd arno;
- amser y darllediad;
- pa raglenni eraill sydd wedi’u hamserlennu cyn ac ar ôl y rhaglen neu raglenni dan sylw;
- maint y niwed neu dramgwydd sy’n debygol o gael ei achosi drwy gynnwys unrhyw fath penodol o ddeunydd mewn rhaglenni’n gyffredinol neu raglenni o fath penodol;
- maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa bosibl a disgwyliad tebygol y gynulleidfa.
- y graddau y gellir dwyn natur y cynnwys i sylw’r gynulleidfa bosibl, er enghraifft, drwy roi gwybodaeth; ac
- effaith y deunydd ar wylwyr neu wrandawyr a allai ddod ar ei draws yn ddiarwybod.

Nid yw amser ac amserlennu darllediadau yn berthnasol wrth ddarparu rhaglenni ar-alwad ond, i raglenni a ddarperir ar gyfer Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC mae cyd-destun hefyd yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) natur y mynediad i'r cynnwys e.e. a oes mesurau ar waith i atal plant rhag gwylio a/neu wrando ar y cynnwys;

### Trais, ymddygiad peryglus a hunanladdiad

2.4 Rhaid i raglenni beidio â chynnwys deunydd (boed mewn rhaglenni unigol neu mewn rhaglenni o'u cymryd gyda'i gilydd) sydd, o ystyried y cyd-destun, yn cymeradwyo neu'n 'glamoreiddio' ymddygiad treisiol, peryglus neu dra gwrthgymdeithasol ac sy'n debygol o gymell eraill i efelychu ymddygiad o'r fath.

(Gweler Rheolau 1.11 i 1.13 yn Adran Un: Diogelu'r Rhai dan Ddeunaw Oed.)

2.5 Rhaid peidio â chynnwys dulliau hunanladdiad a hunan-niwed mewn rhaglenni oni bai fod cyfiawnhad golygyddol drostynt a bod y cyd-destun hefyd yn eu cyfiawnhau.

(Gweler Rheol 1.13 yn Adran Un: Diogelu'r Rhai dan Ddeunaw Oed.)

### Dadreibio, yr ocwlt a'r goruwchnaturiol

2.6 Rhaid ymdrin â gwrthrychedd priodol ag unrhyw arddangosiadau o ddadreibio, yr ocwlt, y goruwchnaturiol, dewiniaeth, neu arferion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain yr honnir eu bod yn rhai go iawn (yn hytrach nag adloniant).

(Gweler Rheol 1.27 yn Adran Un: Diogelu'r Rhai dan Ddeunaw Oed, ynghylch cyfyngiadau ar amserlennu.)

2.7 Os gwneir arddangosiad o ddadreibio, yr ocwlt, y goruwchnaturiol, dewiniaeth, neu arferion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain i ddibenion adloniant, rhaid egluro hyn i wylwyr a gwrandawyr.

2.8 Rhaid peidio â chynnwys cyngor newid bywyd sydd wedi'i anelu at unigolion mewn arddangosiadau o ddadreibio, yr ocwlt, y goruwchnaturiol, dewiniaeth, neu arferion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain (pa un a honnir bod arddangosiadau o'r fath yn rhai go iawn neu eu bod i ddibenion adloniant).

(Mae rhaglenni crefyddol wedi'u heithrio rhag y rheol hon ond rhaid iddynt gydymffurfio, pa un bynnag, â'r darpariaethau yn Adran Pedwar: Crefydd. Nid yw ffilmiau, dramâu a ffuglen yn dod o dan y rheol hon fel arfer.)

**Ystyr "newid bywyd":**
Mae cyngor newid bywyd yn cynnwys cyngor uniongyrchol i unigolion y gallent weithredu ar ei sail neu ddibynnu arno'n rhesymol ynghylch iechyd, materion ariannol, cyflogaeth neu berthnasoedd.

### Technegau hypnotig ac eraill, newyddion dynwaredol ac epilepsi ffotosensitif

2.9 Os bydd darlledwyr yn darlledu deunydd sy'n cynnwys arddangosiadau o dechnegau hypnoteiddio, rhaid iddynt arfer cyfrifoldeb priodol er mwyn atal hypnosis a/neu adweithiau niweidiol ymysg gwylwyr a gwrandawyr. Rhaid i'r hypnotydd beidio â darllедu geiriau ei act arferol yn llawn na chael ei ddangos yn perfformio'n syth i'r camera.

2.10 Rhaid darlledu newyddion dynwaredol (er enghraifft, mewn dramâu neu mewn rhaglenni dogfen) yn y fath fodd fel nad oes posibilrwydd rhesymol y bydd y gynulleidfa'n cael ei chamarwain i gredu eu bod yn gwylio neu'n gwrando ar

newyddion go iawn.

2.11 Rhaid i ddarlledwyr beidio â defnyddio technegau sy’n manteisio ar y posibilrwydd o gyfleu neges i wylwyr neu wrandawyr, neu o ddylanwadu ar eu meddwl fel arall heb iddynt fod yn ymwybodol, neu’n llwyr ymwybodol, o’r hyn sydd wedi digwydd.

2.12 Rhaid i ddarlledwyr teledu ofalu am gadw lefel isel o risg i wylwyr sydd ag epilepsi ffotosensitif. Mewn achosion lle nad yw’n rhesymol ymarferol dilyn arweiniad Ofcom (gweler gwefan Ofcom), a lle y gall darlledwyr ddangos bod cyfiawnhad golygyddol dros ddarlledu patrymau a/neu oleuadau sy’n fflachio, dylid rhoi rhybudd digonol i wylwyr ar lafar a hefyd, os yw’n briodol, ar ffurf testun ar ddechrau’r rhaglen neu’r eitem mewn rhaglen.

## Cystadlaethau a ddarlledir a phleidleisio

2.13 Rhaid i gystadlaethau a phleidleisio a ddarlledir gael eu cynnal yn deg.

2.14 Rhaid i ddarlledwyr sicrhau nad yw gwylwyr a gwrandawyr yn cael eu camarwain yn sylweddol am unrhyw bleidleisio neu gystadleuaeth a ddarlledir.

2.15 Rhaid i ddarlledwyr lunio rheolau ar gyfer pleidlais neu gystadleuaeth a ddarlledir. Rhaid i’r rheolau hyn fod yn glir a rhaid rhoi gwybod amdanynt mewn modd priodol. Yn benodol, rhaid datgan yr amodau pwysig a all effeithio ar benderfyniad gwrandäwr neu wyliwr i gyfrannu ar yr adeg y darlledir gwahoddiad i gyfrannu.

2.16 Rhaid disgrifio gwobrau cystadlaethau a ddarlledir yn gywir.

(Gweler hefyd Rheol 1.30 yn Adran Un: Diogelu’r Rhai dan Ddeunaw Oed, sy'n ymdrin â darparu gwobrau priodol i blant.)

**Nodyn:**
Mewn amgylchiadau lle gall y gynulleidfa gymryd rhan a rhyngweithio gyda rhaglenni (gan gynnwys pleidleisio a chystadlaethau a ddarlledir) ac y gall hynny olygu cost i’r gwyliwr, dylai darlledwyr teledu hefyd gyfeirio at Reolau 9.26 i 9.30. Dylai darlledwyr radio gyfeirio at Reolau 10.9 a 10.10.

**Ystyr “cystadleuaeth a ddarlledir":**
Cystadleuaeth neu gyfle i ennill gwobr ar raglen lle mae gwylwyr neu wrandawyr yn cael eu gwahodd i gystadlu drwy unrhyw ffordd am y cyfle i ennill gwobr.

**Ystyr “pleidleisio”:**
Mae’n digwydd mewn rhaglen lle mae gwylwyr neu wrandawyr yn cael eu gwahodd i gofrestru pleidlais drwy unrhyw ffordd er mwyn penderfynu neu ddylanwadu ar ganlyniad cystadleuaeth, ar unrhyw gam.

# Adran Tri: Trosedd, Anhrefn, Casineb a Chamdriniaeth

(Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 3(4)(j) a 319(2)(b) ac (f) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol, Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Siarter a Chytundeb y BBC.)

**Rhagair**

Mae'r adran hon o'r Cod yn ymdrin â deunydd sy'n debygol o ysgogi troseddu neu anhrefn, gan adlewyrchu dyletswydd Ofcom i wahardd darlledu'r math hwn o raglenni.

Mae yna reolau hefyd yn yr adran hon sy'n cwmpasu deunydd sy'n cynnwys casineb, ymdriniaeth ddifrïol a dirmygus, a phortreadau o droseddau ac achosion troseddol. Mae'r rhain yn berthnasol i ddyletswydd Ofcom i ddarparu diogelwch digonol i'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd tramgwyddus a niweidiol mewn gwasanaethau teledu a radio; (Gweler hefyd Adran Dau: Niwed a Thramgwydd).

Bwriad y rheolau yn yr adran hon yw adlewyrchu hawl darlledwyr i ryddid mynegiant a hawl cynulleidfaoedd i dderbyn gwybodaeth a syniadau. Er enghraifft, efallai y bydd darlledwyr yn dymuno adrodd ar neu gyfweld pobl neu sefydliadau sydd â safbwyntiau eithafol neu heriol mewn darpariaethau newyddion a materion cyfoes, sydd yn amlwg er budd y cyhoedd. Mae ymagweddau golygyddol amrywiol y gall darlledwyr eu cymryd i ddarparu cyd-destun wrth gynnwys safbwyntiau eithafol a/neu sarhaus mewn deunydd darlledu, a nodir rhai ohonyn nhw isod.

Fel gydag adrannau eraill o'r Cod, ni ddylid darllen unrhyw reol ar ei phen ei hunan, ond yng nghyd-destun y Cod cyfan a'r nodiadau ategol a ddarparwyd. Dylai darlledwyr hefyd gyfeirio at ganllawiau cyhoeddedig Ofcom am ragor o wybodaeth ynghylch deunydd sy'n cydymffurfio dan yr Adran hon.

## Egwyddor

**Sicrhau nad yw deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau teledu na radio na Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC.**

## Rheolau

### Ysgogi troseddu ac anhrefn

3.1 Mewn gwasanaethau teledu na radio, na Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC rhaid peidio â chynnwys deunydd sy'n debygol o annog neu gymell comisiynu troseddu neu o arwain at anhrefn.

**Nodyn:**

Dan Reol 3.1, gall "deunydd" gynnwys y canlynol, ond nid yw wedi ei gyfyngu i'r rhain:

- cynnwys sy'n cyfateb yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â galwad i weithredu'n droseddol neu beri anhrefn;

- deunydd sy'n hyrwyddo neu’n annog ymwneud â therfysgaeth neu fathau eraill o weithgarwch troseddol neu anhrefn; a/neu
- casineb ar lafar, sy'n debygol o annog gweithgarwch troseddol neu arwain at anhrefn.

**Ystyr "terfysgaeth":** gweler y diffiniad yn adran 1 Deddf Terfysgaeth 2000, sydd hefyd yn cael ei grynhoi yng nghanllaw Ofcom ar yr adran hon o’r Cod.

**Ystyr "casineb ar lafar":** pob ffurf ar fynegiant sy'n lledaenu, ysgogi, hybu neu gyfiawnhau casineb yn seiliedig ar anoddefgarwch ar sail anabledd, ethnigrwydd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cenedligrwydd, hil, crefydd, neu dueddfryd rhywiol.

**Ystyr "trosedd":** gall hyn ymwneud ag unrhyw drosedd dan y gyfraith y gellir pennu carchariad neu ddirwy fel cosb ar ei chyfer.

**Ystyr "anhrefn":** mae hyn yn cynnwys trosedd anhrefn sifil, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

**Ystyr "sy’n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn":**

Portread o droseddu, neu o annog troseddu, na fydd o reidrwydd yn arwain at dorri Rheol 3.1. Bydd y tebygolrwydd o gynnwys yn ysgogi troseddu neu’n arwain at anhrefn yn dibynnu ar natur y deunydd, yn ogystal â chyd-destun ei gyflwyno i'r gynulleidfa.

Gall ffactorau cyd-destunol sylweddol dan Reol 3.1 gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain):

- diben golygyddol y rhaglen;
- statws neu safle unrhyw un sy’n ymddangos yn y deunydd; a/neu
- a oes digon o her yn cael ei ddarparu i'r deunydd.

Er enghraifft, efallai y bydd rhagor o botensial i ddeunydd annog neu gymell comisiynu troseddu os yw rhaglen yn mynd ati i ddylanwadu ar y gynulleidfa ar bwnc neu thema, neu'n darparu llwyfan anfeirniadol i ffigwr awdurdodol eiriol dros weithgarwch troseddol neu anhrefn.

Efallai y bydd llai o botensial i dorri Rheol 3.1 os bydd safbwyntiau gwahanol a digon o her yn cael eu darparu i bobl neu fudiadau sy'n eiriol dros weithgarwch troseddol neu anhrefn, neu lle mae rhaglen yn ceisio archwilio neu gynnig sylwebaeth er budd y cyhoedd ar weithgarwch troseddol neu anhrefn.

Mae enghreifftiau eraill o ffactorau cyd-destunol yn cael eu darparu yng nghanllawiau Ofcom ar yr Adran hon o'r Cod.

**Casineb a Chamdriniaeth**

**Nodyn:**

Mae Rheolau 3.2 a 3.3 yn adlewyrchu amcan y safonau ar ddarparu amddiffyniad digonol i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd sarhaus a niweidiol (adran 319(2)(f) Deddf Cyfathrebiadau 2003).

3.2 Rhaid peidio â chynnwys deunydd sy'n cynnwys casineb ar lafar mewn rhaglenni teledu a radio na Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC ac eithrio pan mae modd ei gyfiawnhau drwy'r cyd-destun.

Tynnir sylw darlledwyr at adrannau 22 a 29F Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, sy'n nodi troseddau sy'n deillio o ddarlledu deunydd sy'n ysgogi casineb yn ymwneud â hil, crefydd, neu dueddfryd rhywiol.

3.3 Rhaid peidio â chynnwys deunydd sy'n cynnwys triniaeth ymosodol neu ddifrïol o unigolion, grwpiau, crefyddau neu gymunedau, mewn gwasanaethau teledu a radio neu Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC ac eithrio lle mae modd ei gyfiawnhau drwy'r cyd-destun. (Gweld hefyd Reol 4.2).

**Ystyr "cyd-destun" dan Reol 3.2 a Rheol 3.3:**

Gall ffactorau cyd-destunol allweddol gynnwys y canlynol, ond nid ydyn nhw wedi eu cyfyngu i'r rhain:

- genre a chynnwys golygyddol y rhaglen, y rhaglenni neu'r gyfres a disgwyliadau tebygol y gynulleidfa. Er enghraifft, mae rhai genres fel drama, comedi neu ddychan lle mae'n debygol y bydd cyfiawnhad golygyddol dros gynnwys barn heriol neu eithafol sy'n gydnaws â disgwyliadau'r gynulleidfa, cyn belled â bod digon o gyd-destun. Y mwyaf yw'r risg i'r deunydd achosi niwed neu dramgwydd, y mwyaf yw'r angen am gyfiawnhad mwy cyd-destunol;
- y graddau y cynigir digon o her;
- statws neu safle unrhyw un sy'n ymddangos yn y deunydd;
- y gwasanaeth lle darlledir y deunydd; a
- maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa bosibl a disgwyliad tebygol y gynulleidfa.

## Portreadau o droseddau ac achosion troseddol

3.4 Tra bydd achos troseddol yn mynd ymlaen, ni cheir rhoi unrhyw daliad neu addewid o daliad, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw dyst neu unrhyw berson y gellir disgwyl yn rhesymol iddo gael ei alw'n dyst. Ni ddylid awgrymu rhoi unrhyw daliad ychwaith neu ei wneud yn ddibynnol ar ganlyniad y treial. Dim ond gwariant gwirioneddol neu golled enillion anochel a gafwyd wrth gyfrannu at raglen y ceir ei ad-dalu.

3.5 Os yw achos troseddol yn debygol neu os gellir ei ragweld, ni ddylid rhoi taliadau i bobl y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod yn dystion oni bai fod budd amlwg i'r cyhoedd yn hynny, er enghraifft, drwy ymchwilio i drosedd neu ddrwgweithredu difrifol, a bod angen y taliad i gael yr wybodaeth. Os rhoddir taliad o'r fath, bydd yn briodol datgelu'r taliad i'r amddiffyniad ac i'r erlyniad os bydd y person yn dyst mewn unrhyw dreial a geir wedyn.

3.6 Rhaid i ddarlledwyr wneud pob ymdrech i beidio â darlledu deunydd a allai beryglu bywydau neu amharu ar lwyddiant ymdrechion i ddelio ag achos o gipio neu herwgipio.

# Adran Pedwar: Crefydd

(Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 319(2)(e) a 319(6) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, ac Erthyglau 9, 10 a 14 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Siarter a Chytundeb y BBC.)

Mae'r rheolau yn yr adran hon yn gymwys i raglenni crefyddol.

## Egwyddorion

**Sicrhau bod darlledwyr yn arfer cyfrifoldeb priodol mewn cysylltiad â chynnwys rhaglenni sy'n rhaglenni crefyddol.**

**Sicrhau nad yw rhaglenni crefyddol yn cynnwys unrhyw gamfanteisio ar unrhyw deimladau sydd gan y gynulleidfa ynghylch rhaglen o'r fath.**

**Sicrhau nad yw rhaglenni crefyddol yn cynnwys unrhyw ymdriniaeth ddifrïol â barnau a chredoau crefyddol y rhai sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol.**

## Rheolau

4.1 Rhaid i ddarlledwyr arfer cyfrifoldeb priodol mewn cysylltiad â chynnwys rhaglenni sy'n rhaglenni crefyddol.

**Ystyr "rhaglen grefyddol":**
Mae rhaglen grefyddol yn rhaglen sy'n delio â materion crefyddol fel testun canolog, neu fel rhan bwysig, o'r rhaglen.

4.2 Rhaid peidio ag ymdrin yn ddifrïol â barnau a chredoau crefyddol y rhai sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol.

4.3 Os yw crefydd neu enwad crefyddol yn destun, neu'n un o'r testunau, i raglen grefyddol, rhaid i enw'r grefydd a/neu'r enwad fod yn glir i'r gynulleidfa.

4.4 Rhaid i raglenni crefyddol beidio â cheisio hyrwyddo barnau neu gredoau crefyddol yn llechwraidd.

4.5 Rhaid i raglenni crefyddol ar wasanaethau teledu neu Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC beidio â cheisio recriwtiaid. Nid yw hyn yn berthnasol i wasanaethau teledu crefyddol arbenigol. Mae rhaglenni crefyddol ar wasanaethau radio'n cael ceisio recriwtiaid.

**Ystyr "ceisio recriwtiaid":**
Ystyr ceisio recriwtiaid yw apelio'n uniongyrchol i aelodau'r gynulleidfa i ymuno â chrefydd neu enwad crefyddol.

4.6 Rhaid i raglenni crefyddol beidio â chamfanteisio ar unrhyw deimladau sydd gan y gynulleidfa.

(Yng nghyswllt apeliadau elusennol mewn rhaglenni ac apeliadau am nawdd gan ddarlledwyr, dylai darlledwyr teledu gyfeirio at Reolau 9.33 a 9.34 a 9.36 i 9.39. Dylai darlledwyr radio gyfeirio at Reolau 10.11 a 10.12).

4.7 Os yw rhaglen grefyddol yn cynnwys honiadau bod rhywun byw (neu grŵp) yn meddu ar bwerau neu alluoedd arbennig, rhaid iddi drin honiadau o’r fath â gwrthrychedd priodol a rhaid iddi beidio â darlledu honiadau o’r fath ar adegau pan ellid disgwyl i niferoedd sylweddol o blant fod yn gwylio (yn achos teledu), neu pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando (yn achos radio), neu pan fydd y cynnwys yn debyg o gael ei ddefnyddio gan blant (yn achos Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC).

(Ar gyfer ystyr “yn debyg o gael ei ddefnyddio gan blant” gweler Adran Un: Diogelu’r Rhai dan Ddeunaw Oed.)

**MAE NEWIDIADAU TERFYNOL OFCOM I ADRAN PUM (DIDUEDDRWYDD DYLADWY A CHYWIRDEB DYLADWY) AC ADRAN CHWECH (ETHOLIADAU A REFFERENDA) WEDI CAEL EU CYNNWYS MEWN DATGANIAD AR WAHÂN.**

https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/98150/Due-impartiality-and-election-statement-WELSH.pdf

# Adran Saith: Tegwch

(Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 3(2)(f) a 326 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac adrannau 107(1) a 130 o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd), Erthygl 28 o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol, Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Siarter a Chytundeb y BBC.)

## Rhagair

Mae'r adran hon a'r adran sy'n dilyn ar breifatrwydd yn wahanol i adrannau eraill y Cod. Maent yn ymwneud â'r modd y mae darlledwyr yn trin yr unigolion neu gyrff y mae rhaglenni'n effeithio arnynt yn uniongyrchol, yn hytrach na'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei weld a/neu ei glywed fel gwylwyr a gwrandawyr.

Yn ogystal ag egwyddor a rheol, mae'r adran hon yn cynnwys "arferion i'w dilyn" gan ddarlledwyr wrth ddelio ag unigolion a chyrff sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni neu'n dod yn uniongyrchol dan eu heffaith fel arall fel y'u darlledwyd. Ni fydd dilyn yr arferion hyn yn fodd i osgoi mynd yn groes i'r adran hon o'r cod o reidrwydd (Rheol 7.1). *Fodd bynnag, ni fydd methiant i ddilyn yr arferion hyn ond yn groes i'r Cod os yw'n arwain at annhegwch ag unigolyn neu gorff yn y rhaglen.* Mae'n bwysig nodi nad yw'r Cod yn gallu nac yn ceisio nodi'r holl "arferion i'w dilyn" er mwyn osgoi triniaeth annheg.

Mae'r darpariaethau canlynol yn yr adran nesaf ar breifatrwydd hefyd yn berthnasol i'r adran hon:

- yr esboniad o fudd cyhoeddus sydd yn ystyr "gyda chyfiawnhad" dan Reol 8.1 yn Adran Wyth: Preifatrwydd;
- ystyr ffilmio neu recordio dirgel sydd dan "arferion i'w dilyn" dan 8.13 yn Adran Wyth: Preifatrwydd.

## Egwyddor

**Sicrhau bod darlledwyr yn osgoi trin unigolion neu gyrff yn anghyfiawn neu'n annheg mewn rhaglenni.**

## Rheol

7.1 Rhaid i ddarlledwyr osgoi trin unigolion neu gyrff yn anghyfiawn neu'n annheg mewn rhaglenni.

### Arferion i'w dilyn (7.2 i 7.14 isod)

#### Delio â chyfranwyr yn deg a chael cydsyniad gwybodus

7.2 Fel arfer dylai darlledwyr a gwneuthurwyr rhaglenni ddelio'n deg â chyfranwyr posibl i raglenni oni bai fod cyfiawnhad dros wneud fel arall mewn achosion eithriadol.

7.3 Os gwahoddir rhywun i gyfrannu at raglen (heblaw pan yw'r deunydd yn ddibwys neu'r rhan y mae'n ei chymryd ynddi'n fach) dylid gwneud y canlynol fel arfer ar adeg briodol:

- ei hysbysu am natur a phwrpas y rhaglen, beth sydd dan sylw yn y rhaglen a rhoi eglurhad clir iddo am y rheswm dros ofyn iddo gymryd rhan a pha bryd (os yw'n

hysbys) ac ym mhle y mae'n debygol o gael ei darlledu gyntaf;

- rhoi gwybod iddo am y math o gyfraniad a ddisgwylir ganddo, er enghraifft, un byw, wedi'i recordio ymlaen llaw, cyfweliad, trafodaeth, wedi'i olygu, heb ei olygu, ayb.;
- ei hysbysu am y meysydd y bydd y cwestiynau'n ymwneud â hwy ac, os yw'n bosibl, natur y cyfraniadau tebygol eraill;
- rhoi gwybod iddo am unrhyw newidiadau pwysig yn y rhaglen wrth iddi ddatblygu a allai effeithio'n rhesymol ar ei gydsyniad gwreiddiol i gymryd rhan, ac a allai achosi annhegwch sylweddol;
- ei hysbysu am natur ei hawliau a'i rwymedigaethau contractiol a'r rheini sydd gan wneuthurwr y rhaglen a'r darlledwr mewn cysylltiad â'i gyfraniad;
- rhoi gwybodaeth glir iddo, os cynigir cyfle iddo weld y rhaglen cyn ei darlledu, ynghylch a fydd yn gallu peri unrhyw newidiadau ynddi.

Drwy gymryd y camau hyn, mae'n debygol y bydd y cydsyniad a roddir yn 'gydsyniad gwybodus' (a elwir yn yr adran hon ac yng ngweddill y Cod yn "gydsyniad").

Gallai fod yn deg atal y cwbl neu rywfaint o'r wybodaeth hon os oes cyfiawnhad dros wneud hynny er lles y cyhoedd neu dan ddarpariaethau eraill yn yr adran hon o'r Cod.

7.4 Os yw cyfrannwr dan un ar bymtheg oed, dylid cael cydsyniad fel arfer gan riant neu warcheidwad, neu gan rywun arall sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn yn lle rhiant. Yn benodol, ni ddylid gofyn i rai dan un ar bymtheg oed am eu barn am faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn briodol heb gael cydsyniad o'r fath.

7.5 Yn achos rhai dros un ar bymtheg oed nad ydynt mewn sefyllfa i roi cydsyniad, dylai rhywun sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn sydd â'r prif gyfrifoldeb dros ei ofal roi cydsyniad ar eu rhan fel arfer. Yn benodol, ni ddylid gofyn i rai nad ydynt mewn sefyllfa i roi cydsyniad am eu barn am faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn briodol heb gael cydsyniad o'r fath.

7.6 Os yw rhaglen wedi'i golygu, dylid cyfleu cyfraniadau'n deg.

7.7 Fel arfer dylid anrhydeddu gwarantiadau a roddir i gyfranwyr, er enghraifft, ynghylch cynnwys rhaglen, cyfrinachedd neu anhysbysrwydd.

7.8 Dylai darlledwyr sicrhau na fydd ail ddefnydd o ddeunydd, h.y. defnyddio deunydd a gafodd ei ffilmio neu ei recordio'n wreiddiol at un diben a'i ddefnyddio wedyn at ddiben arall neu ei ddefnyddio mewn rhaglen ddiweddarach neu un wahanol, yn creu annhegwch. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a gafwyd gan eraill a deunydd y darlledwr ei hun.

## Cyfle i gyfrannu ac ystyriaeth briodol i ffeithiau

7.9 Cyn darlledu rhaglen ffeithiol, gan gynnwys rhaglenni sy'n edrych ar ddigwyddiadau yn y gorffennol, dylai darlledwyr gymryd gofal rhesymol i'w bodloni eu hunain:

- nad yw ffeithiau perthnasol wedi'u cyflwyno, eu diystyru neu eu gadael allan mewn modd sy'n annheg ag unigolyn neu gorff;
- bod unrhyw un y byddai ei adael allan yn gallu bod yn annheg ag unigolyn neu gorff wedi cael cynnig cyfle i gyfrannu.

7.10 Ni ddylai rhaglenni – fel dramâu a dramâu sydd â sail ffeithiol – bortreadu ffeithiau, digwyddiadau, unigolion neu gyrff mewn modd sy'n annheg ag unigolyn neu gorff.

7.11 Os bydd rhaglen yn gwneud honiadau am ddrwgweithredu neu anghymhwyster neu'n gwneud honiadau sylweddol eraill, dylid fel arfer roi cyfle priodol ac amserol i ymateb i'r rhai dan sylw.

7.12 Os bydd rhywun y cysylltwyd ag ef i ofyn iddo gyfrannu i raglen yn dewis peidio â gwneud sylw neu'n gwrthod ymddangos mewn darllediad, dylai'r darllediad egluro bod yr unigolyn dan sylw wedi dewis peidio ag ymddangos a dylai roi ei eglurhad os byddai'n annheg peidio â gwneud hynny.

7.13 Os yw'n briodol cyfleu barn person neu gorff nad yw'n cymryd rhan yn y rhaglen, rhaid gwneud hynny mewn modd teg.

## Twyll, dal pobl a galwadau 'cynhyrfu'

7.14 Fel arfer ni ddylai darlledwyr neu wneuthurwyr rhaglenni gael neu geisio gwybodaeth, deunydd clywedol, lluniau neu gytundeb i gyfrannu drwy gamliwio neu dwyll. (Mae twyll yn cynnwys ffilmio neu recordio dirgel.) Ond:

- mae'n bosibl y byddai cyfiawnhad dros ddefnyddio deunydd a gafwyd drwy gamliwio neu dwyll os yw er lles y cyhoedd ac os na ellir ei gael yn rhesymol fel arall;
- os nad oes cyfiawnhad digonol ar sail budd cyhoeddus, er enghraifft, rhai galwadau cynhyrfu na ofynnwyd amdanynt neu drefniadau i ddal pobl er mwyn difyrrwch, dylid cael cydsyniad gan yr unigolyn a/neu gorff dan sylw cyn darlledu'r deunydd;
- os na ellir adnabod yr unigolyn a/neu gorff yn y rhaglen, ni fydd angen cael cydsyniad i ddarlledu;
- gellir defnyddio deunydd sy'n cynnwys pobl enwog a'r rheini sydd yn llygad y cyhoedd heb gael cydsyniad i ddarlledu, ond ni ddylid ei ddefnyddio heb fod cyfiawnhad ar sail budd cyhoeddus os yw'n debygol o'u gwneud yn destun gwawd cyhoeddus neu o beri gofid personol nad oes modd ei gyfiawnhau. (Fel arfer, felly, dylid recordio cyfraniadau o'r fath cyn eu darlledu.)

(Gweler "arferion i'w dilyn" 8.11 i 8.15 yn Adran Wyth: Preifatrwydd.)

# Adran Wyth: Preifatrwydd

(Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 3(2)(f) a 326 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, adrannau 107(1) a 130 o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd), Erthyglau 8 a 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Siarter a Chytundeb y BBC.)

## Rhagair

Mae'r adran hon a'r adran flaenorol ar degwch yn wahanol i adrannau eraill y Cod. Maent yn ymwneud â'r modd y mae darlledwyr yn trin yr unigolion neu gyrff y mae rhaglenni'n effeithio arnynt yn uniongyrchol, yn hytrach na'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei weld a/neu ei glywed fel gwylwyr a gwrandawyr.

Yn ogystal ag egwyddor a rheol, mae'r adran hon yn cynnwys "arferion i'w dilyn" gan ddarlledwyr wrth ddelio ag unigolion neu gyrff sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni neu'n dod yn uniongyrchol dan eu heffaith fel arall, neu wrth wneud rhaglenni. Ni fydd dilyn yr arferion hyn yn fodd i osgoi mynd yn groes i'r adran hon o'r cod o reidrwydd (Rheol 8.1). *Fodd bynnag, ni fydd methiant i ddilyn yr arferion hyn ond yn groes i'r cod os yw'n arwain at dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad.* Mae'n bwysig nodi nad yw'r Cod yn gallu nac yn ceisio nodi'r holl "arferion i'w dilyn" er mwyn osgoi tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad.

Mae Deddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod Ofcom yn ystyried cwynion am dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad mewn rhaglen neu mewn cysylltiad â chael deunydd sydd wedi'i gynnwys mewn rhaglen. Gallai hyn alw am rai penderfyniadau anodd yn y fan a'r lle ynghylch a dresmasir ar breifatrwydd heb gyfiawnhad drwy ffilmio neu recordio, yn enwedig wrth adrodd ar sefyllfaoedd o argyfwng ("arferion i'w dilyn" 8.5 i 8.8 ac 8.16 i 8.19). Rydym yn cydnabod y gellir cael budd cyhoeddus pwysig mewn adrodd ar sefyllfa o argyfwng wrth iddi ddigwydd ac rydym yn sylweddoli y gall darlledwyr fod dan bwysau mewn man lle y mae trychineb neu argyfwng a all ei wneud yn anodd penderfynu ar y pryd a yw ffilmio neu recordio'n tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. Bydd Ofcom yn ystyried y ffactorau hyn wrth ddyfarnu ynghylch cwynion.

Lle y mae cyfeiriad at gydsyniad yn Adran Wyth, mae'n gyfeiriad at gydsyniad gwybodus.
Gweler "arfer i'w ddilyn" 7.3 yn Adran Saith: Tegwch.

## Egwyddor

**Sicrhau bod darlledwyr yn osgoi unrhyw dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad mewn rhaglenni ac mewn cysylltiad â chael deunydd sydd wedi'i gynnwys mewn rhaglenni.**

## Rheol

8.1 Os ceir unrhyw dresmasu ar breifatrwydd mewn rhaglenni, neu mewn cysylltiad â chael deunydd sydd wedi'i gynnwys mewn rhaglenni, rhaid bod â chyfiawnhad dros hynny.

**Ystyr "â chyfiawnhad":**
Yn yr adran hon, mae ystyr penodol i "â chyfiawnhad". Mae'n golygu, lle y mae

darlledwyr yn dymuno dangos bod cyfiawnhad dros dresmasu ar breifatrwydd, y dylent allu dangos pam y mae cyfiawnhad dros hynny dan amgylchiadau penodol yr achos. Os mai'r rheswm am hynny yw ei fod er budd cyhoeddus, dylai'r darlledwr allu dangos bod y budd cyhoeddus yn bwysicach na'r hawl i breifatrwydd. Enghreifftiau posibl o'r budd cyhoeddus yw datgelu neu ddarganfod troseddu, diogelu iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, datgelu honiadau camarweiniol gan unigolion neu gyrff neu ddatgelu anghymhwystra sy'n effeithio ar y cyhoedd.

## Arferion i'w dilyn (8.2 i 8.22)

### Bywydau preifat, lleoedd cyhoeddus a disgwyliad dilys o breifatrwydd

**Ystyr "disgwyliad dilys o breifatrwydd":**
Bydd disgwyliadau dilys o breifatrwydd yn amrywio yn ôl lle a natur yr wybodaeth, gweithgarwch neu gyflwr sydd dan sylw, y graddau y mae yn y parth cyhoeddus (os ydyw o gwbl) ac a yw'r unigolyn dan sylw eisoes yn llygad y cyhoedd. Gellir cael amgylchiadau lle y gall pobl fod â disgwyliad rhesymol o breifatrwydd hyd yn oed mewn man cyhoeddus. Gallai rhai gweithgareddau a chyflyrau fod o'r fath natur breifat fel y byddai ffilmio neu recordio, hyd yn oed mewn man cyhoeddus, yn gallu golygu tresmasu ar breifatrwydd. Mae pobl sy'n destun ymchwiliad neu sydd yn llygad y cyhoedd, a'u teulu a'u ffrindiau agos, yn cadw'r hawl i fywyd preifat, er y gall ymddygiad preifat arwain at ystyriaethau sydd o ddiddordeb dilys i'r cyhoedd.

8.2 Ni ddylid datgelu gwybodaeth sy'n dangos lleoliad cartref rhywun neu gartref ei deulu heb ganiatâd, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny.

8.3 Os caiff pobl eu hunain yng nghanol digwyddiadau sy'n destun sylw yn y newyddion, maent yn dal i fod â hawl i breifatrwydd wrth wneud rhaglen ac wrth ei darlledu, oni bai fod cyfiawnhad dros dresmasu ar yr hawl honno. Mae hyn yn gymwys i adeg y digwyddiadau hyn ac i unrhyw raglenni diweddarach sy'n rhoi sylw eto i'r digwyddiadau hynny.

8.4 Dylai darlledwyr sicrhau nad yw geiriau, delweddau neu weithredoedd a gaiff eu ffilmio neu eu recordio mewn man cyhoeddus, neu eu darlledu ohono, yn rhai sydd mor breifat fel bod angen cael cydsyniad ymlaen llaw cyn darlledu gan yr unigolyn neu gorff sy'n gysylltiedig, oni bai fod cyfiawnhad dros ddarlledu heb gael cydsyniad ganddynt.

### Caniatâd

8.5 Os oes unrhyw dresmasu ar breifatrwydd wrth wneud rhaglen, dylid cael cydsyniad gan y person a/neu'r corff ar gyfer hynny neu dylai fod cyfiawnhad drosto fel arall.

8.6 Os byddai darlledu rhaglen yn tresmasu ar breifatrwydd person neu gorff, dylid cael cydsyniad cyn darlledu'r deunydd perthnasol, oni bai fod cyfiawnhad dros dresmasu ar breifatrwydd. (Bernir bod rhai sy'n galw rhaglenni ffonio i mewn wedi rhoi cydsyniad i ddarlledu eu cyfraniad.)

8.7 Os tresmasir ar breifatrwydd unigolyn neu gorff, a bod hwnnw'n gofyn am atal y ffilmio, y recordio neu'r darlledu byw, dylai'r darlledwr wneud hynny, oni bai fod cyfiawnhad dros fynd ymlaen.

8.8 Os bydd ffilmio neu recordio mewn sefydliadau, cyrff neu asiantaethau eraill, dylid cael caniatâd gan yr awdurdod neu reolwr perthnasol, oni bai fod cyfiawnhad dros ffilmio neu recordio heb gael caniatâd. Fel arfer ni fyddai angen cael cydsyniad unigol gan weithwyr neu eraill sy'n ymddangos yn ddamweiniol neu lle y maent i

bob pwrpas yn aelodau di-enw o'r cyhoedd.

- Fodd bynnag, mewn mannau a allai fod yn sensitif fel ambiwlansiau, ysbytai, ysgolion, carchardai neu orsafoedd heddlu, dylid cael cydsyniad ar wahân fel arfer cyn ffilmio neu recordio ac ar gyfer darlledu gan y rheini sydd mewn sefyllfaoedd sensitif (oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â chael cydsyniad). Os na fydd modd adnabod yr unigolyn yn y rhaglen, ni fydd angen cael cydsyniad ar wahân ar gyfer darlledu.

## Casglu gwybodaeth, sain neu ddelweddau ac ailddefnyddio deunydd

8.9 Rhaid i'r dull o gael deunydd fod yn gymesur yn yr holl amgylchiadau ac yn benodol yn ôl cynnwys y rhaglen.

8.10 Dylai darlledwyr sicrhau na fydd ailddefnyddio deunydd, h.y. defnyddio deunydd a gafodd ei ffilmio neu ei recordio'n wreiddiol at un diben a'i ddefnyddio wedyn mewn rhaglen at ddiben arall neu ei ddefnyddio mewn rhaglen ddiweddarach neu un wahanol, yn arwain at dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a gafwyd gan eraill a deunydd y darlledwr ei hun.

8.11 Ni ddylid ffilmio neu recordio'n ddirybudd ar gyfer rhaglenni ffeithiol oni bai fod cais am gyfweliad wedi'i wrthod neu iddi fod yn amhosibl gwneud cais am gyfweliad, neu fod rheswm da dros gredu y caiff ymchwiliad ei lesteirio os cysylltir â'r gwrthrych yn agored, a bod cyfiawnhad dros ffilmio neu recordio'n ddirybudd. Fodd bynnag, bydd darlledwyr fel arfer yn cael cyfweld, ffilmio neu recordio pobl sydd yn y newyddion heb roi rhybudd ymlaen llaw pan fyddant mewn mannau cyhoeddus.

(Gweler "arfer i'w dilyn" 8.15).

**Ystyr "ffilmio neu recordio'n ddirybudd":**
Ffilmio neu recordio'n ddirybudd yw ffilmio neu recordio cyfweliad neu geisio cyfweld rhywun, neu gyhoeddi bod galwad yn cael ei ffilmio neu ei recordio i ddibenion darlledu, heb roi rhybudd ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys barn y bobl neu 'vox-pops' (samplu barn aelodau'r cyhoedd ar hap).

8.12 Gall darlledwyr recordio galwadau ffôn rhwng y darlledwr a'r parti arall os ydynt wedi dweud pwy ydynt ar ddechrau'r alwad, wedi egluro pwrpas yr alwad ac wedi dweud bod yr alwad yn cael ei recordio a'i bod yn bosibl y caiff ei darlledu (os felly y mae) oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â dilyn un neu ragor o'r arferion hyn. Os daw'n amlwg yn ddiweddarach y bydd galwad sydd wedi'i recordio'n cael ei darlledu (ond bod hynny heb ei egluro i'r parti arall ar adeg yr alwad), rhaid i'r darlledwr gael cydsyniad cyn darlledu gan y parti arall, oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny.

Gweler "arferion i'w dilyn" 7.14 a 8.13 i 8.15.)

8.13 Dim ond os oes cyfiawnhad dros hynny y dylid ffilmio neu recordio'n ddirgel. Fel arfer, ni fydd cyfiawnhad dros hynny oni bai fod:

- tystiolaeth prima facie o stori sydd er budd y cyhoedd; a
- bod lle rhesymol i amau y gellid cael tystiolaeth berthnasol bellach; a
- bod hynny'n angenrheidiol er mwyn hygrededd a dilysrwydd y rhaglen.

Gweler "arferion i'w dilyn" 7.14, 8.12, 8.14 ac 8.15.)

**Ystyr "ffilmio neu recordio'n ddirgel":**
Mae ffilmio neu recordio'n ddirgel yn cynnwys defnyddio lensys hir neu declynnau

recordio, yn ogystal â gadael camera neu declyn recordio heb neb i ofalu amdano ar eiddo preifat heb gael cydsyniad llawn a gwybodus y preswylwyr neu eu hasiant. Yn ogystal â hynny, gallai gynnwys recordio sgyrsiau ffôn yn ddiarwybod i’r parti arall, neu barhau i recordio’n fwriadol pan yw’r parti arall yn credu ei fod wedi gorffen.

8.14 Os cafwyd deunydd drwy ffilmio neu recordio’n ddirgel, ni ddylid ond ei ddarlledu os oes cyfiawnhad dros hynny.

(Gweler hefyd “arferion i’w dilyn” 7.14 ac 8.12 i 8.13 ac 8.15.)

8.15 Gellir cael cyfiawnhad dros ffilmio neu recordio’n ddirgel, ffilmio neu recordio’n ddirybudd neu alwadau ‘cynhyrfu’ wedi’u recordio er mwyn cael deunydd i ddibenion difyrrwch os yw’n rhan annatod o’r difyrrwch ac os nad yw’n golygu tresmasu sylweddol ar breifatrwydd i’r graddau ei fod yn achosi annifyrrwch, gofid neu embaras. Ni ddylid darlledu’r deunydd a gafwyd o ganlyniad heb gael cydsyniad y rheini sy’n gysylltiedig. Fodd bynnag, os na ellir adnabod yr unigolyn a/neu gorff yn y rhaglen, ni fydd angen cael cydsyniad i ddarlledu;

*(Gweler “arferion i’w dilyn” 7.14 ac 8.11 i 8.14.)*

## Dioddefaint a gofid

8.16 Ni ddylai darlledwyr ffilmio neu recordio neu ddarlledu deunydd gweledol neu glywedol o bobl sydd wedi’u dal mewn argyfwng, rhai sydd wedi bod mewn damwain neu’r rhai sy’n dioddef oherwydd trychineb personol, hyd yn oed mewn man cyhoeddus, os yw hynny’n arwain at dresmasu ar breifatrwydd, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny neu fod y bobl sy’n gysylltiedig wedi rhoi cydsyniad.

8.17 Ni ddylid pwyso ar bobl sydd mewn gofid i gymryd rhan mewn rhaglen neu roi cyfweliadau, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny.

8.18 Dylai darlledwyr ofalu na fyddant yn datgelu pwy yw rhywun sydd wedi marw neu wedi dioddef oherwydd damwain neu drosedd treisiol, oni bai a hyd nes ei bod yn amlwg bod y perthynas agosaf wedi’i hysbysu am y digwyddiad neu oni bai fod cyfiawnhad dros hynny.

8.19 Dylai darlledwyr geisio lleihau’r gofid posibl i ddioddefwyr a/neu berthnasau wrth wneud neu ddarlledu rhaglenni sydd â’r amcan o edrych ar ddigwyddiadau yn y gorffennol sy’n cynnwys trawma i unigolion (gan gynnwys troseddu) oni bai fod cyfiawnhad dros wneud fel arall. Mae hyn yn berthnasol i ail-greu dramatig a dramâu ffeithiol, yn ogystal â rhaglenni ffeithiol.

- Yn benodol, i’r graddau y mae hynny’n rhesymol ymarferol, dylid hysbysu dioddefwyr byw a/neu deuluoedd agos y rheini y mae eu profiad wedi’i gynnwys yn y rhaglen, am y cynlluniau ar gyfer y rhaglen a’r bwriad i’w darlledu, hyd yn oed os yw’r digwyddiadau neu’r deunydd sydd i’w ddarlledu wedi bod yn y parth cyhoeddus yn y gorffennol.

## Pobl dan un ar bymtheg oed a rhai sy’n agored i niwed

8.20 Dylai darlledwyr roi sylw penodol i breifatrwydd pobl sydd dan un ar bymtheg oed. Ni fyddant yn colli eu hawl i breifatrwydd oherwydd enwogrwydd neu enw drwg eu rhieni, er enghraifft, neu oherwydd digwyddiadau yn eu hysgolion.

8.21 Os bydd rhaglen yn cynnwys unigolyn dan un ar bymtheg oed neu rywun sy’n agored i niwed mewn modd sy’n tresmasu ar breifatrwydd, rhaid cael cydsyniad gan:

- riant, gwarcheidwad neu berson arall sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn yn lle rhiant; a
- lle bynnag y bo modd, yr unigolyn sydd dan sylw;
- oni bai fod y cynnwys yn ddibwys neu'n annadleuol a'r rhan a gymerir yn fach, neu fod cyfiawnhad dros fynd ymlaen heb gael cydsyniad.

8.22 Ni ddylid holi rhai dan un ar bymtheg oed a phobl sy'n agored i niwed am faterion preifat heb gael cydsyniad gan riant, gwarcheidwad neu berson arall sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn yn lle rhiant (yn achos rhai dan un ar bymtheg oed), neu gan berson sydd â'r prif gyfrifoldeb dros ei ofal (yn achos rhywun sy'n agored i niwed), oni bai fod cyfiawnhad dros fynd ymlaen heb gael cydsyniad.

**Ystyr "pobl sy'n agored i niwed":**
Mae hyn yn amrywio, ond gallai gynnwys y rheini sydd ag anawsterau dysgu, y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl, rhai mewn profedigaeth, rhai a gafodd anaf i'w hymennydd neu sydd â mathau o ddementia, pobl sydd wedi'u trawmateiddio, rhai sy'n wael eu hiechyd neu sydd â salwch terfynol.

# Adran Naw: Cyfeiriadau Masnachol mewn Rhaglenni Teledu

(Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 319(2)(fa), (i) a (j) a 319(4) (a), (c), (e) ac (f), adran 321(1) a (4) ac adran 324(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003; adran 202 o Ddeddf Darlledu 1990 (paragraff 3 yn Rhan 1 o Atodlen 2), Erthyglau 9, 10, 11, a Phennod VII (Erthyglau 19 i 26) o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol; rheoliad 3(4)(d) o Reoliadau Gwarchod y Defnyddiwr Rhag Masnachu Annheg 2008, adran 21(1) o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000; paragraff 3 o Ddeddf Rheoliadau Argymhellion Buddsoddi (Cyfryngau) 2005; Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol); a Siarter a Chytundeb y BBC.

Mae Cymal 49 Cytundeb y BBC yn darparu i wasanaethau'r BBC a ariannir gan ffi'r drwydded gael eu hariannu'n rhannol gan rai dulliau cyllido eraill. Gan fod yr adran hon yn berthnasol i wasanaethau darlledu'r BBC yn y DU a ariannir gan ffi'r drwydded a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad y BBC, rhaid i gynnwys o'r fath gydymffurfio â'r rheolau yn yr Adran hon.

Mae'r adran hon o'r cod yn rhoi sylw i'r holl raglenni teledu a rhaglenni clywedol ar Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC. Mae Adran Deg o'r Cod yn berthnasol i radio'n unig.[28] Mae gofynion deddfwriaethol amrywiol ar y cyfryngau. Felly, os defnyddir terminoleg debyg yn Adrannau Naw a Deg o'r Cod, nid oes iddi'r un ystyr o angenrheidrwydd. Dylai darlledwyr edrych ar yr ystyron penodol a nodir ym mhob adran.

Nodyn:

Mae'r adran hon o'r Cod yn cynnwys **cyfres o egwyddorion a rheolau cyffredinol**, eang sy'n berthnasol i **bob cyfeiriad masnachol ar** raglenni teledu. Mae hefyd yn cynnwys **rheolau penodol** ar gyfer gwahanol fathau o weithgarwch masnachol (e.e. gosod cynnyrch, deunydd cysylltiedig â rhaglenni, nawdd), boed yn cael ei wneud gan endidau masnachol neu anfasnachol, neu ar eu rhan.

Mae'r rheolau'n sicrhau bod egwyddorion annibyniaeth olygyddol; y gwahaniaeth rhwng hysbysebu a chynnwys golygyddol; tryloywder trefniadau masnachol; a gwarchod y defnyddwyr yn cael eu cynnal.

Ystyr "rhaglennu":

Pob cynnwys a ddarlledir, ac eithrio sbot-hysbysebu a thelesiopa. Mae rhaglenni, pytiau rhagflas, trawshyrwyddiadau a chydnabyddiaeth o nawdd i gyd yn ffurfiau ar raglennu.

Ystyr "cyfeirio masnachol":

Unrhyw gyfeiriad gweledol neu sain mewn rhaglen at gynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach (boed yn gysylltiedig ag endid masnachol neu anfasnachol).

Ystyr "nod masnach":

[28] Gan gynnwys cynnwys sain yn unig ar Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC.

Mae mewn perthynas â busnes yn cynnwys unrhyw ddelwedd (fel logo) neu sain a gysylltir yn gyffredin â'r busnes hwnnw, neu ei gynhyrchion neu ei wasanaethau.

## Egwyddorion

**Sicrhau bod darlledwyr yn cynnal annibyniaeth a rheolaeth olygyddol dros raglennu (annibyniaeth olygyddol).**

**Sicrhau bod gwahaniaeth rhwng cynnwys golygyddol a hysbysebu (gwahaniaeth).**

**Gwarchod cynulleidfaoedd rhag hysbysebu dirgel (tryloywder).**

**Sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu gwarchod rhag y risg o niwed ariannol (gwarchod y defnyddwyr).**

**Sicrhau bod nawdd anaddas yn cael ei atal (nawdd anaddas).**

## Rheolau

### Rheolau cyffredinol

Nodyn:
Mae Rheolau 9.1 i 9.5 yn berthnasol i bob cyfeiriad masnachol ar raglenni teledu. Maent yn adlewyrchu'r ffaith bod cynnwys cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu'n creu risg benodol i'r egwyddorion allweddol gael eu tanseilio, neu ymddangos felly.

9.1 Mae'n rhaid i ddarlledwyr gynnal annibyniaeth y rheolaeth olygyddol dros raglennu.

9.2 Mae'n rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod y cynnwys golygyddol yn wahanol i hysbysebu.

Nodyn:
Am ddiffiniad o "hysbysebu", gweler Cod Ofcom ar gyfer amserlennu hysbysebion teledu ("COSTA").

9.3 Gwaherddir hysbysebu dirgel.

Ystyr "hysbysebu dirgel":
Mae hysbysebu dirgel yn cynnwys cyfeiriad at gynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach ar raglen, lle mae cyfeiriad o'r fath wedi'i fwriadu gan y darlledwr i wasanaethu fel hysbyseb, heb i hyn gael ei egluro i'r gynulleidfa. Mae hysbysebu o'r fath yn debygol o gael ei ystyried yn fwriadol os yw'n digwydd am daliad neu am unrhyw ystyriaeth werthfawr arall i'r darlledwr neu'r cynhyrchydd.

9.4 Ni ddylid hyrwyddo cynhyrchion, gwasanaethau na nodau masnach ar raglenni.

Nodyn:

Am eithriadau penodol i’r rheol hon, gweler y rheolau ar wasanaethau cyfradd premiwm (Rheolau 9.26 i 9.30) a’r rheolau ar ddeunydd cysylltiedig â rhaglenni (Rheolau 9.31 a 9.32).

9.5 Ni cheir rhoi amlygrwydd gormodol ar unrhyw raglen i gynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach. Gellir cael amlygrwydd gormodol oherwydd:

- presenoldeb cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglenni, neu gyfeiriad atynt, heb gyfiawnhad golygyddol dros hynny; neu
- y modd y mae cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach yn ymddangos neu’r modd y cyfeirir atynt ar raglenni.

## Gosod cynnyrch (a gosod propiau)

Dylai darlledwyr nodi bod yr ystyron a nodir isod yn ddiffiniadau statudol a geir yn neddfwriaeth y DU (oni nodir yn wahanol, Deddf Cyfathrebiadau 2003, fel y’i diwygiwyd).

Ystyr “gosod cynnyrch”:
Cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen, neu gyfeirio atynt mewn rhaglen, a hynny at ddiben masnachol, ac yn gyfnewid am wneud unrhyw daliad, neu roi ystyriaeth werthfawr arall i unrhyw ddarparwr perthnasol neu unrhyw unigolyn cysylltiedig â darparwr perthnasol, a heb fod yn osod propiau.

Ystyr “gosod propiau”:
Cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen, neu gyfeirio atynt mewn rhaglen, lle nad oes i ddarparu’r cynnyrch, y gwasanaeth neu’r nod masnach unrhyw werth arwyddocaol a lle nad oes unrhyw ddarparwr perthnasol, nac unigolyn cysylltiedig â darparwr perthnasol, wedi derbyn unrhyw daliad neu ystyriaeth werthfawr arall mewn perthynas â’i gynnwys mewn rhaglen neu gyfeirio ato ar y rhaglen, gan ddiystyru'r costau a arbedwyd drwy gynnwys y cynnyrch, y gwasanaeth neu’r nod masnach ar y rhaglen, neu gyfeirio ato arni.

Bydd y weithred o osod propiau sy’n cynnwys cyflenwi cynhyrchion neu wasanaethau sydd o “werth arwyddocaol” yn cael ei thrin fel gosod cynnyrch ac mae’n rhaid iddi gydymffurfio â Rheolau 9.6 i 9.14.

Ystyr “gwerth arwyddocaol”:
Gwerth gweddilliol sy’n fwy na dibwys.

Ystyr “gwerth gweddilliol”:
Unrhyw werth ariannol neu economaidd arall sy’n nwylo’r darparwr perthnasol ar wahân i arbedion costau cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen, neu gyfeirio ato;

Ystyr “darparwr perthnasol”:

Darparwr y gwasanaeth rhaglenni teledu y mae'r rhaglen yn rhan ohono, neu gynhyrchydd y rhaglen.

Ystyr "unigolyn cysylltiedig":
Mae unigolyn cysylltiedig yn mabwysiadu'r un ystyr ag sydd ganddo yn adran 202 o Ddeddf Darlledu 1990 (paragraff 3 yn Rhan 1 o Atodlen 2). Atgynhyrchir y diffiniad llawn yn Atodiad 1 o'r Cod (Deddfwriaeth berthnasol y DU). I grynhoi, mae'r unigolion a ganlyn yn gysylltiedig ag unigolyn arbennig (mae 'unigolyn' yn cynnwys unigolyn yn ogystal â chorff corfforedig ac endidau cyfreithiol corfforedig ac anghorfforedig eraill):

(a) rhywun sy'n rheoli'r unigolyn hwnnw,
(b) cyswllt i'r unigolyn hwnnw neu'r unigolyn yn (a); a
(c) corff a reolir gan yr unigolyn hwnnw neu gyswllt i'r unigolyn hwnnw.

Mae rheolaeth a chyswllt yn mabwysiadu'r un ystyron ag a nodir ym mharagraff 1, Rhan 1, Atodlen 2 o Ddeddf 1990. Atgynhyrchir y diffiniad llawn yn Atodiad 1 o'r Cod (Deddfwriaeth berthnasol y DU).

Nodyn:

**Mae Rheolau 9.6 i 9.11 yn berthnasol i bob rhaglen**

9.6 Gwaherddir gosod cynnyrch ac eithrio yn y mathau a ganlyn o raglenni:

a) ffilmiau;
b) cyfresi a wneir ar gyfer y teledu (neu wasanaethau cyfryngau clywedol eraill);
c) rhaglenni chwaraeon; a
d) rhaglenni adloniant ysgafn.

Ystyr "ffilmiau":
Yn cynnwys ffilmiau a wneir ar gyfer y sinema a ffilmiau (yn cynnwys dramâu sengl a rhaglenni dogfen sengl) a wneir ar gyfer y teledu neu wasanaethau cyfryngau clywedol eraill.

Mae "Cyfresi a wneir ar gyfer y teledu (neu wasanaethau cyfryngau clywedol eraill) yn cynnwys dramâu cyfres.

9.7 Ni ddylai'r rhaglenni sy'n perthyn i'r genres a ganiateir gynnwys gosod cynnyrch os ydynt yn:

a) rhaglenni newyddion; neu
b) rhaglenni plant.

Ystyr "rhaglen blant":
Yn y cyd-destun hwn, mae rhaglen blant yn "rhaglen a wneir ar gyfer gwasanaeth rhaglenni teledu neu wasanaeth rhaglenni ar-alwad ac ar gyfer ei gwylio'n bennaf gan unigolion iau nag un ar bymtheg oed"

9.8 Ni ddylai gosod cynnyrch ddylanwadu ar gynnwys ac amserlennu rhaglen mewn modd sy'n amharu ar gyfrifoldeb ac annibyniaeth olygyddol y darlledwr.

Nodyn:
Mae’n rhaid wrth gyfiawnhad golygyddol digonol bob amser dros osod cynnyrch mewn rhaglenni. Yn arbennig, ni ddylid creu nac ystumio cynnwys golygyddol fel ei fod yn dod yn gyfrwng at ddiben rhoi sylw i gynhyrchion, gwasanaethau neu nodau masnach a osodir.

9.9 Wrth gyfeirio at osod cynhyrchion, gwasanaethau a nodau masnach, ni ddylid eu hyrwyddo.

9.10 Ni ddylai cyfeiriadau at gynhyrchion, gwasanaethau a nodau masnach a osodir fod yn rhy amlwg.

Nodyn:
Dylai darlledwyr edrych ar y cyfarwyddyd sy’n cyd-fynd ag Adran Naw o’r Cod am ragor o wybodaeth ynghylch sut i ddefnyddio Rheolau 9.9 a 9.10.

9.11 Gwaherddir gosod cynnyrch sy’n gynhyrchion, gwasanaethau neu nodau masnach fel a ganlyn:

a) os bydd yn cynnwys sigaréts neu gynnyrch tybaco arall;
b) gosod gan neu ar ran cwmnïau sy’n cynhyrchu neu’n gwerthu sigaréts neu gynnyrch tybaco arall fel eu prif weithgarwch;
c) meddyginiaeth a ragnodwyd; neu
d) sigaréts electronig neu gynhwysyddion ail-lenwi.

Ystyr “sigarét electronig”:
Mae sigarét electronig yn gynnyrch (i) y gellir ei ddefnyddio er mwyn cymryd anwedd sy'n cynnwys nicotin i mewn i'r corff drwy ddarn ceg, neu unrhyw ran o’r cynnyrch hwnnw, gan gynnwys cetrisen, tanc a’r ddyfais heb getrisen na thanc (p’un ai a yw’n gynnyrch sy'n cael ei waredu, ei ail-lenwi drwy ddefnyddio cynhwysydd ail-lenwi a thanc, neu ei ail-wefru gyda chetris a ddefnyddir unwaith yn unig), a (ii) cynnyrch nad yw’n gynnyrch meddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 nac yn ddyfais feddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002

Ystyr “cynhwysydd ail-lenwi”:
Mae cynhwysydd ail-lenwi (i) yn gynhwysydd sy’n cynnwys hylif a nicotin ynddo y gellir ei ddefnyddio i ail-lenwi sigarét electronig; a (ii) yn gynnyrch nad yw'n gynnyrch meddyginiaethol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 nac yn ddyfais feddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002.

**Yn ychwanegol at Reolau 9.6 i 9.11, mae Rheolau 9.12 i 9.13 hefyd yn berthnasol i osod cynnyrch a gynhwysir yn yr holl raglenni a gynhyrchir o dan awdurdodaeth y DU:**

Ystyr “rhaglenni a gynhyrchir o dan awdurdodaeth y DU”:
Ystyr “rhaglenni a gynhyrchir o dan awdurdodaeth y DU” yw unrhyw raglen a gynhyrchir neu a gomisiynir gan naill ai:

a) darparwr y gwasanaeth rhaglenni teledu neu unrhyw unigolyn cysylltiedig â'r darparwr hwnnw (ac eithrio yn achos ffilm a wneir ar gyfer y sinema); neu

b) unrhyw unigolyn arall gyda'r bwriad o'i dangos am y tro cyntaf fel rhan o wasanaeth rhaglenni teledu sydd o dan awdurdodaeth y Deyrnas Unedig (at ddibenion y Gyfarwyddeb System Neges Llais Awtomatig).

9.12 Ni chaniateir gosod cynnyrch yn y canlynol:

a) rhaglenni crefyddol;
b) rhaglenni cyngor i ddefnyddwyr; neu
c) rhaglenni materion cyfoes.

Ystyr "rhaglen materion cyfoes":
Mae rhaglen materion cyfoes yn un sy'n cynnwys eglurhad a/neu ddadansoddiad o ddigwyddiadau a materion cyfoes, gan gynnwys deunydd sy'n ymdrin â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol neu â pholisi cyhoeddus cyfredol.

9.13 Ni chaniateir gosod cynnyrch fel a ganlyn:

a) diodydd meddwol;
b) bwyd neu ddiod sy'n cynnwys llawer o fraster, halen neu siwgr;
c) gamblo;
d) llaeth fformiwla (llaeth babanod), yn cynnwys llaeth fformiwla dilynol;
e) pob cynnyrch meddyginiaethol;
f) tanwyr sigaréts, papurau sigarét neu getyn y bwriedir ei ysmygu; neu
g) unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach na chaniateir ei hysbysebu ar y teledu.

Nodyn:
Diffinnir cynhyrchion bwyd a diod sy'n cynnwys llawer o fraster, halen neu siwgr gan y cynllun proffilio maethynnau a ddyfeisiwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd y DU ar gyfer ei ddefnyddio gan Ofcom. Mae hwn ar gael yn:
http://food.gov.uk/healthiereating/advertisingtochildren/nutlab/nutprofmod

**Yn ychwanegol at Reolau 9.6 i 9.13, mae Rheol 9.14 hefyd yn berthnasol i raglenni (yn cynnwys ffilmiau a wneir ar gyfer y sinema) a gynhyrchir neu a gomisiynir gan ddarparwr gwasanaeth rhaglenni teledu neu unrhyw unigolyn cysylltiedig â'r darparwr hwnnw:**

9.14 Mae'n rhaid tynnu sylw clir at osod cynnyrch, drwy gyfrwng logo niwtral cyffredinol, fel a ganlyn:

a) ar ddechrau'r rhaglen y mae'r gosod yn digwydd ynddi;
b) pan mae'r rhaglen yn ailgychwyn wedi egwyliau masnachol; ac
c) ar ddiwedd y rhaglen.

Nodyn:
Diffinnir y logo niwtral cyffredinol gan y meini prawf sy'n cael eu datgan yn Atodiad 1 i'r cyfarwyddyd sy'n cyd-fynd ag Adran Naw o'r Cod.

Rhaglenni a brynir a rhybuddio:
Pan fydd darlledwr yn prynu rhaglen sy'n cynnwys gosod cynnyrch (h.y. y darlledwr heb gynhyrchu na chomisiynu'r rhaglen a'r rhaglen heb ei chynhyrchu na'i chomisiynu gan unigolyn cysylltiedig), nid oes angen unrhyw rybudd. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhaid i bob rhaglen o'r fath gydymffurfio ag unrhyw reolau perthnasol eraill yn y Cod.

Os bydd darlledwr yn prynu rhaglen gan drydydd parti ar yr amod bod y gosod cynnyrch yn y rhaglen yn cael ei ddarlledu (yn dibynnu ar gydymffurfio â rheolau perthnasol), dylid nodi gofynion Rheol 9.3 (hysbysebu dirgel). O dan amgylchiadau o'r fath, mae Ofcom yn disgwyl i ddarlledwyr sicrhau bod y cynulleidfaoedd yn ymwybodol bod y rhaglen yn cynnwys gosod cynnyrch.

## Nawdd

Ystyr "rhaglennu a noddir":
Ystyr rhaglennu a noddir (a all gynnwys rhaglen, sianel, darn o raglen neu floc o raglenni) yw rhaglennu y mae peth o'r costau wedi'u talu gan noddwr, neu'r holl gostau. Mae'n cynnwys rhaglenni a ariennir gan hysbysebwyr.

Ystyr "noddwr":
Unrhyw gwmni cyhoeddus neu breifat neu unigolyn (ar wahân i ddarlledwr neu gynhyrchydd rhaglenni) sy'n ariannu'r rhaglenni gyda'r bwriad o hyrwyddo ei gynhyrchion, ei wasanaethau, ei nodau masnach a/neu ei weithgareddau.

Ystyr "costau":
Unrhyw ran o'r costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu neu ddarlledu'r rhaglenni.

Nodyn:
1) Mae'r rheolau'n ceisio sicrhau bod yr annibyniaeth olygyddol yn cael ei gwarchod a bod gwahaniaeth yn cael ei gynnal rhwng golygyddol a hysbysebu. Maent hefyd yn ceisio gwarchod rhag nawdd anaddas a sicrhau bod trefniadau nawdd yn cadw at yr egwyddor o dryloywder.

2) Ac eithrio'r gydnabyddiaeth o nawdd, bydd unrhyw gyfeiriad at noddwr, ei gynnyrch, ei wasanaethau neu ei nodau masnach, mewn rhaglen a noddir o ganlyniad i drefniant masnachol gyda'r darlledwr, gwneuthurwr y rhaglen neu unigolyn cysylltiedig yn cael ei drin fel gosod cynnyrch ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â Rheolau 9.6 i 9.14.

### Cynnwys na cheir ei noddi

9.15 Ni ddylid noddi rhaglenni newyddion a materion cyfoes.

> Ystyr "rhaglen materion cyfoes":
> Gweler yr ystyr o dan Reol 9.12.

**Noddwyr gwaharddedig a rhai dan gyfyngiad**

9.16 Ni chaiff unrhyw raglenni (yn cynnwys sianel) dderbyn nawdd gan unrhyw noddwr sydd wedi'i wahardd rhag hysbysebu ar y teledu. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i sigaréts electronig a chynwysyddion ail-lenwi sy'n ddarostyngedig i Reol 9.16(a).

a) Gwaherddir rhaglennu a noddir sydd â'r nod neu'r effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol o hyrwyddo sigaréts electronig a/neu gynwysyddion ail-lenwi.

(Gweler ystyr "sigarét electronig" a "cynhwysydd ail-lenwi" dan Reol 9.11 uchod.)

9.17 Rhaid i nawdd gydymffurfio â'r rheolau cynnwys ac amserlennu sy'n berthnasol i hysbysebu ar y teledu.

**Cynnwys darllediadau noddedig**

9.18 Ni ddylai noddwr ddylanwadu ar gynnwys a/neu amserlennu sianel neu raglen mewn modd sy'n amharu ar gyfrifoldeb ac annibyniaeth olygyddol y darlledwr.

> Nodyn:
> Dylid darllen y rheol hon ar y cyd â Rheolau 9.1 i 9.5.
>
> Ni ddylai'r trefniadau nawdd arwain at greu nac ystumio'r cynnwys golygyddol fel ei fod yn dod yn gyfrwng at ddiben hyrwyddo'r noddwr neu ei fuddiannau.
>
> Ceir amgylchiadau cyfyngedig lle gellir cyfeirio at noddwr (neu ei gynhyrchion, ei wasanaethau neu ei nodau masnach) yn ystod rhaglen y mae'n ei noddi o ganlyniad i drefniant masnachol gyda'r darlledwr neu wneuthurwr y rhaglen. Er enghraifft, yn achos trefniant gosod cynnyrch (gweler Rheolau 9.6 i 9.14) neu pan gaiff y trefniant nawdd ei ddatgan (gweler Rheolau 9.19 i 9.25).
>
> Mae'n rhaid i gyfeiriad at noddwr (neu ei gynnyrch, ei wasanaethau neu ei nodau masnach) mewn rhaglen nad yw'n ganlyniad i drefniant masnachol gyda'r darlledwr, gwneuthurwr y rhaglen neu unigolyn cysylltiedig gydymffurfio â Rheolau 9.1 i 9.5.

**Credydau nawdd**

9.19 Mae'n rhaid i nawdd gael ei ddatgan yn glir drwy gyfrwng cydnabyddiaeth o'r nawdd. Mae'n rhaid i'r gydnabyddiaeth ddatgan yn glir:

a) pwy yw'r noddwr drwy gyfeirio at ei enw neu ei nod masnach; ac
b) y berthynas rhwng y noddwr a'r cynnwys a noddir.

9.20 Yn achos rhaglenni a noddir, rhaid darlledu’r gydnabyddiaeth ar ddechrau a/neu yn ystod a/neu ar ddiwedd y rhaglen.

Nodyn:
Hefyd gellir darlledu’r gydnabyddiaeth wrth dorri am egwyliau masnachol a/neu eu gadael yn ystod y rhaglen a noddir.

Ar gyfer unrhyw gynnwys arall a noddir (e.e. sianelau), dylid darlledu'r gydnabyddiaeth o'r nawdd ar adegau priodol yn ystod yr amserlen, er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn deall bod y cynnwys wedi’i noddi.

9.21 Mae’n rhaid i’r gydnabyddiaeth o nawdd fod yn gwbl wahanol i’r cynnwys golygyddol.

9.22 Mae’n rhaid i’r gydnabyddiaeth o nawdd fod yn gwbl wahanol i’r hysbysebu. Yn benodol:

a) Ni ddylai unrhyw gydnabyddiaeth o nawdd o amgylch rhaglenni a noddir gynnwys negeseuon hysbysebu neu alw i weithredu. Yn benodol, ni ddylai unrhyw gydnabyddiaeth annog rhywun i brynu neu rentu cynhyrchion neu wasanaethau’r noddwr neu drydydd parti. Mae’n rhaid i ffocws y gydnabyddiaeth fod ar y trefniant noddi ei hun. Gall cydnabyddiaeth o’r fath gynnwys cyfeiriad penodol at gynhyrchion, gwasanaethau neu nodau masnach y noddwr at ddibenion helpu i ddatgan pwy yw’r noddwr a/neu’r trefniant nawdd yn unig.

b) Ni ddylai cydnabyddiaeth o nawdd a ddarlledir yn ystod rhaglenni fod yn rhy amlwg. Mae’n rhaid i gydnabyddiaeth o’r fath gynnwys datganiad gweledol neu lafar cryno a niwtral yn datgan y trefniant nawdd. Dim ond graffig o enw, logo neu symbol nodedig arall y noddwr a ellir ei gynnwys gyda hyn. Mae’n rhaid i gynnwys y graffig fod yn statig ac ni ddylai gynnwys unrhyw negeseuon hysbysebu, galwadau i weithredu nac unrhyw wybodaeth arall am y noddwr, ei gynhyrchion, ei wasanaethau neu ei nodau masnach.

9.23 Os yw noddwr wedi’i wahardd o osod cynnyrch yn y rhaglen y mae’n ei noddi, ni chaniateir dangos cydnabyddiaeth o’r nawdd yn ystod y rhaglen a noddir.

9.24 Os oes cydnabyddiaeth o nawdd wedi’i chynnwys mewn rhagflas o raglen, mae’n rhaid i’r gydnabyddiaeth fod yn fyr ac yn eilaidd.

9.25 Caniateir noddi deunydd cysylltiedig â rhaglenni a gellir cydnabod y noddwr pan ddangosir manylion am y dull o sicrhau’r deunydd. Rhaid i unrhyw gredyd fod yn fyr ac yn eilaidd, a rhaid iddo fod ar wahân i unrhyw gredyd i noddwr y rhaglen.

## Defnyddio Gwasanaethau Cyfradd Premiwm a Reolir

Nodyn:
Mae Gwasanaethau Cyfradd Premiwm a Reolir yn is-set o Wasanaethau Cyfradd Premiwm sy'n cael eu rheoleiddio gan PhonepayPlus. Dylai'r trwyddedeion edrych ar y cyfarwyddyd am ragor o fanylion am y termau a ddefnyddir yn yr adran hon.

9.26 Pan fydd darlledwr yn gwahodd gwylwyr i gymryd rhan yn ei raglenni neu gyfrannu fel arall at ei raglenni, dim ond drwy gyfrwng gwasanaethau ffôn ar y gyfradd premiwm a reolir neu wasanaethau teleffoni eraill lle rhennir y refeniw a gynhyrchir rhwng y partïon perthnasol y gall godi am gyfranogiad neu gysylltiad o'r fath.

9.27 Fel arfer ystyrir bod gwasanaethau teleffoni cyfradd premiwm a reolir yn gynhyrchion neu'n wasanaethau, ac felly rhaid iddynt beidio ag ymddangos mewn rhaglenni, ac eithrio:

a) lle maent yn galluogi gwylwyr i gyfrannu'n uniongyrchol at y rhaglen neu fel arall gyfrannu'n uniongyrchol at gynnwys golygyddol y rhaglen; neu
b) lle maent yn dod o fewn cwmpas ystyr deunydd sy'n gysylltiedig â rhaglen.

Nodyn:
Mae pob un o'r eithriadau uchod yn rhwym wrth y rheol amlygrwydd gormodol.

9.28 Pan geir gwasanaeth teleffoni cyfradd premiwm a reolir mewn rhaglen, mae'n rhaid iddi fod yn amlwg mai golygyddol yw prif bwrpas y rhaglen o hyd. Mae'n rhaid dangos yn glir bod hyrwyddo'r gwasanaeth dan sylw'n eilaidd i'r prif bwrpas hwnnw.

9.29 Rhaid i unrhyw ddefnydd o rifau ffôn cyfradd premiwm a reolir fod yn unol â'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan PhonepayPlus.

## Costau galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol

9.30 Mae'n rhaid datgan y gost i wylwyr am ddefnyddio gwasanaethau teleffoni heb fod yn rhai daearyddol yn glir, a'i darlledu fel y bo'n briodol.

Nodyn:
Rhifau ffôn nad ydynt yn gysylltiedig â lleoliad penodol yw gwasanaethau teleffoni nad ydynt yn rhai daearyddol. Dylai'r trwyddedeion edrych ar y cyfarwyddyd am ragor o fanylion am y defnydd o'r rheol hon, yn ogystal â chyfarwyddyd y rheolau cysylltiedig perthnasol (gweler yn arbennig y cyfarwyddyd perthnasol i Reolau 2.13 i 2.16).

## Deunydd cysylltiedig â rhaglenni

Ystyr "deunydd sy'n gysylltiedig â rhaglen":
Mae deunydd sy'n gysylltiedig â rhaglenni'n cynnwys cynhyrchion neu wasanaethau sy'n deillio'n uniongyrchol
o raglen ac sydd wedi'u bwriadu'n benodol fel bod gwylwyr yn elwa'n llawn o neu'n cyfrannu at
y rhaglen honno.

Nodiadau:

1) Gall darlledwyr gyfeirio at argaeledd deunydd cysylltiedig â rhaglenni heb i gyfeiriadau o'r fath gyfrif tuag at faint o hysbysebu y caniateir iddynt ei ddarlledu (fel y manylir yng Nghod Ofcom mewn perthynas ag amserlennu hysbysebion ar y teledu ("COSTA")). Mae'r rheolau a ganlyn yn cefnogi'r egwyddor allweddol o annibyniaeth olygyddol drwy sicrhau bod cyfeiriadau at ddeunydd cysylltiedig â rhaglenni'n cael eu gwneud am resymau golygyddol yn bennaf, ac nid rhesymau hysbysebu.

2) Gall deunydd cysylltiedig â rhaglenni gael ei noddi (gweler Rheol 9.25).

9.31 Dim ond yn ystod neu o amgylch y rhaglen y mae'n deillio'n uniongyrchol ohoni y gellir hyrwyddo deunydd cysylltiedig â rhaglenni, a dim ond os oes modd cyfiawnhau hynny'n olygyddol.

Nodyn:
Dylai darlledwyr edrych ar y diffiniad statudol o osod cynnyrch (gweler yr ystyron a'r rheolau cyn Rheol 9.6). Lle gall cynnwys cyfeiriadau at ddeunydd cysylltiedig â rhaglenni yn ystod rhaglenni fodloni'r diffiniad o osod cynnyrch, dylid sicrhau gwahaniaeth clir rhwng hyrwyddo o'r fath a chynnwys golygyddol, er mwyn osgoi codi materion o dan Reol 9.9.

Yn yr un modd, os yw deunydd cysylltiedig â rhaglenni'n cynnwys hyrwyddo argaeledd cynhyrchion neu wasanaethau ymhlith y gynulleidfa, yn gyfnewid am daliad, mae'n bosibl y bydd hyn yn bodloni'r diffiniad o hysbysebu ar y teledu (gweler COSTA). Felly, dylid sicrhau gwahaniaeth clir rhwng hyrwyddo o'r fath a chynnwys golygyddol (gweler Rheol 9.2).

9.32 Mae'n rhaid i'r darlledwr fod yn gyfrifol o hyd am sicrhau priodolrwydd y gwaith o hyrwyddo deunydd cysylltiedig â rhaglenni.

## Trawshyrwyddiadau

Nodyn:
Mae trawshyrwyddo rhaglenni, sianelau a gwasanaethau eraill cysylltiedig â darlledu'n cael sylw mewn rheolau penodol sydd i'w canfod yn y Cod Trawshyrwyddo. Mae hwn ynghlwm fel Rhan Dau o'r Cod Darlledu.

Dylai darlledwyr nodi y dylai trawshyrwyddiadau gydymffurfio hefyd â'r holl ofynion perthnasol yn y Cod Darlledu ac, yn arbennig, Rheolau 9.1 i 9.5.

## Apeliadau gan elusennau

Nodyn:
Caniateir apeliadau elusennol mewn rhaglenni dim ond os ydynt yn cael eu darlledu'n rhad ac am ddim.

Mae'r rheolau a ganlyn yn cydnabod bod elusennau'n wahanol i endidau masnachol pur ond ceir risg o hyd y bydd y gynulleidfa'n dioddef o niwed ariannol o ganlyniad i apeliadau o'r fath (gwarchod y defnyddwyr). Ar ben hynny, mae llawer o elusennau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd ac mae'r rheolau felly'n ceisio sicrhau bod apeliadau gan elusennau o fudd i amrywiaeth o elusennau. Lle bo hynny'n briodol, mae'n rhaid i ddarlledwyr roi sylw arbennig hefyd i Adran Pump o'r Cod (Didueddrwydd Priodol).

9.33 Caniateir apeliadau gan elusennau a ddarlledir am ddim mewn rhaglenni ar yr amod bod y darlledwr wedi cymryd camau rhesymol i'w fodloni ei hun:

a) bod y corff dan sylw'n gallu dangos tystiolaeth foddhaol o statws elusennol neu, yn achos apêl mewn argyfwng, fod cronfa gyhoeddus gyfrifol wedi'i sefydlu i ddelio ag ef; ac
b) nad yw'r corff dan sylw wedi'i wahardd rhag hysbysebu ar y teledu.

9.34 Os oes modd, dylai'r darlledu ar apeliadau gan elusennau, un ai'n unigol neu o'u cymryd gyda'i gilydd dros amser, fod o fudd i ystod eang o elusennau.

## Hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion ar fuddsoddi

Ystyr "hyrwyddiad ariannol":
Mae hyrwyddiad ariannol yn golygu gwahoddiad neu anogaeth i ymwneud â gweithgarwch buddsoddi (yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Cyfyngiadau ar hyrwyddo ariannol).

Ystyr "argymhelliad ar fuddsoddi":
Mae argymhelliad yng nghyswllt buddsoddi'n digwydd pan fydd rhywun yn argymell penderfyniad buddsoddi penodol yn uniongyrchol, er enghraifft, prynu neu werthu cyfranddaliadau penodol neu warantu cynnig cyfranddaliadau penodol.

Sylwer:
Mae'r rheolau sy'n berthnasol i hyrwyddiadau ac argymhellion o'r fath yn adlewyrchu'r risg benodol y gallai cyfeiriadau o'r fath arwain at niwed ariannol i'r gynulleidfa (gwarchod y defnyddwyr), a'r angen o ganlyniad am gynnal a gwarchod annibyniaeth olygyddol a thryloywder.

9.35 Wrth ddarlledu hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion ar fuddsoddi, rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r darpariaethau perthnasol yn Atodiad 4 i'r Cod hwn.

## Apelio am gyllid ar gyfer rhaglenni neu wasanaethau

Nodyn:

Yn ystod rhaglenni, caiff darlledwyr ddarlledu apeliadau am roddion i wneud cynnwys golygyddol neu i ariannu eu gwasanaeth.

Mae Rheolau 9.36 i 9.39 yn adlewyrchu’r potensial am niwed ariannol pan mae darlledwyr yn apelio am arian gan wylwyr (gwarchod y defnyddwyr) ac yn sicrhau annibyniaeth olygyddol, tryloywder, a chynnal y gwahaniaeth rhwng hysbysebu a chynnwys golygyddol.

9.36 Rhaid dweud wrth y gwrandawyr beth yw pwrpas yr apêl a faint mae wedi’i godi.

9.37 Rhaid rhoi cyfrif ar wahân o’r holl roddion a’u defnyddio i’r diben y’u rhoddwyd ar ei gyfer.

9.38 Ni ddylai darlledwyr gynnig unrhyw fanteision ychwanegol nac unrhyw gymhelliant arall i gyfranwyr.

9.39 Ni ddylai apeliadau am gyllid ar gyfer rhaglenni neu wasanaethau gael amlygrwydd gormodol mewn perthynas ag allbwn cyffredinol y gwasanaeth.

# Adran Deg: Cyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Radio

(Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 319(2)(f), (i) a (j), 319(4)(e) ac (f) a 321 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rheoliad 3(4)(d) o Reoliadau Amddiffyn y Defnyddiwr Rhag Masnachu Annheg 2008, adran 21(1) o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000, paragraff 3 o Ddeddf Rheoliadau Argymhellion Buddsoddi (Cyfryngau) 2005, Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol), a Siarter a Chytundeb y BBC.

Mae Cymal 49 Cytundeb y BBC yn darparu i wasanaethau'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded gael eu hariannu'n rhannol gan rai dulliau cyllido eraill. Gan fod yr adran hon yn berthnasol i wasanaethau darlledu'r BBC yn y DU a ariennir gan ffi'r drwydded a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad y BBC, rhaid i gynnwys o'r fath gydymffurfio â'r rheolau yn yr Adran hon.

Mae'r adran hon o'r Cod yn berthnasol i radio yn unig (gan gynnwys rhaglenni sain yn unig ar Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC).

Mae Adran Naw y Cod (Cyfeiriadau Masnachol mewn Rhaglenni Teledu) yn berthnasol i deledu yn unig.[29] Radio and television are subject to different legislative requirements and terminology is therefore specific to radio in this Code section.

## Egwyddor

**Sicrhau tryloywder cyfathrebiadau masnachol fel ffordd o sicrhau diogelwch defnyddwyr.**

## Rheolau

### Rheolau Cyffredinol

10.1 Os yw rhaglen yn destun trefniant masnachol, neu'n gysylltiedig â threfniant masnachol, rhaid dwyn sylw at hynny mewn modd priodol, er mwyn sicrhau bod y trefniant masnachol yn amlwg i'r gwrandawyr.

10.2 Rhaid gwahanu hysbysebion sbot yn glir oddi wrth raglenni.

10.3 Ni chaniateir dim cyfeiriad masnachol, na deunydd sy'n awgrymu trefniant masnachol, mewn, neu'n union cyn ac ar ôl bwletinau newyddion neu gyflwyniadau gan y ddesg newyddion.

Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i:

- gyfeiriad at gyflenwr newyddion er mwyn nodi bod y cyflenwr hwnnw'n ffynhonnell newyddion;

[29] Gan gynnwys rhaglenni clywedol ar Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC.

- meysydd ffeithiol arbenigol nad ydynt yn fwletinau newyddion nac yn gyflwyniadau gan y ddesg newyddion, ond a all gael eu cynnwys mewn rhaglenni o’r fath, neu’n union cyn neu ar eu hôl;
- defnyddio gwasanaethau cyfradd premiwm (e.e. ar gyfer arolygon darlledwyr/gorsafoedd); a
- cyfeiriadau sy’n hyrwyddo cynhyrchion a/neu wasanaethau’r darlledwr a/neu’r orsaf ei hun (e.e. gwefan y rhaglen/darlledwr/gorsaf neu ddigwyddiad gan y darlledwr/gorsaf).

10.4 Ni chaniateir dim cyfeiriad masnachol na deunydd sy’n awgrymu trefniant masnachol mewn gwasanaethau radio sydd wedi’u hanelu’n bennaf at blant neu mewn rhaglenni plant sy’n cael eu cynnwys mewn unrhyw wasanaeth.

Nid yw’r rheol hon yn berthnasol i:

- gredydau ar gyfer cysylltiad trydydd parti â rhoi gwobr mewn cystadleuaeth mewn darllediad neu raglen;
- defnyddio gwasanaethau cyfradd premiwm (e.e. ar gyfer cystadlu mewn cystadleuaeth a ddarlledir); a
- cyfeiriadau sy’n hyrwyddo cynhyrchion a/neu wasanaethau’r darlledwr a/neu’r orsaf ei hun (e.e. gwefan y rhaglen/darlledwr/gorsaf neu ddigwyddiad gan y darlledwr/gorsaf).

10.5 Ni chaiff unrhyw drefniant masnachol sy’n cynnwys taliad, neu ddarparu rhyw gydnabyddiaeth werthfawr arall, i’r darlledwr ddylanwadu ar ddethol neu gylchdroi cerddoriaeth ar gyfer ei darlledu.

10.6 Ni chaiff rhaglen fod yn gysylltiedig â threfniant masnachol gyda thrydydd parti sydd wedi’i wahardd rhag hysbysebu ar y radio. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i sigaréts electronig a chynwysyddion ail-lenwi sy'n ddarostyngedig i Reol 10.6(a).

10.6(a) Gwaherddir rhaglennu a noddir sydd â’r nod neu'r effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol o hyrwyddo sigaréts electronig a/neu gynwysyddion ail-lenwi.

10.7 Rhaid i gyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni gydymffurfio â’r rheolau sy’n ymwneud ag amserlennu a chynnwys hysbysebion sy’n berthnasol i ddarlledu ar y radio.

10.8 Rhaid i gyfeiriadau masnachol y mae’n rhaid eu cadarnhau neu eu cyfiawnhau cyn eu darlledu gael eu clirio ar gyfer eu darlledu yn yr un modd â hysbysebion.

**Rhaglennu**
Mae rhaglenni'n cynnwys yr holl ddeunydd a ddarlledir ar wahân i hysbysebion sbot.

**Hysbysebion sbot**
Hysbysebion sbot yw'r hysbysebion a ddarlledir yn ystod egwyliau masnachol.

**Trefniant masnachol**
Contract, neu unrhyw ddealltwriaeth ffurfiol arall, yw trefniant masnachol rhwng darlledwr (neu unrhyw asiant neu gyflogai i'r darlledwr), a thrydydd parti (neu drydydd partïon).

Mae nawdd i raglen, rhoi gwobr ar gyfer cystadleuaeth a darparu gwasanaeth cyfradd premiwm yn enghreifftiau o drefniant masnachol. Felly, yn gyffredinol, bydd rhaglen sy'n rhwym wrth drefniant masnachol yn cynnwys taliad a/neu ryw gydnabyddiaeth werthfawr arall yn gyfnewid am gyfeiriad masnachol (pa un a yw'n hyrwyddol neu beidio).

**Cyfeiriadau masnachol**
At ddibenion yr adran hon o'r Cod, cyfeiriad mewn rhaglen at frand, nod masnach, gynnyrch a/neu wasanaeth yw cyfeiriad masnachol:

- sy'n destun trefniant masnachol; neu
- sy'n hyrwyddo cynnyrch neu wasanaethau'r darlledwr/gorsaf ei hun.

**Ystyr "noddwr" (gweler Rheol 10.6(a))**
Mae "noddwr" yn golygu unrhyw gwmni cyhoeddus neu breifat neu unigolyn (ar wahân i ddarlledwr neu gynhyrchydd rhaglenni) sy'n cyfrannu at y costau rhaglennu gyda'r bwriad o hyrwyddo ei enw, ei ddelwedd, ei gynnyrch, ei wasanaethau, ei nodau masnach neu ei weithgareddau.

**Ystyr "rhaglennu a noddir" (gweler Rheol 10.6(a))**
Ystyr "rhaglennu a noddir" (a all gynnwys rhaglen, sianel, darn o raglen neu floc o raglenni) yw rhaglennu y mae peth o'r costau, neu'r holl gostau, wedi'u talu gan noddwr. Mae'n cynnwys rhaglenni a ariennir gan hysbysebwyr.

**Ystyr "sigarét electronig" (gweler Rheolau 10.6 a 10.6(a))**
Cynnyrch (i) y gellir ei ddefnyddio er mwyn cymryd anwedd sy'n cynnwys nicotin i mewn i'r corff drwy ddarn ceg, neu unrhyw ran o'r cynnyrch hwnnw, gan gynnwys cetrisen, tanc a'r ddyfais heb getrisen na thanc (p'un ai a yw'n gynnyrch sy'n cael ei waredu, ei ail-lenwi drwy ddefnyddio cynhwysydd ail-lenwi a thanc, neu ei ail-wefru gyda chetris a ddefnyddir unwaith yn unig), ond (ii) cynnyrch nad yw'n gynnyrch meddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 nac yn ddyfais feddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002

**Ystyr "cynhwysydd ail-lenwi" (gweler Rheolau 10.6 a 10.6(a))**
Cynhwysydd (i) sy'n cynnwys hylif a nicotin ynddo y gellir ei ddefnyddio i ail-lenwi sigarét electronig; ond (ii) nad yw'n gynnyrch meddyginiaethol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 nac yn ddyfais feddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002.

**Tryloywder**
Dylai’r gwrandawyr wybod pan fydd deunydd yn cael ei ddarlledu yn gyfnewid am dâl neu gydnabyddiaeth werthfawr arall. Er mwyn sicrhau tryloywder rhoddir sylw i’r ffaith bod hyn yn digwydd.

Dylid sicrhau bod trefniant masnachol yn dryloyw drwy ddwyn sylw mewn modd priodol at frand, nod masnach, gynnyrch a/neu wasanaeth trydydd parti (neu drydydd partïon) sydd wedi talu i gael sylw mewn darllediad – drwy, er enghraifft: gan gynnwys credyd nawdd; cyfeiriad at roddwr gwobr; hyrwyddo rhif cyfradd premiwm ar gyfer cael gwrandawyr i gyfrannu at raglenni.

**Dwyn sylw at drefniant masnachol (Signalling)**
Ar adegau priodol, mae’n rhaid i ddarlledwyr roi gwybodaeth glir mewn rhaglenni i hysbysu'r gwrandawyr am unrhyw drefniant masnachol sy'n effeithio ar y rhaglenni hynny.

Felly mae’n rhaid dwyn sylw at hyn mewn modd priodol er mwyn cydymffurfio â Rheol 10.1. Mae pedair agwedd i'w hystyried wrth asesu sut y dylid dwyn sylw at hyn, er mwyn sicrhau cydymffurfiad:

- Geiriad – rhaid i’r geiriad fod yn glir i sicrhau bod y trefniant masnachol yn amlwg yn syth;
- Safle – er mwyn i’r trefniant masnachol fod yn dryloyw, yn gyffredinol rhaid dwyn sylw at y trefniant ar ddechrau pob enghraifft o ddeunydd sy’n cael ei ddarlledu y mae’r trefniant yn berthnasol iddo;
- Amlder – efallai y bydd yn rhaid dwyn sylw at y trefniant ar adegau priodol os bydd y cynnyrch sy'n destun y trefniant masnachol yn hirach na’r arferol;
- Enwi (y trydydd parti) - er mwyn i’r trefniant masnachol fod yn dryloyw rhaid nodi teitl perthnasol y trydydd parti ar yr awyr.

Dylai darlledwyr sicrhau bod deunydd a ddarlledir sy’n ymddangos naill ai fel petai’n ymgyrch gan orsaf neu’n darparu asesiad annibynnol o gynnyrch/gwasanaethau yn wirioneddol annibynnol a heb fod yn destun trefniant masnachol. Felly wrth ddwyn sylw at gyfeiriadau masnachol mewn, er enghraifft, rhaglenni materion defnyddwyr neu gyngor i ddefnyddwyr, mae’n rhaid bod yn ofalus iawn, gan ei bod yn hollbwysig nad yw’n cael ei ragdybio bod darlledu hyrwyddiadau y telir amdanynt o nwyddau a gwasanaethau yn sylw/datganiad annibynnol.

**Meysydd ffeithiol arbenigol**
Gallai meysydd ffeithiol arbenigol mewn bwletinau newyddion neu gyflwyniadau gan y ddesg newyddion, neu yn syth cyn ac ar eu hôl, gynnwys, er enghraifft, teithio, chwaraeon, cyllid a’r tywydd.

**Rhaglenni ffeithiol, gan gynnwys materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy’n destun dadlau a materion sy’n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol**

Dylai darlledwyr gofio bod yn rhaid i bob rhaglen gydymffurfio ag Adran Pump o'r Cod. Mae cyfeiriadau masnachol a ddarlledir o dan drefniant o'r fath hefyd yn rhwym wrth Adran 7 o God Hysbysebu ym maes Darlledu'r Pwyllgor Darlledu ar Arferion Hysbysebu. Yn ogystal, atgoffir darlledwyr bod Rheol 2.2 yn berthnasol i **bob** rhaglen ffeithiol (h.y. rhaid i eitemau ffeithiol beidio â chamarwain y gynulleidfa'n sylweddol).

**Cyfeiriadau masnachol y mae'n rhaid eu cadarnhau neu eu cyfiawnhau**
Dyma enghreifftiau, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: hawliadau ffeithiol cymhleth (gan gynnwys y rheini y mae modd eu cadarnhau'n wrthrychol); hawliadau arwain y farchnad; prisiau cynigion arbennig; cymariaethau â chystadleuwyr; hawliadau rhagoriaeth; hawliadau a chynigion sy'n cynnwys cyfyngiadau ac eithriadau sylweddol; hawliadau "am ddim"; tystebau; ardystiadau; a hawliadau a all fod o ddiddordeb penodol i blant.

### Gwasanaethau Cyfradd Premiwm a reolir a gwasanaethau tebyg

<u>Nodyn:</u>
Mae Gwasanaethau Cyfradd Premiwm a Reolir yn is-set o Wasanaethau Cyfradd Premiwm sy'n cael eu rheoleiddio gan PhonepayPlus. Dylai'r trwyddedeion edrych ar y cyfarwyddyd am ragor o fanylion am y termau a ddefnyddir yn yr adran hon.

10.9 Rhaid i unrhyw ddefnydd o wasanaethau teleffoni cyfradd premiwm a reolir mewn rhaglenni gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ac unrhyw ofynion ychwanegol sy'n gysylltiedig â darlledu a roddir gan PhonepayPlus.

10.10 Pan fydd gwrandawyr yn defnyddio gwasanaethau teleffoni cyfradd premiwm a reolir, neu wasanaethau cyfathrebu eraill lle mae'r refeniw a gynhyrchir yn cael ei rannu rhwng y partïon perthnasol, rhaid i'r gost gael ei gwneud yn glir iddynt a'i darlledu fel y bo'n briodol.

<u>Nodyn:</u>
Dylai'r trwyddedeion edrych ar y cyfarwyddyd am ragor o fanylion am y defnydd o'r rheol hon, yn ogystal â chyfarwyddyd y rheolau cysylltiedig perthnasol (gweler yn arbennig y cyfarwyddyd perthnasol i Reolau 2.13 i 2.16).

### Apeliadau gan elusennau

10.11 Caniateir darlledu gweithgarwch codi arian ar ran elusen (neu apêl mewn argyfwng) dim ond os:

- caiff ei ddarlledu yn rhad ac am ddim;
- nad yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriad masnachol sy'n destun trefniant masnachol â'r elusen berthnasol (neu apêl argyfwng); a hefyd
- y darlledwr wedi cymryd camau rhesymol i fodloni'i hun:
    - bod y corff dan sylw'n gallu dangos tystiolaeth foddhaol o statws elusennol neu, yn achos apêl mewn argyfwng, fod cronfa gyhoeddus gyfrifol wedi'i sefydlu i ddelio ag ef; ac

- o nad yw’r corff dan sylw wedi’i wahardd rhag hysbysebu ar y radio.

### Apelio am gyllid ar gyfer rhaglenni neu wasanaethau

10.12 Caiff darlledwyr ddarlledu apeliadau am roddion i wneud rhaglenni neu i ariannu eu gwasanaeth. Rhaid dweud wrth y gwrandawyr beth yw pwrpas yr apêl a faint y bydd yn ei godi. Rhaid rhoi cyfrif ar wahân o’r holl roddion a’u defnyddio i’r diben y’u rhoddwyd ar ei gyfer.

### Hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion ar fuddsoddi

10.13 Wrth ddarlledu hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion ar fuddsoddi, rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â’r darpariaethau perthnasol yn Atodiad 4 i’r Cod hwn.

**Hyrwyddiad ariannol** Mae hyrwyddiad ariannol yn golygu gwahoddiad neu anogaeth i ymwneud â gweithgarwch buddsoddi (yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Cyfyngiadau ar hyrwyddo ariannol)).

**Argymhelliad buddsoddi** Mae argymhelliad yng nghyswllt buddsoddi’n digwydd pan fydd rhywun yn argymell penderfyniad buddsoddi penodol yn uniongyrchol, er enghraifft, prynu neu werthu cyfranddaliadau penodol neu warantu cynnig cyfranddaliadau penodol.

# Atodiad 1

## Rhannau o Ddeddfwriaeth Berthnasol y DU

### Deddf Cyfathrebiadau 2003 (fel y’i diwygiwyd)

### Adran 3: Dyletswyddau cyffredinol OFCOM

(1) Prif ddyletswydd OFCOM wrth gyflawni’i swyddogaethau fydd -

(a) hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu; a

(b) hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo’n briodol drwy hybu cystadleuaeth”

(2) Mae’r pethau y mae’n ofynnol i OFCOM eu sicrhau, yn rhinwedd is-adran (1), wrth gyflawni’i swyddogaethau’n cynnwys, yn benodol, bob un o’r canlynol:

(e) cymhwyso safonau, yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, sy’n rhoi diogelwch digonol i’r cyhoedd rhag cynnwys deunydd tramgwyddus a niweidiol mewn gwasanaethau o’r fath;

(f) cymhwyso safonau, yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, sy’n rhoi diogelwch digonol i’r cyhoedd a phob un arall rhag:

(i) triniaeth annheg mewn rhaglenni sydd wedi’u cynnwys mewn gwasanaethau o’r fath; a

(ii) tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad o ganlyniad i weithgareddau a gyflawnir at ddibenion gwasanaethau o’r fath.

(4) Rhaid i OFCOM ddal sylw hefyd, wrth gyflawni’r dyletswyddau hynny, ar hynny o’r canlynol y mae’n ymddangos iddo eu bod yn berthnasol yn yr amgylchiadau:

(b) y dymunoldeb o hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol;

(g) yr angen i sicrhau yn achos gwasanaethau teledu a radio mai’r dull o gymhwyso safonau sy’n dod o fewn is-adran (2)(e) ac (f) yw’r un gorau i warantu lefel briodol o ryddid mynegiant;

(h) natur fregus plant ac eraill y mae’n ymddangos i OFCOM fod eu hamgylchiadau yn golygu bod angen diogelwch arbennig arnynt;

(j) y dymunoldeb o atal troseddu ac anhrefn;

(k) barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a’r cyhoedd yn gyffredinol;

(l) y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o’r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig a phobl sy’n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

## Adran 319: Cod safonau OFCOM

(1) Bydd yn ddyletswydd ar OFCOM i osod hynny o safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni sydd i’w cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio y mae’n ymddangos iddo eu bod wedi’u pennu yn y modd gorau i sicrhau amcanion y safonau, a’u hadolygu a’u diwygio o bryd i’w gilydd.

(2) Amcanion y safonau yw:

(a) diogelu unigolion dan ddeunaw oed;

(b) na fydd deunydd sy’n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio;

(c) y bydd newyddion sydd wedi’u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio yn cael eu cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy, ac y cydymffurfir â’r gofynion o ran didueddrwydd yn adran 320;

(d) y bydd newyddion sydd wedi’u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio yn cael eu hadrodd gyda chywirdeb dyladwy;

(e) y bydd graddau priodol o gyfrifoldeb yn cael ei arfer mewn cysylltiad â chynnwys rhaglenni sy’n rhaglenni crefyddol;

(f) y bydd safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cymhwyso at gynnwys gwasanaethau teledu a radio er mwyn darparu diogelwch digonol i’r cyhoedd rhag cynnwys deunydd tramgwyddus a niweidiol mewn gwasanaethau o’r fath;

(fa) y bydd y gofynion gosod cynnyrch y cyfeirir atynt yn adran 321(3A) yn cael eu bodloni mewn cysylltiad â rhaglenni a gaiff eu cynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni teledu (ar wahân i hysbysebion);

(g) na fydd hysbysebu sy’n groes i’r gwaharddiad ar hysbysebu gwleidyddol a nodwyd yn adran 321(2) yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau teledu neu radio;

(h) atal cynnwys hysbysebu a all fod yn gamarweiniol, yn niweidiol neu’n dramgwyddus mewn gwasanaethau teledu a radio;

(i) y cydymffurfir â rhwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig mewn cysylltiad â hysbysebu a gynhwysir mewn gwasanaethau teledu a radio;

(j) atal nawdd anaddas i raglenni a gynhwysir mewn gwasanaethau teledu a radio;

(k) na fydd gwahaniaethu amhriodol rhwng hysbysebwyr sy’n ceisio cael cynnwys hysbysebion mewn gwasanaethau teledu a radio; ac

(l) na ddefnyddir technegau sy’n manteisio ar y posibilrwydd o gyfleu neges i wylwyr neu wrandawyr, neu o ddylanwadu ar eu meddwl fel arall, heb iddynt fod yn ymwybodol, neu’n llwyr ymwybodol, o’r hyn sydd wedi digwydd.

(3) Rhaid cynnwys y safonau a bennir gan OFCOM dan yr adran hon mewn un neu ragor o godau.

(4) Wrth osod neu ddiwygio unrhyw safonau dan yr adran hon, rhaid i OFCOM ddal sylw, yn benodol ac i’r graddau y mae’n ymddangos iddo ei fod yn berthnasol i sicrhau amcanion y safonau, ar bob un o’r materion canlynol:

(a) maint y niwed neu dramgwydd sy’n debygol o gael ei achosi drwy gynnwys unrhyw fath penodol o ddeunydd mewn rhaglenni’n gyffredinol neu mewn

rhaglenni o fath penodol;

(b) maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa bosibl i raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio'n gyffredinol, neu mewn gwasanaethau teledu a radio o fath penodol;

(c) disgwyliad tebygol y gynulleidfa o ran natur cynnwys rhaglen a'r graddau y gellir dod â natur cynnwys rhaglen i sylw aelodau posibl y gynulleidfa;

(d) y tebygolrwydd y bydd unigolion nad ydynt yn ymwybodol o natur cynnwys rhaglen yn dod yn agored yn anfwriadol, drwy eu gweithredoedd eu hunain, i'r cynnwys hwnnw;

(e) y dymunoldeb o sicrhau bod cynnwys gwasanaethau'n nodi pa bryd y ceir newid sy'n effeithio ar natur gwasanaeth y mae rhai'n ei wylio neu'n gwrando arno ac, yn benodol, newid sy'n berthnasol o ran cymhwyso'r safonau sydd wedi'u gosod dan yr adran hon; ac

(f) y dymunoldeb o gadw annibyniaeth y rheolaeth olygyddol dros gynnwys rhaglen.

(5) Rhaid i OFCOM sicrhau bod y safonau sydd mewn grym o bryd i'w gilydd dan yr adran hon yn cynnwys:

(a) safonau gofynnol sy'n berthnasol i'r holl raglenni a gynhwysir mewn gwasanaethau teledu a radio; a

(b) hynny o safonau eraill sy'n berthnasol i fathau penodol o raglenni, neu o wasanaethau teledu a radio, y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol i sicrhau amcanion y safonau.

(6) Rhaid i'r safonau a osodwyd i sicrhau amcan y safonau a bennwyd yn is-adran (2)(e) gynnwys, yn benodol, ddarpariaeth sydd â'r bwriad o sicrhau na fydd rhaglenni crefyddol yn cynnwys:

(a) unrhyw fanteisio amhriodol ar unrhyw deimladau sydd gan y gynulleidfa tuag at raglen o'r fath; neu

(b) unrhyw ymdriniaeth ddifrïol â barnau a chredoau crefyddol y rheini sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol.

(7) Wrth osod safonau dan yr adran hon, rhaid i OFCOM ystyried hynny o rwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei hysbysu amdanynt at ddibenion yr adran hon.

(8) Yn yr adran hon, ystyr "newyddion" yw newyddion ar ba ffurf bynnag y maent wedi'u cynnwys mewn gwasanaeth.

(9) Yn amodol ar is-adran (10), mae is-adran (2)(fa) ond yn berthnasol mewn perthynas â rhaglenni y dechreuwyd eu cynhyrchu ar ôl 19$^{eg}$ Rhagfyr 2009.

(10) I'r graddau y mae gosod cynnyrch yn dod dan baragraff 4(ba) o Atodlen 11A (sigaréts electronig a chynwysyddion ail-lenwi sigaréts electronig), dim ond yng nghyswllt rhaglenni fydd yn dechrau cael eu cynhyrchu ar ôl 19 Mai 2016 y mae is-adran (2)(fa) yn berthnasol.

## Adran 320: Gofynion arbennig o ran didueddrwydd[30]

(1) Gofynion yr adran hon yw:

(a) gwahardd, yn achos gwasanaethau teledu a radio (ac eithrio gwasanaeth cyfyngedig o fewn ystyr adran 245), o raglenni a gynhwysir mewn unrhyw un o’r gwasanaethau hynny, bob mynegiad o farn neu safbwynt gan y person sy’n darparu’r gwasanaeth am unrhyw un o’r materion a nodir yn is-adran (2);

(b) cadw didueddrwydd dyladwy, yn achos pob gwasanaeth rhaglenni teledu, gwasanaeth teletestun, gwasanaeth radio cenedlaethol, gwasanaeth rhaglenni sain digidol cenedlaethol, ar ran y sawl sy’n darparu’r gwasanaeth, mewn perthynas â’r holl faterion hynny;

(c) atal, yn achos pob gwasanaeth radio lleol, gwasanaeth rhaglenni sain digidol lleol neu wasanaeth cynnwys trwyddedadwy radio, amlygrwydd gormodol yn y rhaglenni a gynhwysir yn y gwasanaeth i farnau a safbwyntiau pobl neu gyrff penodol am unrhyw un o’r materion hynny.

(2) Y materion hynny yw:

(a) materion sy’n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol; a

(b) materion sy’n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

(3) Nid yw is-adran (1)(a) yn ei gwneud yn ofynnol -

(a) gwahardd barnau neu safbwyntiau sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau rhaglenni o raglenni teledu; neu

(b) gwahardd barnau neu safbwyntiau sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau rhaglenni o raglenni radio.

(4) At ddibenion yr adran hon:

(a) mae’r gofyniad a bennwyd yn is-adran (1)(b) yn un y gellir ei fodloni (yn amodol ar unrhyw reolau dan is-adran (5)) drwy ei fodloni mewn perthynas â chyfres o raglenni a gymerir gyda’i gilydd;

(b) mae’r gofyniad a bennwyd yn is-adran (1)(c) yn un nad oes ond angen ei fodloni mewn perthynas â’r holl raglenni a gynhwysir yn y gwasanaeth dan sylw, o’u cymryd gyda’i gilydd.

(5) Rhaid i god safonau OFCOM gynnwys darpariaeth sy’n pennu’r rheolau sydd i’w dilyn mewn cysylltiad â’r materion canlynol:

(a) cymhwyso’r gofyniad a bennwyd yn is-adran (1)(b);

(b) y penderfyniad, mewn perthynas â’r gofyniad hwnnw, ynghylch beth yw cyfres o raglenni at ddibenion is-adran (4)(a);

(c) cymhwyso’r gofyniad yn is-adran (1)(c).

(6) Rhaid i unrhyw ddarpariaeth a wneir at ddibenion is-adran (5)(a), yn benodol, ystyried yr angen i sicrhau y cedwir didueddrwydd mewn perthynas â’r materion canlynol (gan gymryd pob mater ar wahân):

(a) materion sy’n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol mawr; a

[30] Nid yw Adran 320(1)(c) yn berthnasol i wasanaethau radio’r BBC. Gweler Atodiad 5.

(b) materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, yn ogystal â'r angen i sicrhau bod y gofyniad sydd wedi'i bennu yn is-adran (1)(b) yn cael ei fodloni'n gyffredinol mewn perthynas â chyfres o raglenni a gymerir gyda'i gilydd.

(7) Yn yr adran hon, ystyr "gwasanaeth radio cenedlaethol" a "gwasanaeth radio lleol", yn y drefn honno, yw gwasanaeth darlledu sain sy'n wasanaeth cenedlaethol o fewn ystyr adran 245, a gwasanaeth darlledu sain sy'n wasanaeth lleol o fewn ystyr yr adran honno.

## Adran 321: Amcanion ar gyfer hysbysebion, nawdd a gosod cynnyrch (dim ond is-adrannau (1), (3A) a (4) a atgynhyrchir yma)

(1) Mae safonau a osodir gan OFCOM i sicrhau'r amcanion a nodwyd yn adran 319(2)(a) ac (fa) i (j) yn rhai:

(a) y mae'n rhaid iddynt gynnwys darpariaeth gyffredinol sy'n rheoli safonau ac arferion mewn hysbysebu ac wrth noddi rhaglenni ac, mewn cysylltiad â gwasanaethau rhaglenni teledu, darpariaeth gyffredinol sy'n rheoli safonau ac arferion wrth osod cynnyrch;

(b) a gaiff gynnwys darpariaeth yn gwahardd hysbysebion a ffurfiau a dulliau o hysbysebu neu noddi (boed hynny'n gyffredinol neu mewn amgylchiadau penodol); ac

(c) a gaiff gynnwys darpariaeth yn gwahardd ffurfiau a dulliau hysbysebu drwy osod cynnyrch (gan gynnwys gosod cynnyrch, gwasanaethau neu nodau masnach unrhyw ddisgrifiad) (boed hynny'n gyffredinol neu mewn amgylchiadau penodol) yng nghyswllt gwasanaethau rhaglenni teledu.

(3A) At ddibenion adran 319(2)(fa), y gofynion gosod cynnyrch yw'r gofynion a nodir yn Atodlen 11A.

(4) Bydd gan Ofcom –

(a)

(i) gyfrifoldeb cyffredinol mewn cysylltiad â hysbysebion a dulliau hysbysebu a noddi yng nghyswllt gwasanaethau rhaglenni; a

(ii) chyfrifoldeb cyffredinol mewn cysylltiad â hysbysebu a dulliau gosod cynnyrch yng nghyswllt gwasanaethau rhaglenni teledu; ac

(b) wrth ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw, gall gynnwys amodau mewn unrhyw drwydded y byddant yn ei rhoi am unrhyw wasanaeth o'r fath sy'n galluogi Ofcom i bennu gofynion yng nghyswllt unrhyw un o'r materion hynny sy'n mynd y tu hwnt i ddarpariaeth cod safonau Ofcom.

## Adran 325: Cadw at y cod safonau (dim ond is-adran (1) a atgynhyrchir yma)

(1) Mae'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer pob gwasanaeth rhaglenni a drwyddedir gan drwydded dan y Ddeddf Darlledu yn cynnwys amodau ar gyfer sicrhau:

(a) bod safonau a bennwyd dan adran 319 yn cael eu cadw wrth ddarparu'r

gwasanaeth hwnnw; a

(b) bod gweithdrefnau ar gyfer trafod a datrys cwynion am gadw at y safonau hynny wedi'u sefydlu a'u cynnal.

## Adran 326: Dyletswydd i gadw at y cod tegwch

Mae'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer pob gwasanaeth rhaglenni a drwyddedir gan drwydded dan y Ddeddf Darlledu yn cynnwys yr amodau y mae OFCOM yn eu hystyried yn briodol i sicrhau cydymffurfio:

(a) mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth hwnnw, a

(b) mewn cysylltiad â'r rhaglenni sy'n cael eu cynnwys yn y gwasanaeth hwnnw; â'r cod am y cyfnod y bydd mewn grym dan adran 107 o Ddeddf 1996 (y cod tegwch).

### ATODLEN 11A: Cyfyngiadau ar osod cynnyrch

### Cyflwyniad

**1.**— (1) Yn y Rhan hon, ystyr "gosod cynnyrch", mewn cysylltiad â rhaglen a gaiff ei chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni teledu, yw cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen, neu gyfeirio ato mewn rhaglen, a hynny—

(a) at ddiben masnachol;

(b) yn gyfnewid am wneud unrhyw daliad, neu roi ystyriaeth werthfawr arall i unrhyw ddarparwr perthnasol neu unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â darparwr perthnasol; a

(c) heb fod yn osod propiau.

(2) Ystyr "gosod propiau", mewn cysylltiad â rhaglen o'r fath, yw cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen, neu gyfeirio ato mewn rhaglen, a hynny—

(a) pan nad yw darparu cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach o werth sylweddol; a

(b) phan na fydd unrhyw ddarparwr perthnasol, neu rywun sy'n gysylltiedig â darparwr perthnasol, wedi cael unrhyw daliad neu ystyriaeth werthfawr arall mewn cysylltiad â'i gynnwys neu gyfeirio ato mewn rhaglen, neu y cyfeirir ati, gan anwybyddu'r costau a arbedwyd drwy gynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, neu gyfeirio ato mewn rhaglen.

**2.** Mae'r gofynion gosod cynnyrch fel a ganlyn—

(a) nad yw gosod cynnyrch yn dod dan unrhyw baragraff rhwng 3 a 6;

(b) y caiff yr holl amodau ym mharagraff 7 eu bodloni; a

(c) lle bydd paragraff 8 yn berthnasol, y caiff yr amod yn y paragraff hwnnw ei fodloni hefyd.

### Gwaharddiadau ar osod cynnyrch

**3.**—(1) Bydd gosod cynnyrch yn perthyn i'r paragraff hwn os bydd mewn rhaglen blant.

(2) Yn is-baragraff (1) mae “rhaglen i blant” yn golygu rhaglen a wneir—

(a) ar gyfer gwasanaeth rhaglenni teledu neu ar gyfer gwasanaeth rhaglenni ar alwad, ac

(b) i’w gwylio’n bennaf gan bobl dan un ar bymtheg oed.

**4.** Bydd gosod cynnyrch yn dod dan y paragraff hwn os bydd—

(a) yn cynnwys sigaréts neu gynnyrch tybaco arall;

(b) gan neu ar ran busnes sy’n cynhyrchu neu’n gwerthu sigaréts neu gynhyrchion tybaco eraill yn bennaf;

(ba) sigaréts electronig neu gynhwysyddion ail-lenwi sigaréts electronig; neu

(c) yn ymwneud â meddyginiaethau sydd ddim ond ar gael ar bresgripsiwn.

**5.** Bydd gosod cynnyrch diodydd alcoholig yn dod dan y paragraff hwn os bydd—

(a) wedi’i anelu’n benodol at bobl dan ddeunaw oed; neu

(b) mae’n annog yfed eithafol ar ddiodydd o’r fath.

**6.**—(1) Bydd gosod cynnyrch yn perthyn i’r paragraff hwn os bydd mewn rhaglen y mae’r paragraff hwn yn berthnasol iddi a—

(a) bod y rhaglen yn rhaglen grefyddol, yn ymwneud â materion defnyddwyr neu faterion cyfoes;

(b) bod gosod cynnyrch yn dod dan unrhyw beth yn is-baragraff (2); neu

(c) bod gosod cynnyrch yn anaddas fel arall.

(2) Caiff y canlynol eu cynnwys yn yr is-baragraff hwn—

(a) tanwyr sigaréts, papurau sigarét neu getyn y bwriedir ei ysmygu;

(b) cynnyrch meddyginiaethol;

(c) diodydd meddwol;

(d) fformiwla i fabanod neu fformiwla ddilynol;

(e) bwyd neu ddiod sy’n cynnwys llawer o fraster, halen neu siwgr;

(f) gwasanaethau hapchwarae.

(3) Mae’r paragraff hwn yn berthnasol i—

(a) raglen sydd wedi’i chynhyrchu neu wedi’i chomisiynu gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni teledu sy’n eu cynnwys, neu gan rywun sy’n gysylltiedig â’r darparwr hwnnw, ac nad yw’n ffilm ar gyfer y sinema; a

(b) rhaglen sydd wedi’i chynhyrchu neu wedi’i chomisiynu gan unrhyw un arall sy’n bwriadu ei dangos am y tro cyntaf mewn gwasanaeth rhaglenni teledu a ddarperir gan rywun dan awdurdodaeth y Deyrnas Unedig at ddibenion y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol.

**Yr amodau perthnasol i osod cynnyrch**

**7.**— (1) Dyma’r amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2(b).

(2) Mae Amod A yn nodi y dylai’r rhaglen sy’n cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, neu sy’n cyfeirio ato, gynnwys—

(a) ffilm a gynhyrchwyd ar gyfer y sinema;

(b) ffilm neu gyfres a gynhyrchwyd ar gyfer gwasanaeth rhaglenni teledu neu wasanaeth rhaglenni ar gais;

(c) rhaglen chwaraeon; neu

(d) rhaglen adloniant ysgafn.

(3) Mae Amod B yn nodi nad yw gosod cynnyrch wedi dylanwadu ar gynnwys neu amserlennu’r rhaglen mewn ffordd sy’n effeithio ar annibyniaeth olygyddol darparwr y gwasanaeth rhaglenni teledu y caiff y rhaglen ei chynnwys ynddo.

(4) Amod C yw na ddylai gosod cynnyrch annog prynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau yn uniongyrchol, boed hynny drwy gyfeirio at y nwyddau neu’r gwasanaethau mewn ffordd sy’n eu hyrwyddo neu fel arall.

(5) Amod D yw na ddylai’r rhaglen roi amlygrwydd amhriodol i’r cynhyrchion, y gwasanaethau na’r nodau masnach dan sylw;

(6) Amod E yw na ddylai gosod cynnyrch ddefnyddio technegau sy’n manteisio ar bosibilrwydd cyfleu neges yn isganfyddol neu’n llechwraidd.

(7) Amod F yw nad yw’r ffordd y mae cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, yn cael ei gynnwys yn y rhaglen, neu’r cyfeiriad ato, drwy osod cynnyrch yn—

(a) niweidio'r parch at urddas dynol;

(b) hybu gwahaniaethu ar sail rhyw, tarddiad hiliol neu ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gred, anabledd, oed neu gyfeiriadedd rhywiol.

(c) annog ymddygiad sy’n niweidiol i iechyd neu ddiogelwch;

(d) annog ymddygiad sy’n hynod niweidiol i’r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd;

(e) achosi niwed corfforol neu foesol i bobl dan ddeunaw oed;

(f) annog y bobl hyn yn uniongyrchol i berswadio eu rhieni neu bobl eraill i brynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau;

(g) manteisio ar ymddiriedaeth y bobl hyn mewn rhieni, athrawon neu bobl eraill; neu

(h) dangos y bobl hyn yn afresymol mewn sefyllfaoedd peryglus.

**8.**— (1) Mae’r paragraff hwn yn berthnasol pan fydd y rhaglen sy’n cynnwys gosod cynnyrch wedi’i chynhyrchu neu wedi’i chomisiynu gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni teledu sydd wedi’i chynnwys neu gan rywun sy’n gysylltiedig â’r darparwr hwnnw.

(2) Yr amod y cyfeirir ato ym mharagraff 2(c) yw y dylai’r gwasanaeth rhaglenni teledu y mae’r rhaglen yn rhan ohono ddangos yn briodol y ffaith nad yw gosod cynnyrch yn cael ei gynnwys mewn rhaglen yn llai aml na’r canlynol—

(a) ar ddechrau ac ar ddiwedd rhaglen o’r fath; ac

(b) o ran gwasanaeth rhaglen deledu sy’n cynnwys egwyliau hysbysebion, pan fydd y rhaglen yn ailddechrau ar ôl pob egwyl hysbysebion o’r fath.

**Mân ddiffiniadau**

**9.** Yn yr Atodlen hon—

yr un ystyr sydd i “cysylltiedig” ag sydd yn Neddf Darlledu 1990 yn rhinwedd adran 202 y Ddeddf honno;

yr un ystyr sydd i “sigarét electronig” ag sydd yn adran 368R;

yr un ystyr sydd i “gynhwysydd ail-lenwi sigarét electronig” ag sydd yn adran 368R;

ystyr “ffilm a gynhyrchir ar gyfer y sinema” yw ffilm a gynhyrchir gyda’r bwriad o’i dangos i’r cyhoedd am y tro cyntaf mewn sinema;

yr un ystyr sydd i “fformiwla ddilynol” ag sydd yn Erthygl 2 Cyfarwyddeb y Comisiwn 2006/141/EC ar fformiwla i fabanod a fformiwla ddilynol a diwygio Cyfarwyddeb 1999/21/EC;

yr un ystyr sydd i “fformiwla i fabanod” ag sydd yn Erthygl 2 Cyfarwyddeb y Comisiwn 2006/141/EC ar fformiwla i fabanod a fformiwla ddilynol a diwygio Cyfarwyddeb 1999/21/EC;

yr un ystyr sydd i ‘cynnyrch meddyginiaethol’ ag sydd yn adran 130 Deddf Meddyginiaethau 1968;

ystyr “meddyginiaeth sydd dim ond ar gael ar bresgripsiwn” yw cynnyrch meddyginiaethol disgrifiad neu gynnyrch sy’n dod dan ddosbarth a bennir mewn gorchymyn a wnaethpwyd dan adran 58 Deddf Meddyginiaethau 1968;

ystyr “cynhyrchydd” mewn cysylltiad â rhaglen, yw’r sawl sy’n cyflawni’r trefniadau angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu’r rhaglen;

nid yw "rhaglen" yn cynnwys hysbyseb;

Ystyr “darparwr perthnasol” mewn cysylltiad â rhaglen yw:

(a) darparwr y gwasanaeth rhaglenni teledu y mae’r rhaglen yn rhan ohono; a

(b) chynhyrchydd y rhaglen;

Mae “gwerth gweddilliol” yn golygu unrhyw werth ariannol neu economaidd arall sy’n nwylo’r darparwr perthnasol ar wahân i arbedion costau cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen, neu gyfeirio ato.

ystyr “gwerth sylweddol” yw gwerth gweddilliol sy’n fwy na gwerth dibwys;

ystyr sydd i “cynnyrch tybaco” ag sydd yn adran 1 Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002;

mae “nod masnach”, mewn cysylltiad â busnes, yn cynnwys unrhyw ddelwedd (fel logo) neu sain a gysylltir yn gyffredin â’r busnes hwnnw, neu ei gynhyrchion neu ei wasanaethau.”

## Atodlen 2 (Rhan 1), Deddf Darlledu 1990 (fel y’i diwygiwyd) (darpariaethau o ran diffiniad o ‘rywun cysylltiedig’)

**1**

(1) Yn yr Atodlen hon—

Ystyr “Deddf 1996 “ yw Deddf Darlledu 1996;

mae “asiantaeth hysbysebu” yn golygu unigolyn neu gorff corfforaethol sy’n rhedeg busnes fel asiant hysbysebu (naill ai ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth) neu sy’n rheoli unrhyw gorff corfforaethol sy’n rhedeg busnes fel asiant hysbysebu, ac mae unrhyw gyfeiriad at asiantaeth hysbysebu yn cynnwys cyfeiriad at unigolyn sy’n—

(a) gyfarwyddwr neu’n swyddog unrhyw gorff corfforaethol sy’n rhedeg busnes o’r fath, neu
(b) sy’n cael ei gyflogi gan unrhyw un sy’n rhedeg busnes o’r fath;

“aelod cyswllt”—

(a) dylid ei ddehongli yn unol â pharagraff (1A) mewn cysylltiad â chorfforaeth, a
(b) dylid ei ddehongli yn unol ag is-baragraff (2) mewn cysylltiad ag unigolyn;

mae “trwydded Deddf Darlledu” yn golygu trwydded dan Ran 1 neu 3 y Ddeddf hon neu Ran 1 neu 2 o Ddeddf Darlledu 1996;

“rheolaeth”—

(a) dylid ei ddehongli yn unol ag is-baragraff (3) mewn cysylltiad â chorfforaeth, ac
(b) mewn cysylltiad ag unrhyw gorff arall ar wahân i gorfforaeth, mae’n golygu pŵer unigolyn i sicrhau, drwy ba bynnag ffordd, boed hynny’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, y caiff materion y corff a enwir am y tro cyntaf eu cynnal yn unol â dymuniadau’r unigolyn hwnnw;

mae “cyfalaf cyfrannau ecwiti” yn golygu’r un fath â’r ystyr yn y Deddfau Cwmnïau (gweler adran 548 o Ddeddf Cwmnïau 2006);

“awdurdod lleol”—

(a) yn Lloegr ... yw unrhyw un o’r canlynol, sef cyngor sir, dosbarth neu fwrdeistref yn Llundain, Cyngor Cyffredin Dinas Llundain a Chyngor Ynysoedd Scilly;
(aa) yng Nghymru, cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;
(b) yn yr Alban, cyngor a ffurfiwyd dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac ati (yr Alban) 1994; ac
(c) yng Ngogledd Iwerddon, cyngor dosbarth;

mae “cyfranogwr”, mewn cysylltiad â chorfforaeth, yn golygu rhywun sydd â chyfrannau yn y corff hwnnw, neu rywun sydd â hawl lesiannol i gael rhai, neu rywun sydd â phŵer pleidleisio yn y corff hwnnw;

(1A) At ddibenion pennu’r unigolion sy’n gysylltiedig â chorff corfforaethol at ddibenion yr Atodlen hon—

(a) dylid ystyried unigolyn fel cysylltai/rhywun sy’n gysylltiedig â chorff corfforaethol os yw’n gyfarwyddwr y corff corfforaethol hwnnw, a
(b) dylid ystyried bod corff corfforaethol a chorff corfforaethol arall yn gysylltiedig â’i gilydd os bydd un yn rheoli’r llall neu os bydd yr un unigolyn yn rheoli’r ddau.

(2) At ddibenion pennu'r bobl sy'n gysylltiedig ag unigolyn at ddibenion yr Atodlen hon, dylid ystyried bod y bobl ganlynol yn gysylltiedig â'i gilydd, sef—

(a) unrhyw unigolyn a gŵr neu wraig neu bartner sifil yr unigolyn hwnnw, ac unrhyw berthynas, neu ŵr neu wraig neu bartner sifil perthynas yr unigolyn hwnnw, neu ŵr neu wraig neu bartner sifil yr unigolyn hwnnw;

(b) unrhyw unigolyn ac unrhyw gorff corfforaethol y mae'r unigolyn hwnnw'n gyfarwyddwr arno;

(c) unrhyw unigolyn yn ei swyddogaeth fel ymddiriedolwr setliad a'r setlwr neu'r rhoddwr ac unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â'r setlwr neu'r rhoddwr;

(d) unigolion sy'n rhedeg busnes mewn partneriaeth a gŵr neu wraig neu bartner sifil a pherthnasau unrhyw un ohonynt;

(e) unrhyw ddau unigolyn neu fwy sy'n gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau neu arfer rheolaeth dros gorff corfforaethol neu gymdeithas arall neu er mwyn sicrhau rheolaeth dros unrhyw fenter neu asedau; ac yn yr is-baragraff hwn, mae "perthynas" yn golygu brawd, chwaer, ewythr, modryb, nai, nith, cyndad neu ddisgynnydd uniongyrchol (dylid ystyried llysblentyn neu blentyn anghyfreithlon unrhyw unigolyn, neu unrhyw un sydd wedi'i fabwysiadu gan unigolyn, naill ai'n gyfreithiol neu fel arall, fel ei blentyn yn berthynas, neu dylid ystyried olrhain perthynas yn yr un ffordd â phlentyn yr unigolyn hwnnw); a dylai cyfeiriadau at wraig neu ŵr gynnwys cyn wraig neu ŵr a gwraig neu ŵr honedig a dylai cyfeiriadau at bartner sifil gynnwys cyn bartner sifil a phartner sifil honedig.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, bydd unigolyn yn rheoli corff corfforaethol—

(a) os bydd yn dal, neu os bydd ganddo hawl lesiannol i fwy na 50 y cant o gyfalaf cyfran ecwiti yn y corff, neu'n meddu ar fwy na 50 y cant o'r pŵer pleidleisio yn y corff; neu

(b) er nad oes ganddo fudd o'r fath yn y corff, ei bod yn rhesymol, ac ystyried yr holl amgylchiadau, disgwyl y byddai (petai'n dewis hynny) yn gallu yn y rhan fwyaf o achosion, neu ym mhob agwedd o bwys, drwy ba bynnag ffordd, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, cyflawni'r canlyniad er mwyn cynnal materion y corff yn unol â'i ddymuniadau; neu

(c) ei fod yn dal, neu fod ganddo'r hawl lesiannol i 50 y cant o gyfalaf cyfrannau ecwiti'r corff hwnnw, neu'n meddu ar 50 y cant o'r pŵer pleidleisio yn y corff, a bod trefniant rhyngddo ef ac unrhyw un arall yn y corff ynghylch y dull y caiff unrhyw bŵer pleidleisio yn y corff ei ddefnyddio gan unrhyw un ohonynt, neu drwy anwaith gan unrhyw un ohonynt i arfer pŵer pleidleisio o'r fath.

(3A) At ddibenion is-baragraff (3)(c)—

(a) mae "trefniant" yn cynnwys unrhyw gytundeb neu drefniant, p'un ai y gellir ei orfodi'n gyfreithiol, neu os mai dyma yw'r bwriad, a

(b) dylid trin unigolyn—

(i) fel rhywun sy'n dal, neu sydd â hawl lesiannol, i unrhyw gyfalaf cyfrannau ecwiti sy'n cael ei ddal gan gorff corfforaethol y mae'n ei reoli neu y mae gan gorff corfforaethol o'r fath hawl lesiannol, ac

(ii) fel rhywun sy’n meddu ar unrhyw bŵer pleidleisio gan gorff corfforaethol o’r fath.

(4) …

(5) At ddibenion unrhyw ddarpariaeth o’r Atodlen hon sy’n cyfeirio at gorff a gaiff ei reoli gan ddau neu fwy o unigolion neu gyrff unrhyw ddisgrifiad a nodir gyda’i gilydd, ni ddylid ystyried bod yr unigolion neu’r cyrff dan sylw yn rheoli’r corff yn rhinwedd paragraff (b) is-baragraff (3) oni bai eu bod yn gweithredu gyda’i gilydd.

(6) Yn yr Atodlen hon, bydd unrhyw gyfeiriad at gyfranogwr sydd â mwy na 5 y cant o fudd mewn corff corfforaethol yn gyfeiriad at unigolyn—

(a) sy’n dal mwy na 5 y cant o gyfrannau’r corff hwnnw, neu sydd â hawl lesiannol i wneud hynny, neu

(b) sy’n dal mwy na 5 y cant o’r pŵer pleidleisio yn y corff hwnnw.

(7) Bydd is-baragraff (6) yn dod i rym yn amodol ar yr addasiadau angenrheidiol mewn cysylltiad â chyfeiriadau eraill yn yr Atodlen hon—

(a) i fudd o fwy na chanran benodol mewn corfforaeth, neu

(b) i fudd canran benodol neu fwy mewn corfforaeth.

**2**

(1) Yn amodol ar is-baragraff (1A), unrhyw gyfeiriad ym mharagraff 1 uchod i unigolyn—

(a) sydd â chyfrannau, neu unrhyw swm o’r cyfrannau neu’r cyfalaf cyfrannau ecwiti mewn corfforaeth, neu sydd â hawl i wneud hynny, neu

(b) sydd â phŵer pleidleisio, neu unrhyw faint o’r pŵer pleidleisio, mewn corfforaeth,

(c) sy’n gyfeiriad at wneud hynny, neu sydd â’r hawl, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd gydag un unigolyn neu fwy, boed hynny’n uniongyrchol neu drwy un enwebai neu fwy.

(1A) At ddibenion yr Atodlen hon, dylid diystyru unigolyn sydd â chyfrannau, neu sydd â hawl i bleidleisio mewn corff corfforaethol os, neu i’r graddau—

(a) ei fod yn dal y cyfrannau dan sylw—

(i) fel enwebai,

(ii) fel ceidwad (naill ai dan ymddiriedaeth neu dan gontract), neu

(iii) dan drefniant yn unol â’r derbynebau ar gyfer adneuon y mae wedi’u cyhoeddi, neu’n bwriadu eu cyhoeddi. . ., yng nghyswllt y cyfrannau dan sylw, ac

(b) nid oes ganddo hawl i arfer na rheoli ymarfer hawliau pleidleisio mewn cysylltiad â’r cyfrannau dan sylw.

(1AA) Yn is-baragraff (1A)(a)(iii), mae “derbynebau ar gyfer adneuon” yn golygu tystysgrif neu gofnod arall (ar ffurf dogfen ai peidio)—

(a) a gyhoeddir gan unigolyn sydd â chyfrannau neu ar ei ran, neu sydd â thystiolaeth o’r hawl i gael cyfrannau, neu sydd â budd mewn cyfrannau mewn corff corfforaethol penodol; ac

(b) sy’n dangos tystiolaeth neu’n cydnabod bod gan unigolyn arall hawliau mewn cysylltiad â’r cyfrannau hynny neu gyfrannau cyffelyb, sy’n cynnwys yr hawl i gael cyfrannau o’r fath (neu dystiolaeth o’r hawl i gael cyfrannau o’r fath) gan yr unigolyn a enwir ym mharagraff (a).

(1B) At ddibenion is-baragraff (1A)(b)—

(a) does gan unigolyn ddim hawl i arfer na rheoli ymarfer hawliau pleidleisio mewn cysylltiad â chyfrannau os yw’n rhwym (wrth gontract neu fel arall) i beidio ag arfer yr hawliau pleidleisio, neu i beidio â’u harfer oni bai eu bod yn unol â chyfarwyddiadau rhywun arall, a

(b) dylid ystyried hawliau pleidleisio y mae gan unigolyn yr hawl i’w harfer neu y mae ganddo’r hawl i reoli’r arfer mewn amgylchiadau penodol dim ond pan fydd yr amgylchiadau hynny wedi codi ac am ba hyd bynnag y byddant yn dal i godi.

**3**

At ddibenion yr Atodlen hon, dylid trin yr unigolion canlynol fel rhai sy’n gysylltiedig ag unigolyn penodol—

(a) rhywun sy’n rheoli’r unigolyn hwnnw,

(b) cysylltai/rhywun sy’n gysylltiedig â’r unigolyn hwnnw neu unigolyn sy’n dod dan baragraff (a), a

(c) chorff a reolir gan yr unigolyn hwnnw neu gan gysylltai/rhywun sy’n gysylltiedig â’r unigolyn hwnnw.

## Deddf Darlledu 1996 (fel y’i diwygiwyd)

## Pennod 55

## Triniaeth anghyfiawn neu annheg neu dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad

## Adran 107

(1) Bydd yn ddyletswydd ar Ofcom i lunio cod, a’i adolygu o bryd i’w gilydd, sy’n rhoi arweiniad ar yr egwyddorion sydd i’w cadw a’r arferion sydd i’w dilyn mewn cysylltiad ag osgoi:

(a) triniaeth anghyfiawn neu annheg mewn rhaglenni y mae’r adran hon yn berthnasol iddynt; neu

(b) tarfu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad wrth gael, neu mewn cysylltiad â chael, deunydd a gynhwysir mewn rhaglenni o’r fath.

# Atodiad 2

## Rhannau o Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol yr UE (Cyfarwyddeb 2010/13/EU)

### Erthygl 1

At ddibenion y Gyfarwyddeb hon, defnyddir y diffiniadau canlynol:

(a) ystyr ‘gwasanaeth cyfryngau clywedol’ yw:

(i) gwasanaeth fel y'i diffinnir gan Erthyglau 56 a 57 y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd y mae gan ddarparwr gwasanaeth cyfryngau gyfrifoldeb golygyddol drosto gyda’r prif bwrpas o ddarparu rhaglenni er mwyn hysbysu, diddanu neu addysgu, i'r cyhoedd drwy rwydweithiau cyfathrebu electronig o fewn ystyr pwynt (a) o Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 2002/21/EC. Mae gwasanaeth cyfryngau clywedol o'r fath naill ai'n ddarllediad teledu fel y'i diffinnir ym mhwynt (e) y paragraff hwn neu’n wasanaeth cyfryngau clywedol ar-alwad fel y'i diffinnir ym mhwynt (g) y paragraff hwn;

(ii) cyfathrebiad masnachol clywedol;

(b) ystyr ‘rhaglen' yw set o ddelweddau symudol gyda sain neu hebddo sy’n cyfateb i un eitem mewn rhestr neu gatalog a sefydlwyd gan ddarparwr gwasanaeth cyfryngau a’i ffurf a chynnwys yn debyg i ffurf a chynnwys darllediadau teledu. Mae enghreifftiau o raglenni'n cynnwys ffilmiau, digwyddiadau chwaraeon, comedïau sefyllfa, rhaglenni dogfen, rhaglenni plant a drama wreiddiol;

(c) ystyr ‘cyfrifoldeb golygyddol’ yw bod â rheolaeth effeithiol dros ddewis y rhaglenni a hefyd dros eu trefnu naill ai mewn rhestr gronolegol, yn achos darllediadau teledu, neu mewn catalog, yn achos gwasanaethau cyfryngau clywedol ar-alwad. Nid yw cyfrifoldeb golygyddol o reidrwydd yn awgrymu atebolrwydd cyfreithiol dan gyfraith gwlad am y cynnwys neu'r gwasanaethau a ddarperir;

(d) ystyr ‘darparwr gwasanaeth cyfryngau’ yw’r unigolyn naturiol neu gyfreithiol sydd â chyfrifoldeb golygyddol dros y dewis o gynnwys clywedol y gwasanaeth cyfryngau clywedol ac yn penderfynu sut y caiff ei drefnu;

(e) ystyr ‘darlledu ar y teledu’ neu ‘ddarllediad teledu’ (h.y. gwasanaeth cyfryngau clywedol llinol) yw gwasanaeth cyfryngau clywedol a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth cyfryngau er mwyn gallu gwylio’r rhaglenni ar y pryd ar sail amserlen rhaglenni;

(f) ystyr ‘darlledwr’ yw darparwr gwasanaeth cyfryngau o ddarllediadau teledu;

(g) ystyr ‘gwasanaeth cyfryngau clywedol ar-alwad' (h.y. gwasanaeth cyfryngau clywedol heb fod yn llinol) yw gwasanaeth cyfryngau clywedol a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth cyfryngau ar gyfer gweld rhaglenni ar amser a ddewisir gan y defnyddiwr ac ar ei gais unigol ef ar sail catalog rhaglenni a ddewisir gan y darparwr gwasanaeth cyfryngau;

(h) ystyr ‘cyfathrebiad masnachol clywedol’ yw delweddau gyda sain neu hebddo sydd â’r nod o hyrwyddo, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, y nwyddau, y gwasanaethau neu’r ddelwedd o endid naturiol neu gyfreithiol sy'n cyflawni gweithgarwch economaidd. Mae delweddau o'r fath yn mynd gyda rhaglen neu'n cael eu cynnwys mewn rhaglen yn gyfnewid am dâl neu gydnabyddiaeth debyg neu at ddibenion hunanhyrwyddo. Y mae cyfathrebiadau masnachol clywedol yn cynnwys, ymysg pethau eraill, hysbysebion teledu, nawdd, telesiopa, a gosod cynnyrch;

(i) ystyr “hysbysebion teledu” yw unrhyw fath o gyhoeddiad a ddarlledir boed yn gyfnewid am dâl neu gydnabyddiaeth debyg neu a ddarlledir at ddibenion hunanhyrwyddo gan fenter gyhoeddus neu breifat neu berson naturiol mewn cysylltiad â masnach, busnes, crefft neu broffesiwn er mwyn hyrwyddo cyflenwi nwyddau neu wasanaethau, gan gynnwys eiddo ansymudol, hawliau a rhwymedigaethau, yn gyfnewid am dâl;

(j) ystyr ‘cyfathrebiad masnachol clywedol dirgel’ yw portread mewn geiriau neu luniau o nwyddau, gwasanaethau, enw, nod masnach neu weithgareddau cynhyrchydd nwyddau neu ddarparwr gwasanaethau mewn rhaglenni os yw’n fwriad gan y darparwr gwasanaeth cyfryngau i bortreadu o’r fath fod er mwyn hysbysebu, ac os gallai gamarwain y cyhoedd ynghylch ei natur. Ystyrir yn benodol bod portreadu o’r fath yn fwriadol os caiff ei wneud yn gyfnewid am dâl neu am gydnabyddiaeth debyg;

(k) ystyr ‘nawdd’ yw unrhyw gyfraniad gan fenter gyhoeddus neu breifat neu berson naturiol nad ydynt yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyfryngau clywedol neu â chynhyrchu gweithiau clywedol, i ariannu gwasanaethau cyfryngau clywedol neu raglenni gyda’r bwriad o hyrwyddo’u henw, eu nod masnach, eu delwedd, eu gweithgareddau neu eu cynhyrchion;

(l) ystyr ‘telesiopa' yw cynigion uniongyrchol yn cael eu darlledu i’r cyhoedd gyda’r bwriad o gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, gan gynnwys eiddo ansymudol, hawliau a rhwymedigaethau, yn gyfnewid am dâl;

(m) ystyr ‘gosod cynnyrch’ yw unrhyw ffurf ar gyfathrebiad masnachol clywedol lle mae cynnyrch, gwasanaeth neu'u nod masnach yn cael ei gynnwys ynddo, neu y mae cyfeiriad atynt ynddo, ac yn cael ei ddangos mewn rhaglen, yn gyfnewid am dâl neu gydnabyddiaeth debyg...

## Darpariaethau sy’n berthnasol i’r holl wasanaethau cyfryngau clywedol

### Erthygl 6

Rhaid i Aelod-wladwriaethau sicrhau drwy ddulliau priodol nad yw gwasanaethau cyfryngau clywedol a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaethau cyfryngau dan eu hawdurdodaeth yn cynnwys unrhyw anogaeth i gasáu ar sail hil, rhyw, crefydd neu genedligrwydd.

### Erthygl 9

1. Rhaid i Aelod-wladwriaethau sicrhau bod cyfathrebiadau masnachol clywedol a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaeth cyfryngau dan eu hawdurdodaeth yn cydymffurfio â’r gofynion canlynol:

   (a) rhaid iddi fod yn hawdd adnabod cyfathrebiadau masnachol clywedol. Rhaid gwahardd cyfathrebiadau masnachol clywedol dirgel;

   (b) rhaid i gyfathrebiadau masnachol clywedol beidio â defnyddio technegau isganfyddol;

   (c) rhaid i gyfathrebiadau masnachol clywedol beidio â:

      (i) niweidio'r parch at urddas dynol;

      (ii) yn cynnwys neu’n hybu unrhyw wahaniaethu ar sail rhyw, tarddiad hiliol neu ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gred, anabledd, oed neu gyfeiriadedd rhywiol.

      (iii) annog ymddygiad sy’n niweidiol i iechyd neu ddiogelwch;

      (iv) annog ymddygiad sy’n hynod niweidiol i’r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd;

(d) gwaherddir pob ffurf ar gyfathrebiadau masnachol clywedol ar gyfer sigaréts a chynnyrch tybaco arall;

(e) ni chaiff cyfathrebiadau masnachol clywedol ar gyfer diodydd meddwol gael eu hanelu'n benodol at bobl ifanc dan oed ac ni chânt annog yfed eithafol ar y cyfryw ddiodydd;

(f) gwaherddir cyfathrebiadau masnachol clywedol ar gyfer cynhyrchion meddyginiaethol a thriniaeth feddygol sydd ond ar gael ar bresgripsiwn yn yr Aelod-wladwriaeth y mae'r darparwr gwasanaeth cyfryngau'n dod o fewn ei hawdurdodaeth;

(g) ni chaiff cyfathrebiadau masnachol clywedol achosi niwed corfforol na moesol i bobl ifanc dan oed. Felly, ni chânt yn uniongyrchol gymell pobl ifanc dan oed i brynu neu logi cynnyrch neu wasanaeth drwy fanteisio ar eu diffyg profiad neu eu parodrwydd i gredu, na'u hannog yn uniongyrchol i ddarbwyllo'u rhieni neu eraill i brynu'r nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu hysbysebu, manteisio ar yr ymddiriedaeth arbennig sydd gan bobl ifanc dan oed yn eu rhieni, athrawon neu bobl eraill, nac yn afresymol ddangos pobl ifanc dan oed mewn sefyllfaoedd peryglus.

2. Rhaid i Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn annog darparwyr gwasanaethau cyfryngau i ddatblygu codau ymddygiad mewn cysylltiad â chyfathrebiadau masnachol clywedol amhriodol, sy'n cyd-daro â rhaglenni plant neu wedi'u cynnwys ynddynt, o fwydydd neu ddiodydd sy'n cynnwys maetholion a sylweddau ag effaith faethol neu ffisiolegol, yn arbennig cynnyrch megis braster, asidau trawsfrasterog, halen/sodiwm a siwgrau, nad yw gormod ohonynt yn y diet yn cael ei argymell.

## Erthygl 10

1. Rhaid i wasanaethau cyfryngau clywedol neu raglenni a noddir fodloni'r gofynion canlynol:

   (a) ni cheir dylanwadu dan unrhyw amgylchiadau ar eu cynnwys, ac yn achos darllediadau ar y teledu, ar eu hamserlennu mewn modd a fydd yn effeithio ar gyfrifoldeb ac annibyniaeth olygyddol y darparwr gwasanaeth cyfryngau;

   (b) rhaid iddynt beidio ag annog prynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau yn uniongyrchol, yn arbennig drwy gyfeiriadau hyrwyddol arbennig at y cynhyrchion neu'r gwasanaethau hynny;

   (c) rhaid hysbysu'r gwylwyr yn glir am fodolaeth cytundeb nawdd. Rhaid dangos yn glir bod rhaglenni'n cael eu noddi drwy gyfrwng enw, logo a/neu unrhyw symbol arall sydd gan y noddwr megis cyfeiriad at ei gynnyrch neu wasanaeth(au) neu arwydd amlwg o hynny mewn ffordd briodol ar gyfer rhaglenni ar ddechrau, yn ystod a/neu ar ddiwedd y rhaglenni.

2. Ni chaiff mentrau sy'n cynhyrchu neu'n gwerthu sigaréts neu gynhyrchion tybaco eraill fel eu prif weithgarwch noddi rhaglenni na gwasanaethau cyfryngau clywedol.

3. Caiff nawdd i raglenni neu wasanaethau cyfryngau clywedol gan fentrau y mae eu gweithgareddau'n cynnwys cynhyrchu neu werthu cynhyrchion meddyginiaethol a thriniaeth feddygol hyrwyddo enw neu ddelwedd y fenter, ond ni chaiff hyrwyddo cynhyrchion meddyginiaethol neu driniaethau meddygol penodol sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig yn yr Aelod-wladwriaeth y mae'r darparwr gwasanaeth cyfryngau o fewn ei hawdurdodaeth.

4. Ni cheir noddi rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Caiff Aelod-wladwriaethau ddewis gwahardd logos nawdd rhag cael eu dangos yn ystod rhaglenni plant, rhaglenni dogfen a rhaglenni crefyddol.

## Erthygl 11

1. Bydd paragraffau 2, 3 a 4 yn berthnasol i raglenni a gynhyrchir ar ôl 19 Rhagfyr 2009 yn unig.
2. Gwaherddir gosod cynnyrch.
3. Gan randdirymu paragraff 2, caniateir gosod cynnyrch yn yr achosion canlynol, oni bai i Aelod-wladwriaeth benderfynu fel arall:
   (a) mewn gweithiau sinematograffig, ffilmiau a chyfresi a wneir ar gyfer gwasanaethau cyfryngau clywedol, rhaglenni chwaraeon a rhaglenni adloniant ysgafn;
   (b) lle na wneir dim taliad ond, yn hytrach, lle darperir nwyddau neu wasanaethau penodol yn rhad ac am ddim megis gwobrau neu bropiau cynhyrchu; gyda’r bwriad o’u cynnwys mewn rhaglen.

Ni fydd y rhanddirymiad y darperir ar ei gyfer ym mhwynt (a) yn berthnasol i raglenni plant.

Rhaid i raglenni sy'n cynnwys gosod cynnyrch fodloni'r holl ofynion canlynol o leiaf:

(a) ni cheir dylanwadu dan unrhyw amgylchiadau ar eu cynnwys, ac yn achos darllediadau ar y teledu, ar eu hamserlennu mewn modd a fydd yn effeithio ar gyfrifoldeb ac annibyniaeth olygyddol y darparwr gwasanaeth cyfryngau;
(b) rhaid iddynt beidio ag annog prynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau yn uniongyrchol, yn arbennig drwy gyfeiriadau hyrwyddol arbennig at y cynhyrchion neu’r gwasanaethau hynny;
(c) rhaid iddynt beidio â rhoi amlygrwydd amhriodol i’r cynnyrch dan sylw;
(d) rhaid hysbysu'r gwylwyr yn glir am fodolaeth gosod cynnyrch. Rhaid dangos yn briodol bod rhaglenni’n cynnwys gosod cynnyrch ar ddechrau ac ar ddiwedd y rhaglen, a phan fydd y rhaglen yn ailddechrau ar ôl egwyl hysbysebion, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch ar ran y gwyliwr.

Fel eithriad, caiff Aelod-wladwriaethau ddewis hepgor y gofynion ym mhwynt (d) ar yr amod nad yw'r rhaglen dan sylw wedi'i gynhyrchu na'i gomisiynu gan y darparwr gwasanaeth cyfryngau ei hun neu gwmni sydd wedi'i gysylltu â’r darparwr gwasanaeth cyfryngau.

4. Beth bynnag fo’r sefyllfa, rhaid i raglenni beidio â chynnwys gosod cynnyrch yng nghyswllt:
   (a) cynhyrchion tybaco neu sigaréts neu osod cynnyrch gan fentrau sy'n cynhyrchu sigaréts neu gynhyrchion tybaco eraill fel eu prif weithgarwch; neu
   (b) cynhyrchion meddyginiaethol neu driniaethau meddygol penodol sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig yn yr Aelod-wladwriaeth y mae'r darparwr gwasanaeth cyfryngau'n dod o dan ei hawdurdodaeth.

## Hysbysebion teledu a thelesiopa

## Erthygl 19

1. Rhaid iddi fod yn hawdd adnabod a gwahaniaethu rhwng hysbysebion teledu/telesiopa a chynnwys golygyddol. Heb iddo leihau effaith y defnydd o dechnegau hysbysebu newydd, rhaid cadw hysbysebion teledu a thelesiopa’n gwbl ar wahân i rannau eraill y rhaglen drwy ddulliau gweledol a/neu acwstig a/neu ofodol.
2. Yr unig eithriadau fydd sbotiau telesiopa a hysbysebu ar eu pennau’u hunain, ac eithrio wrth ddarlledu digwyddiadau chwaraeon.

## Erthygl 20

1. Rhaid i Aelod-wladwriaethau sicrhau, lle caiff hysbysebion teledu neu delesiopa eu cynnwys yn ystod rhaglenni, na niweidir didwylledd y rhaglenni, gan ystyried egwyliau naturiol yn y rhaglen a hyd a natur y rhaglen dan sylw, na hawliau deiliaid yr hawliau.
2. Mae modd torri ar draws ffilmiau a wneir ar gyfer teledu (heb gynnwys cyfresi, rhaglenni dogfen a dramâu cyfres), gweithiau sinematograffig a rhaglenni newyddion gyda hysbysebion teledu a/neu delesiopa unwaith ar gyfer pob cyfnod wedi'i amserlennu o 30 munud o leiaf. Gellir torri ar draws rhaglenni plant gyda hysbysebion teledu a/neu delesiopa unwaith ar gyfer pob cyfnod wedi'i amserlennu o 30 munud o leiaf, gyhyd â bod hyd y rhaglen yn fwy na 30 munud. Ni cheir cynnwys hysbysebion teledu na thelesiopa yn ystod gwasanaethau crefyddol.

## Erthygl 23

1. Ni chaiff canran y sbotiau ar gyfer hysbysebion teledu a thelesiopa o fewn un awr cloc benodol fod yn fwy nag 20%.
2. Ni fydd paragraff 1 yn berthnasol i gyhoeddiadau a wneir gan y darlledwr mewn cysylltiad â'i raglenni ei hun a chynhyrchion ategol sy'n deillio'n uniongyrchol o'r rhaglenni hynny, cyhoeddiadau nawdd a gosod cynnyrch.

## Erthygl 25

Bydd y Gyfarwyddeb yn berthnasol *mutatis mutandis* i sianeli teledu sydd wedi'u neilltuo'n gyfan gwbl i hysbysebu a thelesiopa yn ogystal ag i sianeli teledu sydd wedi'u neilltuo'n gyfan gwbl i hunanhyrwyddo.

Ond, ni fydd pennod VI nac Erthyglau 20 a 23 yn berthnasol i'r sianeli hyn.

## Gwarchod pobl ifanc dan oed mewn darllediadau teledu

## Erthygl 27

1. Rhaid i Aelod-wladwriaethau gymryd mesurau priodol i sicrhau nad yw darllediadau teledu gan ddarlledwyr dan eu hawdurdodaeth yn cynnwys unrhyw raglenni a allai amharu'n ddifrifol ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol plant dan oed, yn enwedig rhaglenni sy'n cynnwys pornograffi neu drais di-alw-amdano.
2. Rhaid i'r mesurau y darparwyd ar eu cyfer ym mharagraff 1 ymestyn hefyd i raglenni eraill sy'n debygol o amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol plant dan oed, ac eithrio lle y sicrheir, drwy ddewis amser y darllediad neu drwy unrhyw ddull technegol, na fydd plant dan oed yn ardal y darllediad yn clywed neu'n gweld darllediadau o'r fath fel arfer.
3. Yn ogystal, pan ddarlledir rhaglenni o'r fath ar ffurf heb ei hamgodio, rhaid i Aelod-wladwriaethau sicrhau bod rhybudd clywedol yn cael ei roi cyn y rhaglenni, neu y cânt eu hadnabod oherwydd presenoldeb symbol gweledol drwy gydol y rhaglenni.

## Hawl i ateb mewn darllediadau teledu

## Erthygl 28

1. Heb amharu ar ddarpariaethau eraill a fabwysiadwyd gan yr Aelod-wladwriaethau dan y gyfraith sifil, y gyfraith weinyddol neu gyfraith troseddau, rhaid i unrhyw berson naturiol neu gyfreithiol, beth bynnag yw ei genedligrwydd, y mae ei fuddiannau dilys, yn enwedig ei gymeriad a'i enw da, wedi'u niweidio oherwydd datgan ffeithiau anghywir mewn rhaglen deledu, gael yr hawl i ateb neu rwymedïau cyfwerth. Rhaid i Aelod-

wladwriaethau sicrhau na rwystrir yr arfer ar yr hawl i ateb neu rwymedïau cyfwerth drwy osod telerau neu amodau afresymol. Rhaid darlledu’r ateb cyn pen cyfnod rhesymol ar ôl cadarnhau’r cais, ac ar amser ac mewn modd sy’n briodol i’r darllediad y mae’r cais yn cyfeirio ato.

2. Rhaid i hawl i ateb neu rwymedïau cyfwerth fodoli mewn perthynas â’r holl ddarlledwyr sydd dan awdurdodaeth Aelod-wladwriaeth.
3. Rhaid i Aelod-wladwriaethau fabwysiadu’r mesurau y mae eu hangen i sefydlu’r hawl i ateb neu i’r rhwymedïau cyfwerth a rhaid iddynt bennu’r weithdrefn sydd i’w dilyn i arfer yr hawl honno. Yn benodol, rhaid iddynt sicrhau y caniateir cyfnod amser digonol a bod y gweithdrefnau’n gyfryw fel bod personau naturiol neu gyfreithiol sy’n preswylio neu sydd wedi ymsefydlu mewn Aelod-wladwriaethau eraill yn gallu arfer yr hawl i ateb neu i’r rhwymedïau cyfwerth yn briodol.
4. Ceir gwrthod cais i arfer yr hawl i ateb neu i’r rhwymedïau cyfwerth os nad oes cyfiawnhad dros ateb o’r fath yn unol â’r amodau sydd wedi’u pennu ym mharagraff 1, os byddai’n golygu gweithred gosbadwy, os byddai’n gwneud y darlledwr yn atebol i achos dan y gyfraith sifil, neu os byddai’n groes i safonau gwedduster cyhoeddus.
5. Rhaid darparu ar gyfer gweithdrefnau lle y gall anghydfodau ynghylch arfer yr hawl i ateb neu’r rhwymedïau cyfwerth fod yn destun adolygiad barnwrol.

# Atodiad 3

## Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol: Erthyglau 8, 9, 10 a 14

### Erthygl 8

1. Mae gan bawb yr hawl i barch at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a’i ohebiaeth.
2. Ni chaiff awdurdod cyhoeddus ymyrryd ag arfer yr hawl hon ac eithrio’r hyn sy’n unol â’r gyfraith ac sy’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, i atal troseddu neu anhrefn, neu i ddiogelu iechyd neu foesau, neu i ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill.

### Erthygl 9

1. Mae gan bawb yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd; mae’r hawl hon yn cynnwys rhyddid i newid ei grefydd neu gred a rhyddid, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill, ac yn gyhoeddus neu’n breifat, i ddangos ei grefydd neu’i gred, mewn addoli, addysgu, arfer a defod.
2. Rhaid peidio â chyfyngu ar y rhyddid i amlygu crefydd neu gredoau yr hunan ond drwy’r cyfyngiadau hynny a ragnodir gan y gyfraith ac sy’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er lles diogelwch y cyhoedd, er mwyn diogelu’r drefn gyhoeddus, iechyd neu foesau, neu er mwyn diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill.

### Erthygl 10

1. Mae gan bawb yr hawl i ryddid i lefaru. Rhaid i’r hawl hon gynnwys rhyddid i arddel barnau ac i gael a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus a heb ystyried ffiniau. Ni fydd yr Erthygl hon yn atal Gwladwriaethau rhag pennu gofyniad i drwyddedu mentrau darlledu, teledu neu sinema.

2. Gall arfer y rhyddid hwn, gan fod dyletswyddau a chyfrifoldebau'n cyd-fynd ag ef, fod yn amodol ar ffurfioldebau, amodau, cyfyngiadau neu gosbau a ragnodir gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd, er lles diogelwch cenedlaethol, uniondeb tiriogaethol neu ddiogelwch y cyhoedd, i atal troseddu ac anhrefn, i ddiogelu iechyd neu foesau, i ddiogelu enw da neu hawliau pobl eraill, i atal datgelu gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol, neu i gynnal awdurdod a didueddrwydd y farnwriaeth.

### Erthygl 14

1. Rhaid sicrhau yr arferir yr hawliau a'r rhyddid a bennwyd yn y Confensiwn hwn heb wahaniaethu ar unrhyw sail fel rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.

# Atodiad 4

## Hyrwyddiadau Ariannol ac Argymhellion Buddsoddi

(Dylai darlledwyr teledu gyfeirio at Reol 9.35 yn Adran Naw y Cod uchod. Dylai darlledwyr radio gyfeirio at Reol 10.13 yn Adran Deg y Cod uchod).

### Hyrwyddiadau Ariannol

1. Mae Adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 yn gwahardd unrhyw un, wrth gynnal busnes, rhag traddodi gwahoddiad neu anogaeth i ymwneud â gweithgarwch buddsoddi. Yr enw cyffredin ar hyn yw "y cyfyngiad ar hyrwyddo ariannol". Mae nifer o eithriadau i'r cyfyngiad ar hyrwyddo ariannol, a nodir y rhain yng Ngorchymyn Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Hyrwyddo Ariannol) 2005.3 Mae dau o'r eithriadau hyn yn neilltuol o berthnasol i ddarlledwyr: mae Erthygl 20 o'r Gorchymyn hwnnw'n cynnwys eithriad mewn perthynas â chyfathrebiadau gan newyddiadurwyr, ac mae Erthygl 20A o'r Gorchymyn hwnnw'n cynnwys eithriad mewn perthynas â darlledu hyrwyddiadau gan gyfarwyddwr cwmni neu gyflogai cwmni. Mae'r nodyn hwn yn pennu arweiniad rhwymol ar y modd y gall darlledwyr fanteisio ar yr eithriadau i'r cyfyngiad ar hyrwyddo ariannol.

**Ystyr "hyrwyddiad ariannol":**
Mae hyrwyddiad ariannol yn golygu gwahoddiad neu anogaeth i ymwneud â gweithgarwch buddsoddi (yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Cyfyngiadau ar hyrwyddo ariannol)).

### Eithriad mewn perthynas â chyfathrebiadau gan newyddiadurwyr (eithriad Erthygl 20)

2. Mae'r eithriad ar gyfer cyfathrebiadau gan newyddiadurwyr yn berthnasol i unrhyw hyrwyddiad ariannol heblaw un amser real y byddant yn ei baratoi wrth weithredu fel newyddiadurwyr. Er mwyn i'r eithriad fod yn gymwys i newyddiadurwyr darlledu, rhaid i'r hyrwyddiad ariannol fod naill ai:

   - yn wasanaeth newyddion neu wybodaeth a ddiweddarir yn rheolaidd (fel gwefan neu wasanaeth teletestun); neu
   - yn rhaglen neu ddarllediad teledu neu radio,

   a rhaid i brif ddiben y darllediad fod yn un heblaw cynghori ar neu arwain neu alluogi pobl i brynu neu werthu, gwarantau neu fuddsoddiadau sy'n seiliedig ar gontract.

3. Os cyfranddaliadau yw testun yr hyrwyddiad ariannol, a bod yr hyrwyddiad ariannol yn enwi’n uniongyrchol unigolyn sy’n cyhoeddi neu’n darparu’r cyfranddaliadau, rhaid i newyddiadurwyr gyflawni gofyniad datgelu hefyd i elwa o’r eithriad.

**Ystyr “cyfranddaliad”:**
Mae cyfranddaliad yn golygu unrhyw gyfranddaliad mewn cwmni ac mae’n cynnwys deilliad ar gyfranddaliad o’r fath (gan gynnwys opsiynau a fasnachwyd).

### Gofyniad datgelu:

Byddai’n rhaid datgelu buddiant ariannol os byddai’r newyddiadurwr (neu aelod agos o’i deulu) yn debygol o gael budd ariannol neu osgoi colled ariannol pe byddai pobl yn gweithredu’n unol â’r hyrwyddiad ariannol. Mewn achos o’r fath, rhaid i’r newyddiadurwr neu’r golygydd sy’n gyfrifol am yr hyrwyddiad ariannol ddatgan natur unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddo ef (neu aelod agos o’i deulu).

Nodyn: Mae’r gofyniad datgelu’n amodol ar eithriadau penodol, a nodir ym mharagraffau 4 i 6 isod.

**Ystyr “aelod agos o’r teulu”:**
Mae aelod agos o’r teulu’n golygu priod a phlant dan ddeunaw mlwydd oed.

4. Yr eithriadau i’r gofyniad datgelu yw lle y mae’r hyrwyddiad ariannol naill ai:
   - mewn gwasanaeth neu ddarllediad sydd â systemau a gweithdrefnau priodol sy’n atal cyhoeddi cyfathrebiadau heb ddatgelu buddiannau ariannol; neu
   - mewn gwasanaeth neu ddarllediad sy’n dod o fewn cylch gwaith:
     – y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Cwynion y Wasg;
     – Cod Darlledu Ofcom; neu
     – y Canllawiau i Gynhyrchwyr a gyhoeddwyd gan y BBC.

5. Os yw darlledwr yn dymuno manteisio ar eithriad Erthygl 20 ar gyfer newyddiadurwyr, mae ganddo ddewis. Gall y darlledwr naill ai:
   - gydymffurfio â’r gofyniad datgelu; neu
   - roi systemau a gweithdrefnau priodol ar waith sy’n atal darlledu hyrwyddiadau ariannol heb ddatgelu buddiannau ariannol.

6. Mae’r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (yr “FSA”) yn awgrymu y gellid cyflawni’r ail ddewis ym mharagraff 5 uchod drwy, er enghraifft, i’r darlledwr fynnu bod pobl sy’n gweithio ar raglenni ariannol yn datgan ac yn cofrestru eu perchnogaeth ar gyfranddaliadau. Byddai’r gofrestr hon ar gael i’r staff golygyddol uchaf sy’n gallu sicrhau na ddarlledir hyrwyddiadau hunangeisiol gan yr unigolyn dan sylw. Hefyd, byddai’r FSA yn disgwyl bod gofyniad i hysbysu staff perthnasol am fodolaeth y gofrestr hon ac am eu rhwymedigaethau i ddatgelu buddiannau ariannol, ac iddynt gadarnhau eu bod yn derbyn y rhwymedigaethau hyn yn ysgrifenedig.

### Darlledu hyrwyddiadau gan gyfarwyddwr cwmni etc (eithriad Erthygl 20A)

7. Prif ddiben yr eithriad ar gyfer darlledu hyrwyddiadau gan gyfarwyddwyr cwmni yw gwarchod rhag y posibilrwydd, yn ystod cyfweliad a ddarlledir neu gyflwyniad gwefan byw, y caiff hyrwyddiad ariannol ei wneud yn anfwriadol gan gyfarwyddwr neu gyflogai cwmni neu fenter busnes arall pan nad yw’r person hwnnw’n gweithredu fel newyddiadurwr.

8. Ar yr amod na wneir yr hyrwyddiad ariannol fel rhan o ymgyrch farchnata a drefnwyd, mae’r eithriad yn gymwys os yw’r hyrwyddiad ariannol:
   - yn cynnwys geiriau sy’n cael eu llefaru gan y cyfarwyddwr neu gyflogai a heb eu

darlledu, eu trosglwyddo neu eu dangos yn ysgrifenedig; neu

- yn cael ei ddangos yn ysgrifenedig dim ond am ei fod yn rhan o ddeialog ryngweithiol y mae'r cyfarwyddwr neu'r cyflogai yn rhan ohono, a bod disgwyliad yn ystod y ddeialog y bydd y person hwnnw'n ymateb ar unwaith i gwestiynau a ofynnir gan un sy'n cael y cyfathrebiad.

Mae'r eithriad hefyd yn mynnu y nodir pwy yw'r cyfarwyddwr neu'r cyflogai yn yr hyrwyddiad ariannol cyn ei draddodi.

## Argymhellion ar fuddsoddi

9. Daeth Rheoliadau Argymhellion Buddsoddi (Cyfryngau) 2005 i rym ar 1 Gorffennaf 2005. Maent yn gosod safonau ar y rheini sydd, drwy'r cyfryngau, yn llunio argymhellion ar fuddsoddi neu'n lledaenu argymhellion ar fuddsoddi a luniwyd gan drydydd parti. Mae'r safonau'n mynnu bod yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n deg, ac y datgelir buddiannau sylweddol mewn buddsoddiad y mae rhywun yn ei argymell neu unrhyw wrthdaro buddiannau. Os yw rhywun yn cael ei reoleiddio gan yr FSA oherwydd ei weithgarwch yn llunio argymhellion ar fuddsoddi neu ledaenu argymhellion ar fuddsoddi a luniwyd gan drydydd parti, bydd yn ddarostyngedig yn lle hynny i reolau'r FSA.

**Ystyr "argymhelliad ar fuddsoddi":**
Mae argymhelliad yng nghyswllt buddsoddi'n digwydd pan fydd rhywun yn argymell penderfyniad buddsoddi penodol yn uniongyrchol, er enghraifft, prynu neu werthu cyfranddaliadau penodol neu warantu cynnig cyfranddaliadau penodol.

10. Mae eithriadau o'r Rheoliadau i'r rheini sy'n llunio neu'n lledaenu rheoliadau yn y cyfryngau lle mae trefniadau hunanreoleiddio ar waith, gan gynnwys lle y mae Cod Darlledu Ofcom yn berthnasol.

11. Yn ôl dehongliad Ofcom o'r Rheoliadau, maent yn gymwys i'w drwyddedigion ac i S4C fel a ganlyn. Lle mae pobl sy'n gweithio ar raglenni'n gwneud argymhelliad ar fuddsoddi eu hunain, rhaid i'r darlledwr sicrhau:

    - ei bod yn glir pwy yw'r person sy'n gwneud yr argymhelliad;
    - bod yr argymhelliad ar fuddsoddi wedi'i gyflwyno'n deg; a
    - bod unrhyw fuddiant ariannol y gellir disgwyl yn rhesymol iddo amharu ar wrthrychedd yr argymhelliad hwnnw'n cael ei ddatgelu.

**Ystyr "wedi'i gyflwyno'n deg":**
Mae hyn yn golygu y dylid gofalu'n rhesymol:

- bod ffeithiau'n cael eu gwahaniaethu oddi wrth wybodaeth nad yw'n ffeithiol (er enghraifft, barnau ac amcangyfrifon);
- os oes amheuaeth ynghylch a yw ffynhonnell yn ddibynadwy, fod hyn yn cael ei nodi; a
- bod pob rhagamcan, rhagolwg a tharged pris yn cael ei ddisgrifio felly.

12. Lle mae pobl sy'n gweithio ar raglenni'n lledaenu argymhelliad ar fuddsoddi a wnaed gan drydydd parti, rhaid i'r darlledwr sicrhau:

    - ei bod yn glir pa gwmni sy'n gwneud y rhaglen; ac
    - os llunnir crynodeb o argymhelliad, ei fod yn eglur a heb fod yn gamarweiniol, a bod cyfeiriad at luniwr yr argymhelliad.

13. Hefyd, lle mae pobl sy'n gweithio ar raglenni un ai'n gwneud argymhelliad ar fuddsoddi neu'n lledaenu argymhelliad a wnaed gan drydydd parti, rhaid i'r darlledwr sicrhau bod cyfeiriad clir yn ystod y rhaglen at y ffaith ei fod yn cael ei reoleiddio gan God Darlledu Ofcom. Byddai'r gofyniad hwn wedi'i gyflawni, er enghraifft, drwy gynnwys cyfeiriad o'r fath yn y credydau ar ddiwedd y rhaglen.

**Ystyr “pobl sy’n gweithio ar raglenni”:**
Mae hyn yn golygu pobl sy’n cael eu cyflogi gan y darlledwr neu gynhyrchydd annibynnol, neu rywun sy’n gweithio i gynhyrchydd annibynnol, sy’n gwneud rhaglen ar ran y darlledwr.

### Nodyn:

Lle mae rhaglen deledu neu radio’n dangos rhywun sy’n cael ei reoleiddio gan yr FSA sy’n gwneud argymhelliad ar fuddsoddi, y person hwnnw ac nid y darlledwr sy’n gyfrifol am ufudd-dod y person hwnnw i reolau’r FSA. Yn yr un modd, os yw person sy’n gweithio ar raglen yn cyfweld rhywun nad yw’n cael ei reoleiddio gan yr FSA sy’n gwneud argymhelliad ar fuddsoddi, yr un a gyfwelir ac nid y darlledwr sy’n gyfrifol am sicrhau ei fod yn ufuddhau i’r Rheoliadau.

# Atodiad 5

## Rhannau o Siarter a Chytundeb y BBC[31]

### Erthygl 46(7) o'r Siarter

Bydd yn rhaid i Ofcom sicrhau bod safonau'n cael eu dilyn yng nghynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol y DU sy'n gorfod bod yn unol â'r Codau Safonau a Thegwch.

Atodlen 3, paragraffau 3 a 4 y Cytundeb

3. Safonau cynnwys

(1) Wrth ddarparu Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus yn y DU, rhaid i'r BBC ddilyn y safonau sydd wedi cael eu gosod o dan adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Cod Safonau" Ofcom). At ddibenion y gofynion yn y Cod Safonau sy'n rhoi grym i adran 320 o'r Ddeddf honno (gofynion didueddrwydd dyladwy arbennig), bydd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy'n wasanaethau radio yn cael eu trin fel gwasanaethau radio cenedlaethol.

(2) Wrth Ddarparu Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus yn y DU, rhaid i'r BBC ddilyn y Cod Safonau i'r graddau mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu'r gwasanaethau rhaglenni ar-alwad hynny.

4. Y Cod Tegwch

(1) Rhaid i'r BBC ddilyn y cod sydd mewn grym o dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 -

(a) mewn cysylltiad â darparu Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y DU; a

(b) mewn perthynas â'r rhaglenni sy'n cael eu cynnwys yn y gwasanaethau hynny.

(2) Wrth Ddarparu Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus yn y DU, rhaid i'r BBC ddilyn yr un cod i'r graddau mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu'r gwasanaethau rhaglenni ar-alwad hynny.

(3) Yn rhinwedd Rhan 5 o Ddeddf Darlledu 1996, rhaid i Ofcom ystyried a dyfarnu ar gwynion sy'n dod ger eu bron ac sy'n ymwneud â-

(a) triniaeth anghyfiawn neu annheg mewn unrhyw raglen a ddarlledir gan y BBC; neu

(b) tarfu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad wrth gael, neu mewn cysylltiad â chael, deunydd a gynhwysir mewn rhaglenni o'r fath.

(4) Rhaid i Ofcom drin cwynion sy'n ymwneud ag unrhyw raglen sydd wedi cael ei chynnwys ar Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus yn y DU yn yr un ffordd â rhaglenni sy'n cael eu darlledu gan y BBC.

[31] Mae Siarter a Chytundeb y BBC ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement

# Rhan Dau: Y Cod Trawshyrwyddo

***[Ni gynigiodd Ofcom unrhyw newidiadau i'r Cod Trawshyrwyddo ac eithrio newid ei safle i ‘Ran Dau’ y ddogfen sy’n cynnwys Cod Darlledu Ofcom.]***

***Mae modd gweld y Cod Trawshyrwyddo llawn yma.***
https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/86404/bc2015-17-cross-promotion.pdf

Nid yw’r Cod hwn yn berthnasol i wasanaethau BBC a ariennir gan ffi’r drwydded. Mae trawshyrwyddiadau ar wasanaethau o'r fath yn amodol ar Gymal 63 Cytundeb y BBC.

# Rhan Tri : Rheolau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad

## Cyflwyniad

Mae’r rhan hon ond yn berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad. Mae’n nodi’r gofynion statudol y mae’n rhaid i ddarparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad gydymffurfio â nhw (“Rheolau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad”).

Mae Ofcom yn cyhoeddi arweiniad i helpu darparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad i ddeall sut mae Ofcom yn dehongli rheolau'r Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad. Mae'r arweiniad hwn ar gael ar wefan Ofcom[32].
Mae Ofcom hefyd yn cyhoeddi arweiniad ar wahân ynghylch beth sydd yn Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad a phwy sydd angen hysbysu Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad i Ofcom[33]

Ni chaiff y gofynion statudol ar gyfer hysbysebu ar Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad eu cynnwys yma. Mae Ofcom wedi dynodi’r Awdurdod Safonau Hysbysebu yn gyd-reoleiddiwr mewn perthynas â hysbysebu mewn Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad o 1 Medi 2010 ymlaen[34].

## Cefndir Deddfwriaethol y Rheolau ar Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad

Mae’r Rheolau ar Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad yn adlewyrchu Rhan 4A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, sydd yn ei thro yn gweithredu’r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol[35] (“Cyfarwyddeb AVMS”). Mae’r Rheolau’n cynnwys cyfeiriadau yn y troednodiadau at y darpariaethau statudol sy’n sail iddynt. Pan fydd darparwr Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad yn torri Rheol, mae hynny’n golygu ei fod wedi torri’r ddarpariaeth statudol berthnasol. Os bydd unrhyw wrthdaro anfwriadol yn yr ystyr neu’r dehongliad rhwng y Rheolau a’r Ddeddf, y Ddeddf fydd drechaf. Mae gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion posibl o dorri Rheolau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad ar gael ar ei wefan[36].

Bydd diffiniadau statudol yn cael eu darparu pan fydd hynny’n briodol. Sylwch fod y ddeddfwriaeth yn defnyddio’r term “awdurdod rheoleiddio priodol”. Ac eithrio mewn perthynas â hysbysebu, na ddaw o dan y Rheolau hyn, mae hynny’n golygu Ofcom oherwydd nad oes unrhyw gorff wedi cael ei ddynodi o dan adran 368B ar hyn o bryd.

---

32 https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/54922/rules_and_guidance.pdf
33 https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0028/71839/guidance_on_who_needs_to_notify.pdf
34 Mae’r rheolau perthnasol ar hysbysebu ar gael yn: https://www.cap.org.uk/Advertising-Codes/Non-Broadcast/CodeItem.aspx?cscid={aa7bc9c1-4ca6-4c00-b580-a9b01fe5f00f}#.VnF2IEqLTGg
35 Cyfarwyddeb 2007/65/EC o Senedd Ewrop a’r Cyngor 11 Rhagfyr 2007 gan ddiwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 89/552/EEC
36 https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/on-demand/rules-guidance. Mae gweithdrefnau eraill yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC.

# Rheolau

# Rheolau gweinyddol

### Rheol 1: Hysbysiad o fwriad i ddarparu Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad[37]

Rhaid i berson beidio â darparu Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad oni bai, cyn dechrau ei ddarparu, bod y person hwnnw wedi rhoi hysbysiad i Ofcom o fwriad y person i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.

Rhaid anfon hysbysiad o'r fath i Ofcom mewn ffordd o'r fath, a gan gynnwys gwybodaeth o'r fath, y gall Ofcom fynnu.

### Rheol 2: Hysbysiad o fwriad i wneud newidiadau sylweddol i wasanaeth sydd wedi'i hysbysu[38]

Rhaid i berson sydd wedi rhoi hysbysiad, cyn darparu'r gwasanaeth sydd wedi'i hysbysu gydag unrhyw wahaniaethau sylweddol, roi hysbysiad i Ofcom ynghylch y gwahaniaethau.

Rhaid anfon hysbysiad o'r fath i Ofcom mewn ffordd o'r fath, a gan gynnwys gwybodaeth o'r fath, y gall Ofcom fynnu.

### Rheol 3: Hysbysiad o fwriad i roi'r gorau i ddarparu gwasanaeth sydd wedi'i hysbysu[39]

Rhaid i berson sydd wedi rhoi hysbysiad, cyn rhoi'r gorau i'w ddarparu, roi hysbysiad i Ofcom o'r bwriad i roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth.

Rhaid anfon hysbysiad o'r fath i Ofcom mewn ffordd o'r fath, a gan gynnwys gwybodaeth o'r fath, y gall Ofcom fynnu.

### Rheol 4: Talu ffi ofynnol[40]

Rhaid i ddarparwr Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad dalu ffi i Ofcom fel y gall Ofcom ei fynnu o dan adran 368NA o'r Ddeddf.

### Rheol 5: Cadw rhaglenni am o leiaf 42 diwrnod[41]

Rhaid i ddarparwr Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad gadw copi o bob rhaglen sy'n cael ei chynnwys yn y gwasanaeth am o leiaf 42 diwrnod ar ôl y diwrnod pan na fydd y rhaglen ar gael i'w gwylio.

Rhaid i'r copi o'r rhaglen a gedwir fod o safon ac mewn fformat sy'n golygu bod modd gwylio'r rhaglen fel y cafodd ei gwneud ar gyfer ei gwylio.

[37] Adran 368BA o'r Ddeddf Nid yw'r Rheol hon yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC.
[38] Adran 368BA o'r Ddeddf Nid yw'r Rheol hon yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC
[39] Adran 368BA o'r Ddeddf Nid yw'r Rheol hon yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC
[40] Adran 368D(3)(za) o'r Ddeddf. Nid yw'r Rheol hon yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC
[41] Adran 368D(3)(zb) o'r Ddeddf. Nid yw'r Rheol hon yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC

### Rheol 6: Darparu gwybodaeth[42]

Rhaid i ddarparwr Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad gydymffurfio ag unrhyw ofyniad i ddarparu gwybodaeth o dan adran 368O o'r Ddeddf. Mae "gwybodaeth" yn cynnwys copïau o raglenni.

Mae Ofcom yn mynnu bod person sy'n ymddangos iddo ei fod neu y bu yn ddarparwr Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad ac sydd â gwybodaeth sydd ei hangen ar Ofcom er mwyn sicrhau cydymffurfiad â rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig o dan y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol yn darparu'r holl wybodaeth o'r fath fel y mae Ofcom yn ystyried sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw.

Efallai na fydd Ofcom yn mynnu bod gwybodaeth yn cael ei darparu o dan adran 368O oni bai ei fod wedi rhoi cyfle i'r person y gofynnir iddynt am y wybodaeth wneud sylwadau am y materion sy'n ymddangos i Ofcom eu bod yn rhoi rheswm dros wneud y cais.

Rhaid i Ofcom beidio â gofyn am ddarparu gwybodaeth o dan adran 368O ac eithrio drwy ofyn am y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn hysbysiad a fydd wedi'i gyflwyno i'r sawl y gofynnir iddynt am y wybodaeth sy'n disgrifio'r wybodaeth ofynnol ac sy'n nodi rhesymau Ofcom dros ofyn am y wybodaeth.

Rhaid i berson y mae gofyn iddyn nhw ddarparu gwybodaeth o dan yr adran hon ddarparu'r wybodaeth mewn ffordd ac o fewn cyfnod rhesymol fel sy'n cael ei bennu gan Ofcom yn yr alwad am wybodaeth.

### Rheol 7: Cydweithredu[43]

Rhaid i ddarparwr Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad gydweithredu'n llawn ag Ofcom at unrhyw ddiben yn adran 368O(2) neu (3).

### Rheol 8: Cydymffurfio â hysbysiadau gorfodaeth[44]

Rhaid i ddarparwr Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad gydymffurfio ag unrhyw hysbysiad gorfodaeth a gaiff.

### Rheol 9: Cyflenwi Gwybodaeth[45]

Rhaid i ddarparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad ddarparu'r wybodaeth ganlynol i ddefnyddwyr y gwasanaeth—

- (a) enw'r darparwr;
- (b) cyfeiriad y darparwr;
- (c) cyfeiriad electronig y darparwr[46] ; a
- (d) Enw, cyfeiriad a chyfeiriad electronig Ofcom (a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu mewn perthynas â chynnwys hysbysebion).

---

[42] Adran 368D(3)(a) o'r Ddeddf. Nid yw'r Rheol hon yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC

[43] Adran 368D(3)(b) o'r Ddeddf. Nid yw'r Rheol hon yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC

[44] Adran 368I o'r Ddeddf Nid yw'r Rheol hon yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC

[45] Adran 368D(2) o'r Ddeddf. Dylai darparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad (heblaw am y BBC) hefyd nodi'r rhwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth o dan adran 368O o'r Ddeddf

[46] Wedi'i ddiffinio gan adran 368D(4) o'r Ddeddf fel, "cyfeiriad electronig y caiff defnyddwyr anfon deunydd cyfathrebu electronig, ac sy'n cynnwys unrhyw nifer o gyfeiriadau a ddefnyddir at ddibenion derbyn deunyddiau cyfathrebu o'r fath".

## Rheolau golygyddol

### Rheol 10: Deunydd Niweidiol: Deunydd sy'n Debygol o Gymell Casineb[47]

Rhaid i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd sy'n debygol o gymell casineb ar sail hil, rhyw, crefydd neu genedligrwydd.

### Rheol 11: Deunydd Niweidiol: Diogelu Pobl Ifanc dan 18 (Deunydd dan Gyfyngiadau Arbennig)[48]

Rhaid i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd dan gyfyngiadau arbennig oni bai fod y deunydd ar gael mewn ffordd sy'n diogelu na fydd pobl ifanc o dan 18 fel rheol yn ei weld na'i glywed.

Ystyr "deunydd dan gyfyngiadau arbennig" ydy—

(a) gwaith fideo y mae'r awdurdod gwaith fideo[49] wedi cyhoeddi tystysgrif dosbarthiad R18 mewn perthynas ag ef;

(b) deunydd y mae ei natur yn golygu y byddai'n rhesymol disgwyl petai'r deunydd yn cael ei gynnwys mewn gwaith fideo a gyflwynwyd i'r awdurdod gwaith fideo ar gyfer tystysgrif dosbarthiad, byddai'r awdurdod gwaith fideo yn cyhoeddi tystysgrif dosbarthiad R18; neu

(c) ddeunydd arall a allai amharu'n ddifrifol ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl ifanc o dan 18 oed.

Wrth benderfynu a fydd unrhyw ddeunydd yn perthyn i (b), rhaid ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr awdurdod gwaith fideo yng nghyswllt ei bolisi mewn perthynas â chyhoeddi tystysgrifau dosbarthiad.

[47] Adran 368E(1) o'r Ddeddf
[48] Adran 368E(4) a (5) o'r Ddeddf
[49] Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain ("BBFC") sydd wedi'i ddynodi yn 'awdurdod gwaith fideo' ar hyn o bryd

Diffiniadau statudol sy'n berthnasol i Reol 11 - adran 368E(7)

Ystyr "Deddf 1984 " yw Deddf Recordiadau Fideo 1984;

mae "tystysgrif dosbarthiad" yn golygu'r un fath â'r ystyr ag sydd yn Neddf 1984 (gweler adran 7 o'r Ddeddf honno[50]);

Ystyr "tystysgrif dosbarthiad R18" yw tystysgrif dosbarthiad sy'n cynnwys y datganiad a grybwyllir yn adran 7(2)(c) o Ddeddf 1984 na chaiff recordiad fideo sy'n cynnwys y gwaith fideo ei gyflenwi ac eithrio mewn siop rhyw gofrestredig;

Ystyr "yr awdurdod gwaith fideo" yw'r person neu'r personau a ddynodir o dan adran 4(1) o Ddeddf 1984 fel yr awdurdod sy'n gyfrifol am lunio trefniadau mewn perthynas â gwaith fideo ac eithrio gemau fideo;

mae "gwaith fideo" yn golygu'r un fath â'r ystyr ag sydd yn Neddf 1984 (gweler adran 1(2) o'r Ddeddf honno)."

**Rheol 12: Nawdd[51]**

(1) Rhaid i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad neu raglen sy'n cael ei chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alwad beidio â chael ei noddi—

(a) er mwyn hyrwyddo sigaréts neu gynnyrch tybaco arall, neu

(b) gan ymgymeriad ei brif weithgarwch yw cynhyrchu neu werthu sigaréts neu gynhyrchion tybaco eraill.

(1A) Rhaid i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad neu raglen sydd wedi'i chynnwys mewn Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad beidio â chael ei noddi er mwyn hyrwyddo sigaréts electronig neu gynhwysyddion ail-lenwi sigaréts electronig.

(2) Rhaid i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad neu raglen sydd wedi'i chynnwys mewn Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad beidio â chael ei noddi er mwyn hyrwyddo meddyginiaeth sydd ond ar gael ar bresgripsiwn.

(3) Rhaid i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad beidio â chynnwys rhaglen newyddion neu raglen materion cyfoes a noddir.

(4) Mae paragraffau 11.22 i (11.28) yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad a noddir neu sy'n cynnwys rhaglen a noddir.

(5) Rhaid i noddi gwasanaeth neu raglen beidio â dylanwadu ar gynnwys y rhaglen mewn ffordd sy'n effeithio ar annibyniaeth olygyddol darparwr y gwasanaeth.

(6) Pan fydd gwasanaeth neu raglen yn cael ei noddi er mwyn hyrwyddo nwyddau neu wasanaethau, rhaid i'r gwasanaethau neu'r rhaglen a noddir a chyhoeddiadau nawdd sy'n

[50] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1984/39/section/7
[51] Adran 368G o'r Ddeddf. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC. Ond sylwch fod adrannau 9 a 10 o'r Cod Darlledu yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad y BBC ac mae'n cynnwys rheolau sy'n ymwneud â nawdd.

ymwneud ag ef beidio â hybu’n uniongyrchol prynu neu rentu’r nwyddau neu’r gwasanaethau, boed hynny drwy gyfeirio atyn nhw mewn ffordd sy’n hyrwyddo neu fel arall.

(7) Pan fydd gwasanaeth neu raglen yn cael ei noddi er mwyn hyrwyddo diod alcoholig, rhaid i’r gwasanaeth neu’r rhaglen a’r cyhoeddiadau nawdd sy’n ymwneud ag ef beidio â—

(a) bod wedi’i anelu’n benodol at bobl dan ddeunaw oed; neu

(b) annog yfed eithafol ar ddiodydd o’r fath.

(8) Rhaid i wasanaeth a noddir roi gwybod yn glir i ddefnyddwyr bod cytundeb noddi mewn bodolaeth

(9) Rhaid i enw’r noddwr a’r logo neu symbol arall (os oes un o gwbl) y noddwr gael ei ddangos ar ddechrau neu ar ddiwedd rhaglen sy’n cael ei noddi.

(10) Ni cheir defnyddio technegau sy’n manteisio ar bosibilrwydd cyfleu neges yn isganfyddol neu’n llechwraidd mewn cyhoeddiadau nawdd.

(11) Rhaid i gyhoeddiad nawdd beidio â—

(a) niweidio'r parch at urddas dynol;

(b) cynnwys hybu gwahaniaethu ar sail rhyw, tarddiad hiliol neu ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gred, anabledd, oed neu gyfeiriadedd rhywiol;

(c) annog ymddygiad sy’n niweidiol i iechyd neu ddiogelwch;

(d) annog ymddygiad sy’n hynod niweidiol i’r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd;

(e) achosi niwed corfforol neu foesol i bobl dan ddeunaw oed;

(f) annog y bobl hyn yn uniongyrchol i berswadio eu rhieni neu bobl eraill i brynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau;

(g) manteisio ar ymddiriedaeth y bobl hyn mewn rhieni, athrawon neu bobl eraill; neu

(h) dangos y bobl hyn yn afresymol mewn sefyllfaoedd peryglus.

<u>Diffiniad statudol o ‘raglen noddedig’ - adran 368G(12) a (13)</u>

Mae rhaglen sy’n cael ei chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn “noddedig” os bydd person (“y noddwr”) ac eithrio:

(a) darparwr y gwasanaeth hwnnw, neu

(b) cynhyrchydd y rhaglen honno,

wedi talu am holl gostau'r rhaglen neu rywfaint er mwyn hyrwyddo enw, nod masnach, delwedd, gweithgareddau, gwasanaethau neu gynnyrch y noddwr neu berson arall.

Ni chaiff rhaglen ei noddi os yw'n disgyn o fewn y diffiniad hwn dim ond drwy rinwedd cynnwys gosod cynnyrch[52] neu osod propiau[53] (gweler yr Arweiniad ar Reol 13).

Diffiniad statudol o wasanaeth rhaglenni ar-alwad noddedig - adran 368G(15) a (16)

Mae gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn "noddedig" os oes person ("y noddwr") ac eithrio darparwr y gwasanaeth wedi talu am holl gostau darparu'r gwasanaeth neu rywfaint er mwyn hyrwyddo enw, nod masnach, delwedd, gweithgareddau, gwasanaethau neu gynnyrch y noddwr neu berson arall.

Ni ystyrir bod person wedi talu am gostau darparu gwasanaeth neu rywfaint dim ond os ydy rhaglen sydd wedi cael ei chynnwys yn y gwasanaeth hwnnw wedi cael ei noddi gan y person hwnnw.

Diffiniad statudol o "gyhoeddiad nawdd" – adran 368G(17)

Ystyr "cyhoeddiad nawdd" yw:

(a) unrhyw beth sydd wedi cael ei gynnwys er mwyn cydymffurfio â'r gofynion i roi gwybod yn glir i ddefnyddwyr am fodolaeth cytundeb nawdd a dangos ar ddechrau neu ddiwedd rhaglen noddedig enw'r noddwr a'r logo neu symbol arall (os oes un o gwbl) y noddwr; ac

(b) unrhyw beth sydd wedi cael ei gynnwys ar yr un pryd neu fel arall mewn cysylltiad ag unrhyw beth ym mharagraff (a).

Diffiniad statudol o "gynnyrch tybaco" – adran 1 o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002

Ystyr "cynnyrch tybaco" ydy cynnyrch sy'n cynnwys tybaco yn gyfan gwbl neu'n rhannol ac y bwriedir iddo gael ei ysmygu, ei snwffio, ei sugno neu ei gnoi.

Diffiniadau statudol o "sigarét electronig" a "chynhwysydd ail-lenwi sigarét electronig" – adran 368R(1) o'r Ddeddf

Mae "sigarét electronig" yn golygu cynnyrch:

(a) mae modd ei ddefnyddio i gael anwedd sy'n cynnwys nicotin drwy declyn sy'n cael ei roi mewn ceg, neu unrhyw ran o'r cynnyrch hwnnw, gan gynnwys cetrisen, tanc a'r ddyfais heb getrisen neu danc (ni waeth a yw'n un sy'n cael ei ddefnyddio unwaith neu'n un mae modd ei ail-lenwi drwy ddefnyddio cynhwysydd ail-lenwi a thanc, neu un mae modd ei ailwefru gyda chetrisen mae modd ei defnyddio unwaith), ac

[52] Gweler adran 368H(1) o'r Ddeddf.

[53] Gweler adran 368H(2) o'r Ddeddf.

(b) nad yw'n gynnyrch meddyginiaethol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 nac yn ddyfais feddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002.

Mae "cynhwysydd ail-lenwi sigarét electronig" yn golygu llestr sydd:

(a) yn cynnwys hylif sy'n cynnwys nicotin, mae modd ei ddefnyddio i ail-lenwi sigarét electronig; a

(b) nad yw'n gynnyrch meddyginiaethol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 nac yn ddyfais feddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002.

## Rheol 13: Gwahardd Gosod Cynnyrch ac Eithriadau[54]

Nodyn:

Mae paragraffau 11.29 i 11.32 ond yn berthnasol mewn perthynas â rhaglenni y dechreuwyd eu cynhyrchu ar ôl 19 Rhagfyr 2009. Mae gwahardd gosod cynnyrch sigaréts electronig a chynhwysyddion ail-lenwi sigaréts electronig ond yn berthnasol mewn perthynas â rhaglenni y dechreuwyd eu cynhyrchu ar ôl 19 Mai 2016.

Gosod Cynnyrch wedi'i Wahardd

Mae gosod cynnyrch wedi'i wahardd mewn rhaglenni i blant sydd wedi cael eu cynnwys mewn Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad.

Mae gosod cynnyrch wedi cael ei wahardd mewn Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad os—

(a) bydd yn cynnwys sigaréts neu gynnyrch tybaco arall,

(b) bydd gan neu ar ran ymgymeriadau sy'n cynhyrchu neu'n gwerthu sigaréts neu gynhyrchion tybaco eraill fel eu prif weithgarwch, neu

(c) bydd yn feddyginiaethau sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig; neu

(d) bydd yn sigaréts electronig neu'n gynhwysyddion ail-lenwi.

Rhaid i osod cynnyrch gyda diodydd alcoholig beidio—

(a) â bod wedi'i anelu'n benodol at bobl dan ddeunaw oed;
(b) ag annog yfed eithafol ar ddiodydd o'r fath.

Gosod Cynnyrch a Ganiateir

Yn amodol ar yr uchod, mae gosod cynnyrch yn cael ei ganiatáu fel arall mewn rhaglenni sydd wedi cael eu cynnwys mewn gwasanaethau rhaglenni ar-alwad ar yr amod—

(a) bod amodau A i F isod yn cael eu bodloni, a

[54] Adran 368H o'r Ddeddf

(b) pan fydd y rhaglen sy’n cynnwys y gosod cynnyrch wedi cael ei chynhyrchu neu ei chomisiynu gan y darparwr Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad neu unrhyw berson cysylltiedig, bod amod G hefyd yn cael ei fodloni.

**Amodau A i F**

Amod A:

Mae’r rhaglen sy’n cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, neu sy’n cyfeirio ato, yn—

a) ffilm a gynhyrchwyd ar gyfer y sinema;

b) ffilm neu gyfres a gynhyrchwyd ar gyfer gwasanaeth rhaglenni teledu neu wasanaeth rhaglenni ar gais;

c) rhaglen chwaraeon; neu

d) rhaglen adloniant ysgafn.

Amod B

Nid yw gosod cynnyrch wedi dylanwadu ar gynnwys y rhaglen mewn ffordd sy’n effeithio ar annibyniaeth olygyddol darparwr y gwasanaeth.

Amod C

Ni ddylai gosod cynnyrch annog prynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau yn uniongyrchol, boed hynny drwy gyfeirio at y nwyddau neu’r gwasanaethau mewn ffordd sy’n eu hyrwyddo neu fel arall.

Amod D

Ni ddylai’r rhaglen roi amlygrwydd amhriodol i’r cynhyrchion, y gwasanaethau na’r nodau masnach dan sylw;

Amod E

Ni ddylai gosod cynnyrch ddefnyddio technegau sy’n manteisio ar bosibilrwydd cyfleu neges yn isganfyddol neu’n llechwraidd.

Amod F

Nid yw’r ffordd y mae cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, yn cael ei gynnwys yn y rhaglen, neu’r cyfeiriad ato, drwy osod cynnyrch yn—

(a) niweidio'r parch at urddas dynol;

(b) hybu gwahaniaethu ar sail rhyw, tarddiad hiliol neu ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gred, anabledd, oed neu gyfeiriadedd rhywiol;

(c) annog ymddygiad sy’n niweidiol i iechyd neu ddiogelwch;

(d) annog ymddygiad sy’n hynod niweidiol i’r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd;

(e) achosi niwed i bobl dan ddeunaw oed;

(f) annog y bobl hyn yn uniongyrchol i berswadio eu rhieni neu bobl eraill i brynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau;

(g) manteisio ar ymddiriedaeth y bobl hyn mewn rhieni, athrawon neu bobl eraill; neu

(h) dangos y bobl hyn yn afresymol mewn sefyllfaoedd peryglus.

Amod G

Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad dan sylw yn tynnu sylw'n briodol at y ffaith bod gosod cynnyrch wedi cael ei gynnwys mewn rhaglenni, ddim yn llai aml na—

(a) ar ddechrau ac ar ddiwedd rhaglen o'r fath, ac

(b) o ran gwasanaeth rhaglenni ar-alwad sy'n cynnwys egwyliau hysbysebion, pan fydd y rhaglen yn ailddechrau ar ôl pob egwyl hysbysebion o'r fath.

Nodyn: Mae Amod G yn berthnasol dim ond pan fydd y rhaglen sy'n cynnwys y gosod cynnyrch wedi cael ei chynhyrchu neu ei chomisiynu gan ddarparwr y gwasanaethau neu unrhyw berson cysylltiedig.

Diffiniad statudol o "Osod cynnyrch"[55]

Ystyr "gosod cynnyrch", mewn cysylltiad â rhaglen a gaiff ei chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, yw cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen, neu gyfeirio ato mewn rhaglen, a hynny—

(a) at ddiben masnachol;
(b) yn gyfnewid am unrhyw daliad, neu roi ystyriaeth werthfawr arall, i unrhyw ddarparwr perthnasol neu unrhyw un sy'n gysylltiedig, ac
(c) heb fod yn osod propiau.

Diffiniad statudol o "Osod propiau"[56]

Ystyr "gosod propiau", mewn cysylltiad â rhaglen a gaiff ei chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, yw cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen, neu gyfeirio ato mewn rhaglen, a hynny:

(a) pan nad yw darparu cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach o werth sylweddol; a

(b) phan na fydd unrhyw ddarparwr perthnasol, neu rywun sy'n gysylltiedig â darparwr perthnasol, wedi cael unrhyw daliad neu ystyriaeth werthfawr arall mewn cysylltiad â'i gynnwys neu gyfeirio ato mewn rhaglen, neu y

[55] Adran 368H(1) o'r Ddeddf.
[56] Adran 368H(2) o'r Ddeddf.

cyfeirir ati, gan anwybyddu'r costau a arbedwyd drwy gynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, neu gyfeirio ato mewn rhaglen.

Diffiniad statudol o "Raglen i blant"[57]

Mae "rhaglen i blant" yn golygu rhaglen a wneir:

(a) ar gyfer gwasanaeth rhaglenni teledu neu ar gyfer gwasanaeth rhaglenni ar alwad; ac
(b) i'w gwylio'n bennaf gan bobl dan un ar bymtheg oed

Diffiniad statudol o "gynnyrch tybaco" – adran 1 o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002

Ystyr "cynnyrch tybaco" ydy cynnyrch sy'n cynnwys tybaco yn gyfan gwbl neu'n rhannol ac y bwriedir iddo gael ei ysmygu, ei snwffio, ei sugno neu ei gnoi.

Diffiniadau statudol o "sigarét electronig" a "chynhwysydd ail-lenwi sigarét electronig" – adran 368R(1) o'r Ddeddf

Mae "sigarét electronig" yn golygu cynnyrch:

(a) mae modd ei ddefnyddio i gael anwedd sy'n cynnwys nicotin drwy declyn sy'n cael ei roi mewn ceg, neu unrhyw ran o'r cynnyrch hwnnw, gan gynnwys cetrisen, tanc a'r ddyfais heb getrisen neu danc (ni waeth a yw'n un sy'n cael ei ddefnyddio unwaith neu'n un mae modd ei ail-lenwi drwy ddefnyddio cynhwysydd ail-lenwi a thanc, neu un mae modd ei ailwefru gyda chetrisen mae modd ei defnyddio unwaith), ac

(b) nad yw'n gynnyrch meddyginiaethol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 nac yn ddyfais feddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002.

Mae "cynhwysydd ail-lenwi sigarét electronig" yn golygu llestr sydd:

(a) yn cynnwys hylif sy'n cynnwys nicotin, mae modd ei ddefnyddio i ail-lenwi sigarét electronig; a

nad yw'n gynnyrch meddyginiaethol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 nac yn ddyfais feddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002.

[57] Adran 368R(1) o'r Ddeddf.

Diffiniadau statudol eraill ar gyfer Rheol 13

Ystyr "ffilm a gynhyrchwyd ar gyfer y sinema" yw:
ffilm a gynhyrchir gyda'r bwriad o'i dangos i'r cyhoedd am y tro cyntaf mewn sinema.

Ystyr "darparwr perthnasol" mewn cysylltiad â rhaglen yw:

(a) darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad y mae'r rhaglen yn rhan ohono; a
(b) chynhyrchydd y rhaglen;

Ystyr "gwerth gweddilliol" yw:
unrhyw werth ariannol neu economaidd arall sy'n nwylo'r darparwr perthnasol ar wahân i arbedion costau cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen, neu gyfeirio ato.

Ystyr "gwerth sylweddol" yw:
gwerth gweddilliol sy'n fwy na dibwys.

Mae "nod masnach" mewn perthynas â busnes, yn cynnwys:
unrhyw ddelwedd (fel logo) neu sain a gysylltir yn gyffredin â'r busnes hwnnw, neu ei gynhyrchion neu ei wasanaethau.

## Rheol 14: Deunydd Niweidiol: Deunydd wedi'i wahardd[58]

Rhaid i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd sydd wedi cael ei wahardd.

Ystyr "deunydd wedi'i wahardd" yw:

(a) gwaith fideo mae'r awdurdod gwaith fideo wedi pennu at ddibenion Deddf 1984[59] nad yw'n addas i gael tystysgrif dosbarthiad mewn perthynas ag ef, neu

(b) deunydd y mae ei natur yn golygu y byddai'n rhesymol disgwyl petai'r deunydd yn cael ei gynnwys mewn gwaith fideo a gyflwynwyd i'r awdurdod gwaith fideo ar gyfer tystysgrif dosbarthiad, byddai'r awdurdod gwaith fideo yn penderfynu at y dibenion hynny nad oedd y gwaith fideo yn addas i gael tystysgrif dosbarthiad ar ei gyfer.

Wrth benderfynu a fydd unrhyw ddeunydd yn perthyn i (b), rhaid ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr awdurdod gwaith fideo (Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain) yng nghyswllt ei bolisi mewn perthynas â chyhoeddi tystysgrifau dosbarthiad.

[58] Adran 368E(2) a (3) o'r Ddeddf
[59] Deddf Recordiadau Fideo 1984